

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd	Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Mai 2019	Kath Thomas – Dipwrwy Glerc
Amser: 09.00	0300 200 6565
	<a href="mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru">SeneddDeisebau@cynulliad.cymru</a>

---

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**  
(Tudalennau 1 – 48)

### **2 Deisebau newydd**

2.1 P-05-873 Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru  
(Tudalennau 49 – 55)

2.2 P-05-874 Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig  
untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru  
(Tudalennau 56 – 62)

2.3 P-05-875 Capió Codiadau Treth Gyngor yng Nghymru  
(Tudalennau 63 – 74)

2.4 P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob  
polisi  
(Tudalennau 75 – 90)

### **3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol**

#### **Amgylchedd**

3.1 P-05-717 Sefydlu Hawliau Mynediad Cyhoeddus Statudol i Dir a Dŵr  
Mewndirol at Ddibenion Hamdden a Dibenion Eraill  
(Tudalennau 91 – 101)



3.2 P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig

(Tudalen 102)

## **Diwylliant**

3.3 P-05-867 Gwneud Murlun 'Cofiwch Dryweryn' yn dirnod Cymreig dynodedig

(Tudalennau 103 - 107)

## **Addysg**

3.4 P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol

(Tudalennau 108 - 113)

3.5 P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

(Tudalennau 114 - 120)

3.6 P-05-789 Adolygu cymorth i geiswyr lloches sy'n ymgymryd ag addysg bellach

(Tudalennau 121 - 124)

3.7 P-05-802 Amddiffyn Maint Dosbarthiadau mewn Ystafelloedd Dosbarth a Gweithdai Dylunio a Thechnoleg

(Tudalennau 125 - 128)

3.8 P-05-821 Ailgyflwyno cyllid cymorth addysgol i awdurdodau lleol ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr

(Tudalen 129)

3.9 P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid Ysgolion Gwledig

(Tudalennau 130 - 149)

## **Bydd y ddwy eitem a ganlyn yn cael eu trafod ar y cyd**

3.10 P-05-860 Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm

(Tudalen 150)

3.11 P-05-861 Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd

(Tudalennau 151 – 154)

## **Tai a Llywodraeth Leol**

3.12 P-05-806 Rydym yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd

(Tudalennau 155 – 158)

3.13 P-05-864 Gwahardd y defnydd o Bensaernïaeth Elyniaethus

(Tudalennau 159 – 161)

## **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

3.14 P-05-754 Diffyg cymorth i blant ag anableddau mewn argyfwng

(Tudalennau 162 – 163)

3.15 P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru

(Tudalennau 164 – 170)

3.16 P-05-846 Achub Ysbyty Tywysog Philip Llanelli

(Tudalennau 171 – 182)

3.17 P-05-859 Dylid Darparu Tai Plant yng Nghymru i Blant sy'n Dioddef Camdriniaeth Rywiol

(Tudalennau 183 – 186)

## **Gwasanaethau cyhoeddus**

3.18 P-05-865 Dylid gwarantu bod dewisiadau sy'n seiliedig yn llwyr ar blanhigion ar bob bwydlen y sector cyhoeddus, i ddiogelu hawliau figaniaid ac er budd ein hie

(Tudalennau 187 – 193)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## P-05-873 – Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sheryl Callard, ar ôl casglu cyfanswm o 95 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Pan oeddwn yn iau, cefais fy amddifadu o'r hawl i astudio fy iaith frodorol yn yr ysgol ac, oherwydd hynny, nid wy'n siarad fy iaith frodorol heddiw. Rwyf i, a chynifer o bobl eraill o'm cenhedlaeth, a hyd yn oed y genhedlaeth iau, yn cael eu hamddifadu o'r modd i siarad Cymraeg oherwydd nad oedd addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion yn llwyddiannus gyda hwy yn y gorffennol. Dyna pam rwy'n gofyn i Lywodraeth Cymru wneud iawn am gamweddau'r gorffennol, a dangos gwir arweinyddiaeth i ymladd dros fy hawl i ddysgu fy iaith fy hun drwy ddarparu dosbarthiadau ac adnoddau Cymraeg am ddim. Rydym yn gofyn i Weinidog y Gymraeg gefnogi'r cynnig hwn ac ariannu'r dosbarthiadau fel y caf i, a llawer o bobl eraill a gafodd eu hamddifadu o'r iaith, y cyfle i'w siarad unwaith eto. Byddai hyn yn cyd-fynd yn llwyr â chynllun Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei nod, sef Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a byddai'n rhoi sbardun i bobl ail-afael yn eu diwylliant a'u mamiaith unwaith eto. Gofynnwn i'r Llywodraeth weithio gydag asiantaethau gwahanol i ddarparu'r gwersi hyn i bobl mewn ardaloedd gwahanol a thrwy drefnu i'r gwasanaethau dysgu fod ar gael i bobl ar y we. Hefyd i ddarparu llyfrynnau a phapurau i bobl wahanol o gefndiroedd gwahanol yng Nghymru er mwyn cael cyfle i ddysgu'r iaith.

A fyddech cystal â sicrhau hyn i bobl Cymru sy'n awyddus i adennill eu diwylliant a'u hiaith frodorol?

### Gwybodaeth ychwanegol:

#### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

## Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 07 Mai 2019

Petitions Committee | 07 May 2019

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: Deiseb P-05-873

Teitl y ddeiseb: Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru

Testun y ddeiseb: Pan oeddwn yn iau, cefais fy amddifadu o'r hawl i astudio fy iaith frodorol yn yr ysgol ac, oherwydd hynny, nid wy'n siarad fy iaith frodorol heddiw. Rwyf i, a chynifer o bobl eraill o'm cenhedlaeth, a hyd yn oed y genhedlaeth iau, yn cael eu hamddifadu o'r modd i siarad Cymraeg oherwydd nad oedd addysgu'r Gymraeg mewn ysgolion yn llwyddiannus gyda hwy yn y gorffennol. Dyna pam rwy'n gofyn i Lywodraeth Cymru wneud iawn am gamweddau'r gorffennol, a dangos gwir arweinyddiaeth i ymladd dros fy hawl i ddysgu fy iaith fy hun drwy **ddarparu dosbarthiadau ac adnoddau Cymraeg am ddim**. Rydym yn gofyn i Weinidog y Gymraeg gefnogi'r cynnig hwn ac ariannu'r dosbarthiadau fel y caf i, a llawer o bobl eraill a gafodd eu hamddifadu o'r iaith, y cyfle i'w siarad unwaith eto. Byddai hyn yn cyd-fynd yn llwyr â chynllun Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei nod, sef Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a byddai'n rhoi sbardun i bobl ail-afael yn eu diwylliant a'u mamiaith unwaith eto. Gofynnwn i'r Llywodraeth **weithio gydag asiantaethau gwahanol** i ddarparu'r gwersi hyn i bobl mewn ardaloedd gwahanol a thrwy drefnu i'r gwasanaethau dysgu fod **ar gael i bobl ar y we**. Hefyd i ddarparu llyfrynnau a phapurau i bobl wahanol o gefndiroedd gwahanol yng Nghymru er mwyn cael cyfle i ddysgu'r iaith.

A fyddech cystal â sicrhau hyn i bobl Cymru sy'n awyddus i adennill eu diwylliant a'u hiaith frodorol?

# 1. Cefndir

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw i nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gynyddu i filiwn erbyn 2050, sef bron dwbl y nifer sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 562,000 o bobl yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, tua 1 o bob 5 o'r boblogaeth.

Mae'r arolwg [Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru 2013-15](#) yn dangos bod y mwyafrif o siaradwyr Cymraeg erbyn hyn yn dysgu'r iaith yn yr ysgol (51 y cant) o gymharu â 43 y cant a ddywedodd iddynt ei dysgu yn y cartref fel plentyn. Gellir priodoli llawer o hyn i'r cynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg dros yr hanner canrif diwethaf, er nad yw ysgolion cyfrwng Cymraeg ond tua chwarter yr holl ysgolion yng Nghymru.

Bydd cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol yn dibynnu i raddau helaeth ar dwf addysg cyfrwng Cymraeg. Noda Llywodraeth Cymru yn [Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg](#), 'Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd'.

Mae Cymraeg 2050 yn mapio'r ffordd at filiwn o siaradwyr Cymraeg, sydd hefyd yn cynnwys cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg ac yn ei siarad. Noda Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

Mae gan y sector Cymraeg i Oedolion gyfraniad pwysig i'w wneud i'n nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Bydd yn gwneud hyn drwy alluogi oedolion o bob gallu ac oedran i wella'u sgiliau, ailddechrau astudio'r Gymraeg neu ddysgu o'r newydd er mwyn rhoi'r hyder iddynt i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn gymdeithasol neu o fewn y teulu.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae newidiadau strwythurol wedi'u gwneud yn y sector. Mae cyfle nawr i ddatblygu darpariaeth ar lefel genedlaethol i gefnogi cyrsiau ar gyfer y gweithle, y teulu, a chyfleoedd i ddefnyddio technoleg yn fwy effeithiol i gefnogi'r dysgu.

Yn dilyn ymchwiliad i Strategaeth Gymraeg Ddrafft Llywodraeth Cymru yn 2016, cyhoeddodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ei adroddiad, [Gwireddu'r Uchelgais](#), gan nodi:

Mae darpariaeth Cymraeg i Oedolion parod o ansawdd da yn rhan bwysig o'r 'ecosystem' gyffredinol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'n arbennig o bwysig o ran helpu i hyrwyddo'r iaith a helpu rhieni sydd am chwarae mwy o ran yn addysg eu plant. Fodd bynnag, efallai na fydd y gyfradd llwyddiant yn ddigon arwyddocaol i hyn gael ei ystyried yn ffordd ganolog ymlaen yng nghyd-destun nodau ac amcanion y strategaeth.

Argymhellodd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi darpariaeth Cymraeg i Oedolion, ond ei bod yn 'ystyried yn ofalus flaenoriaeth y maes hwn o fewn y strategaeth o gymharu â meysydd blaenoriaeth eraill'.

## 2. Cymraeg i Oedolion/Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cafodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2016. Mae'n gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg Cymraeg i Oedolion. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, datblygu cyrsiau, y [cwricwlwm](#) a marchnata.

Sefydlwyd y Ganolfan mewn ymateb i adolygiad o'r sector gan Lywodraeth Cymru – [Codi golygon: adolygiad o Gymraeg i Oedolion](#), sy'n nodi y dylai'r corff newydd fod yn gyfrifol am gydlynu a chynllunio darpariaeth dysgu Cymraeg i oedolion yn genedlaethol. Mae'r Ganolfan Genedlaethol yn gweithio gyda rhwydwaith o **11 darparwr Dysgu Cymraeg** ledled Cymru, sy'n cyflwyno cyrsiau Cymraeg i ddysgwyr ar ei rhan. Ar adeg yr adolygiad yn 2013, amcangyfrifwyd bod **un o bob 120 o oedolion di-Gymraeg** yng Nghymru yn dysgu Cymraeg.

Amcanion craidd y Ganolfan yw:

- Bod yn sefydliad gweledol sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r maes;
- Cynnig arweiniad i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion;
- Codi safonau addysgu a dysgu Cymraeg i Oedolion;
- Datblygu **cwricwlwm cenedlaethol** difyr, priodol ac o safon a **chynhyrchu adnoddau** sy'n addas i bob mathau o ddysgwyr.

I helpu dysgwyr a gwella'r mynediad at adnoddau dysgu, mae rhai o'r adnoddau a ddatblygwyd yn cael eu darparu [ar-lein](#).

### 2.1 Cyllid

Ar gyfer 2017–18, cafodd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol £1.85 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at y gwaith o [bennu cyfeiriad strategol](#) i'r sector ac ar gyfer **datblygu adnoddau dysgu cenedlaethol**; hefyd, dosbarthodd y ganolfan gyllid o £8.81 miliwn i ddarparwyr Dysgu Cymraeg ledled Cymru ar gyfer cyrsiau iaith.

Yn ogystal, dyfarnwyd £2.54 miliwn i'r rhaglen [Cymraeg Gwaith/Work Welsh](#) a ddatblygwyd i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle. *Mae Cymraeg Gwaith* yn cynnig hyfforddiant Cymraeg hyblyg i weithluoedd, a hynny **wedi'i ariannu'n llawn**.

Byddai'r cyllid ychwanegol ar gyfer Cymraeg Gwaith yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu:

- Gwybodaeth a chynghor i gyflogwyr ynghylch 'Cymraeg Gwaith';
- Cyrsiau ar-lein;
- Cyrsiau dwys ar gyfer 'Cymraeg Gwaith';
- Cyrsiau ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar;
- Cyrsiau preswyl ar gyfer 'Cymraeg Gwaith'.



Mae rhagor o fanylion am gyllideb y Ganolfan a'r cyllid a ddosbarthwyd i ddarparwyr Dysgu Cymraeg ar gael yn ei [Hadroddiad Blynyddol 2017-18](#).

## 2.2 Cyrsiau a Ffioedd

Er gwaethaf y cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr Dysgu Cymraeg, nid yw hyn yn ddigon ar gyfer holl gostau cyflwyno cyrsiau. Gall oedolion sydd am ddysgu'r iaith fanteisio ar nifer o wahanol gyrsiau sydd ar gael ledled Cymru, gyda chostau'r cyrsiau yn amrywio o'r naill ardal i'r llall ([fe'u gyflenwir gan wahanol ddarparwyr](#)); mae rhai ardaloedd yn darparu cyrsiau rhagflas am ddim neu am ffi enwol o £10-£30.

I'r rhai sy'n am ddatblygu eu sgiliau iaith, mae nifer fawr o gyrsiau ar gyfer gwahanol lefelau o ran dysgu a rhuglder. Mae cyrsiau'n dechrau gyda *Mynediad*, yna *Sylfaen*, *Canolradd*, *Uwch 1* ac *Uwch 2*. Mae'r ffioedd hefyd yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar hyd a dwyster y cwrs, ond mae'r rhan fwyaf o gyrsiau yn costio rhwng £70 a £120; mae'r cwrs drutaf yng Nghaerdydd (Cyrsiau Mynediad a Chanolradd – Rhan 1 a 2 yn para 8 wythnos am £360).

Hefyd, mae opsiwn i fynd ar gyrsiau preswyl dwys a ddarperir yn [Nant Gwrtheyrn](#). Mae'r cwrs drutaf yn para wythnos (llety a phob pryd bwyd) ac mae'n costio £495.

Gall oedolion sy'n am ddysgu bori drwy'r gwahanol gyrsiau sydd ar gael [ar-lein](#).

Er nad oes cymorth ariannol i helpu i dalu am ffioedd cyrsiau, mae'n bosibl y bydd unigolion yn gallu hawlio rhywfaint o gymorth ariannol i'w helpu i ddysgu Cymraeg. Gallai dysgwyr cymwys gael cymorth ar gyfer cost gofal plant (hyd at 3.5 awr am £5 y plentyn ar gyfer pob gwers), ffioedd arholiadau, cost adnoddau a chostau teithio (hyd at 60 milltir am £0.25 y filltir ar gyfer pob taith). Mae manylion pellach ar gael ar [wefan Dysgu Cymraeg](#).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref EM/05244/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

[senedddeisebau@cynulliad.cymru](mailto:senedddeisebau@cynulliad.cymru)

17 Ebrill 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â deiseb P-05-873 – Gwersi Cymraeg am ddim i bobl Cymru.

Yn dilyn adolygiad o'r maes Cymraeg i Oedolion yn 2013, sefydlwyd Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn 2016. Mae'n cynnig arweiniad strategol i'r maes, gan gynnwys datblygu cwricwlwm cyfoes, creu cyfres o gyrsiau newydd bydd yn cael eu cynnig gan bob darparwr ar draws Cymru, yn ogystal â chydweithio â phartneriaid i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda 11 darparwr i gynnig cyrsiau Cymraeg i oedolion ar draws Cymru. Mae modd chwilio am gyrsiau drwy wefan y Ganolfan - <https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/dod-o-hyd-i-gwrs/>.

Mae'r Ganolfan yn cynnig cefnogaeth ymarferol i ddysgwyr ar ffurf deunyddiau print a digidol rhad ac am ddim i fynd law yn llaw â'r cyrsiau newydd. Mae'r Ganolfan hefyd wedi datblygu cyrsiau ar-lein er mwyn cynnig ystod ehangach o gyfleoedd i ddysgwyr allu datblygu eu sgiliau Cymraeg. Ceir manylion pellach am waith y Ganolfan ar [www.dysgucymraeg.cymru](http://www.dysgucymraeg.cymru).

Mae amrywiaeth o ffioedd ar gyfer ymrestru ar gwrs dysgu Cymraeg ar hyn o bryd. Nid yw cynnig cyrsiau Cymraeg rhad ac am ddim i oedolion yn un o'r 10 newid trawsnewidiol a nodir yn 'Cymraeg 2050'. Serch hynny, mae sefydlu'r Ganolfan wedi cynnig cyfle i gysoni nifer o agweddau o'r rhaglen dysgu Cymraeg i oedolion, gan gynnwys ffioedd dysgu. O ganlyniad i waith gan y Ganolfan, bydd pob darparwr yn cyflwyno un ffi o £90 fesul cwrs prif ffrwd, waeth beth fo lefel neu batrwm y cwrs, o fis Medi 2019. Bydd y trefniadau newydd hyn yn sicrhau cysondeb a thegwch i bob dysgwr ar draws Cymru. Bydd un strwythur cyson o ran gostyngiadau ar gyfer ffioedd dysgu hefyd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r newidiadau hyn. Mae hwn yn cynnwys gostyngiad o 40% i unigolion ar fudd-daliadau a myfyrwyr, a gostyngiad o hyd at 100% (h.y. cynnig cyrsiau rhad ac am ddim) ar gyfer cyrsiau sy'n flaenoriaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cronfa Ariannol Wrth Gefn y Ganolfan yn cynnig cymorth ariannol i ddysgwyr Cymraeg. Mae'n cynnig cymorth tuag at amrywiaeth o gostau, gan gynnwys costau gofal plant a chostau teithio, er mwyn sicrhau nad yw'r rhain yn rhwystr i unigolion fynd ati i ddysgu.

Hyderaf fod y wybodaeth uchod yn egluro'r camau sydd ar waith i sicrhau bod oedolion yn mynd ati, ac - yn hollbwysig - parhau i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Fe fyddwn yn hapus iawn i ddarparu gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor, neu gellir cysylltu yn uniongyrchol â Phrif Weithredwr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Efa Gruffudd Jones, drwy e-bostio am wybodaeth bellach am eu gwaith i gryfhau'r gefnogaeth i ddysgwyr

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AC/AM**

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Minister for International Relations and the Welsh Language

## Eitem 2.2

### **P-05-874 – Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lydia Jackson, ar ôl casglu cyfanswm o 125 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Cynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru.

Fel y nodir gan Lywodraeth Cymru: "Gwaith Trafnidiaeth Cymru yw gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o rwydwaith trafndiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o safon uchel y mae pobl Cymru'n ymfalchïo ynddo."

Credwn y byddai gwahardd gwerthu plastig untro, sy'n niweidio ein hamgylchedd naturiol, yn gam sylweddol o ran cyflawni'r nod hwn a dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau dyfodol tecach a diogelach i ddinasyddion Cymru.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru

## Pecynnau plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru

Y Pwyllgor Deisebau | 07 Mai 2019

Petitions Committee | 07 May 2019

### Briff gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-874

Teitl y ddeiseb: Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru. Fel y nodir gan Lywodraeth Cymru: "Gwaith Trafnidiaeth Cymru yw gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o rwydwaith trafndiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o safon uchel y mae pobl Cymru'n ymfalchïo ynddo." Rydym yn teimlo y byddai gwahardd gwerthu plastigau untro sy'n niweidiol i'n hamgylchedd naturiol yn gam sylweddol tuag at gyrraedd yr amcan hwn ac yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu dyfodol tecach a mwy diogel i ddinasyddion Cymru.

### Cefndir

Mae plastigau untro, neu blastigau tafladwy, wedi'u cynllunio i'w defnyddio unwaith a'u taflu neu eu hailgylchu. Fel arfer, eitemau fel poteli plastig, gwellt yfed, cwpanau coffi a phecon bwyd parod yw'r rhain. Mae sylw diweddar yn y cyfryngau, yn enwedig cyfres [Blue Planet II ar y BBC](#) wedi dangos faint o weddillion plastig sydd yn ein cefnforoedd o ganlyniad i'n diwylliant 'taflu i ffwrdd'. Ceir tystiolaeth o ba mor gyffredin yw effaith plastig untro mewn arolygon sbwriel traethau. Mae adroddiad [Beachwatch](#) y [Gymdeithas Cadwraeth Forol](#) yn 2017 yn dangos mai darnau bach o blastig oedd yr eitem fwyaf cyffredin ar draethau ledled y DU.

Fe wnaeth adroddiad [Single Use Plastic and the Marine Environment](#) gan [Eunomia](#) yn 2017 ar gyfer [Seas at Risk](#) gyfrifo'r swm o wastraff plastig untro 'ar y ffordd' gan mai dyma sydd fwyaf tebygol o ddianc rhag systemau casglu gwastraff arferol. Mae canfyddiadau allweddol yr ymchwil yn cynnwys y canlynol:

- mae llawer o'r eitemau hyn nad oes rhaid iddynt fod wedi'u gwneud o blastig (e.e. mae opsiynau gwydr a phapur yn bodoli), tra bod eraill yn cael eu defnyddio'n ddiangen, e.e. gwellt yfed;

- mae llawer o gefnogaeth ymhlith y cyhoedd i fesurau i leihau'r defnydd o blastig, sy'n cynyddu ar ôl gweithredu'r mesurau;
- mae ffyrdd o leihau defnydd o blastigau untro yn bodoli, ac maent wedi bod yn rhedeg mewn nifer o leoedd ledled y byd; a
- byddai lleihau'r defnydd o eitemau plastig untro allweddol yn cael gwared ar ffynhonnell fawr o lygredd morol ym mhob un o foroedd Ewrop.

Fe wnaeth adroddiad yn 2018 gan Eunomia, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, [Options for Extended Producer Responsibility in Wales](#), amcangyfrif bod tua 950 tonnall o wastraff pecynnu bwyd parod yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru bob blwyddyn, ac amcangyfrifir mai dim ond 8.5% o hyn sy'n cael ei ailgylchu. Aeth ymlaen i ddweud:

While accounting for less than 0.06% by weight of Welsh municipal waste arisings, takeaway food packaging is a highly visible component of litter. We estimate that takeaway food packaging waste (which includes expanded polystyrene (EPS) containers) accounts for 1.6% of litter by weight on the ground and in litter bins, but accounts for a larger proportion overall by volume.

Mae'r adroddiad yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

Conduct trials of reusable take-away packaging, perhaps within specific areas such as covered, permanent markets in the first instance, in order to better understand consumer acceptance. Examples already exist of reusable tiffins for some food types, and innovation, and expanded uptake should be encouraged in this area across the whole range of takeaway food types.

Mae [ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr](#), fel y cyflwynwyd gan [Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr UE](#), yn ffordd o annog cynhyrchwyr i ystyried y rhan ôl-ddefnyddiwr o gylch bywyd cynnyrch drwy roi cyfrifoldeb iddynt amdani. Byddai ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr yn achos nwyddau sy'n cael eu gwerthu drwy wasanaethau Trafnidiaeth Cymru yn ffordd o annog cynhyrchwyr i leihau gwastraff wrth gynllunio pecynnau.

## Caffael gan Trafnidiaeth Cymru

Sefydlwyd [Trafnidiaeth Cymru](#) yn 2015 fel cwmni dielw sy'n gyfan gwbl eiddo i Lywodraeth Cymru. Ei ddiben cychwynnol oedd caffael a datblygu/rheoli masnachfaint rheilffyrdd newydd Cymru a gwasanaethau Metro ar Gledrau'r Cymoedd ar ran Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio pwerau gweithredol a ddatganolwyd yn 2018.

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw mai Trafnidiaeth Cymru fydd ei gwmni cyflenwi trafndiaeth. Mae achos busnes wrthi'n cael ei ddatblygu i ystyried sut y gellid datblygu'r rôl ehangach hon. Mae hyn yn golygu y gallai Trafnidiaeth Cymru fod yn gyfrifol am ragor o wasanaethau yn y dyfodol, er enghraifft rhai gwasanaethau bysiau. Fodd bynnag, yn y tymor byr mae'n bennaf gyfrifol am oruchwylio gwasanaethau rheilffyrdd.

Rhoddyd y fasnachfaint newydd i KeolisAmey ym mis Mai 2018. Dechreuodd KeolisAmey weithredu gwasanaethau rheilffyrdd ym mis Hydref 2018 fel [TrC Trenau](#).

Mae Trafnidiaeth Cymru a TrC Trenau yn gyrff ar wahân. Tra bod Trafnidiaeth Cymru yn gwmni dielw sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yn gyfan gwbl, mae TrC Trenau (KeolisAmey) yn gwmni gwasanaethau rheilffordd a seilwaith masnachol. Fodd bynnag, maent yn mabwysiadu dull partneriaeth o ddarparu gwasanaethau rheilffordd.

Er mai cwmni masnachol yw TrC Trenau, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gaffael cynifer o wasanaethau rheilffordd â phosibl yn ddielw. Wrth gyflwyno [tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ym mis Tachwedd 2018](#), dywedodd Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru y byddai hyn yn cynnwys pethau fel arlwyo, glanhau, gwerthu tocynnau, marchnata, a meysydd parcio. Aeth ymlaen i ddweud mai arlwyo wrth seddi fyddai'r gwasanaeth cyntaf y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ei gaffael ar y sail hon ac y byddai achos busnes llawn yn cael ei baratoi.

Nid yw'r llythyr gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i'r Pwyllgor Deisebau mewn ymateb i'r ddeiseb hon yn gwneud ymrwymiad uniongyrchol i wahardd pecynnau plastig untro. Fodd bynnag, mae'n cyfeirio at y canlynol:

- Cynllun Datblygu Cynaliadwy Trafnidiaeth Cymru, sy'n awgrymu y bydd Trafnidiaeth Cymru yn ei ddefnyddio i helpu i gyflawni a chefnogi dyfodol cynaliadwy i Gymru sy'n cyd-fynd yn llwyr â'r nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru; a
- Chynllun Rheoli Gwastraff Trafnidiaeth Cymru, sy'n gweithredu egwyddorion yr Hierarchaeth Gwastraff Ewropeaidd trwy ddileu, lleihau, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff. Mae'n nodi ymrwymiad i leihau'r defnydd o boteli diodydd plastig fel enghraifft.

Ar adeg ysgrifennu hyn, nid yw'r naill ddogfen wedi'u cyhoeddi ar wefan Trafnidiaeth Cymru.

## Camau gan Lywodraeth Cymru

Mewn datganiad ysgrifenedig ar [28 Medi 2017](#), dywedodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, "fel Llywodraeth, rydym yn derbyn bod angen gwneud mwy i wella ein cyfradd ailgylchu ymhellach ac i fynd i'r afael â sbwriel a'r materion sy'n gysylltiedig â chymdeithas a diwylliant 'taflu'". Awgrymodd, er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, y dylid ceisio "atal sbwriel rhag mynd i mewn i'r amgylchedd yn y lle cyntaf", a "[g]werthfawrogi'r adnoddau hynny rydym ni'n eu cymryd yn ganiataol yn rhy aml". Cyhoeddodd hi'r astudiaeth Eonomia i ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr (uchod) i asesu opsiynau posibl, gan ddweud:

Rwyf wedi comisiynu astudiaeth i asesu ymyriadau posibl i gynyddu gweithgarwch atal gwastraff, codi cyfraddau ailgylchu a lleihau sbwriel ar y tir a sbwriel morol. Bydd cynlluniau cyfrifoldeb cynhyrchwyr, megis y cynlluniau sydd ar waith yn y DU ar hyn o bryd, yn cael eu cynnwys yn yr ymchwil. Bydd Cynlluniau Dychwelyd Blaendal yn cael eu cynnwys hefyd. Bydd yr ymchwil hefyd yn asesu effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol posibl cynlluniau ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr (EPR), gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl.

Mewn datganiad gan Lywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar [27 Chwefror 2018](#), trafododd Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd, Hannah Blythyn AC, y camau gan Lywodraeth Cymru ar blastigau untro:

Rydym ni wedi sicrhau y bu Cymru'n rhan o alwad Llywodraeth y DU am dystiolaeth ynglŷn â sut y bydd yn ymdrin â mater plastig untro, gan gynnwys drwy ddefnyddio treth.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn parhau i weithio ar dreth plastig tafladwy annibynnol posibl ar gyfer Cymru.

Mewn datganiad gan Lywodraeth Cymru yn y Cyfarfod Llawn ar [8 Mai 2018](#), cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd ganlyniadau'r astudiaeth i ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr. Meddai:

Rwyf i'n ystyried diwygiadau i reoliadau rhwymedigaethau cyfrifoldeb cynhyrchwyr fel bod cynhyrchwyr a manwerthwyr yn talu cyfran fwy o gostau rheoli gwastraff.

... Rydym yn parhau i weithio gyda Thrysorlys EM ar dreth plastig untro i'r DU.

... Gallaf gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru wedi llofnodi cytundeb plastigau y DU WRAP.

Hefyd, cyhoeddodd ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i “weithredu ar ein geiriau”:

Rwyf i wedi ymrwmo i sicrhau nad oes plastig untro i'w weld yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn...

... Nid ydym yn defnyddio gwellt, trowyr na chyllyll a ffyrcc plastig yn ein ffreuturau. Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddylanwadu ar y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, er enghraifft drwy ddarparu contractau caffael deunyddiau tafladwy yn holl adeiladau Llywodraeth Cymru, drwy weithio gyda Gwerth Cymru.

Yn y Cyfarfod Llawn ar [13 Mehefin 2018](#), mewn ymateb i gwestiwn gan Iefarydd y Blaid Geidwadol, David Melding AC, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd ar y pryd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried:

... sut y defnyddiwn gaffael cyhoeddus... yn enwedig yn y sector cyhoeddus, a chydag unrhyw gontractau a chadwyni cyflenwi, a sut rydym yn cymhwyso caffael cyhoeddus gwyrdd. Ac yn enwedig o fewn fy mhortffolio fy hun, rydym yn edrych ar sut y gallwn, drwy weithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, ochr yn ochr â WRAP, a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ddatblygu ystod o fesurau sy'n caniatáu i ni nodi tueddiadau a chamau gweithredu i helpu i leihau'r defnydd o blastigion.

Ddydd Llun [18 Chwefror 2019](#), fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, Hannah Blythyn AC, ddatganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi [tri ymgynghoriad yn ceisio mynd i'r afael â gwastraff a phecynnu plastig](#).

Mae hi wedi annog pobl Cymru i ddweud eu dweud ar y cynigion ar y cyd, a lanswyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Llywodraeth y DU. Mae'r cynigion yn cynnwys [ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr](#) ar gyfer pecynnu (a fydd yn gymwys i'r DU gyfan), a [chynllun dychwelyd blaendal](#) ar gyfer cynwysyddion diodydd, a fydd yn gymwys i Gymru,



Lloegr a Gogledd Iwerddon (fe wnaeth Llywodraeth yr Alban [ymgyngori ar gynigion ar gyfer cynllun dychwelyd blaendal](#) y llynedd).

Mae trydydd ymgynghoriad ledled y DU, a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, yn ceisio barn ynghylch [treth arfaethedig ar gynhyrchu a mewnfario pecynnu plastig](#) sydd â llai na 30% o gynnwys wedi'i ailgylchu.

## Camau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Fe wnaeth Pwyllgor Deisebau y Pedwerydd Cynulliad drafod [deiseb flaenorol](#) ynghylch gwahardd pecynnu polystyren rhwng 2014 a 2016. Yn dilyn yr ymateb gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar y pryd, cytunodd y Pwyllgor nad oedd llawer mwy y gallai ei wneud i symud y mater yn ei flaen a chaewyd y ddeiseb.

Mae [Pwyllgor Deisebau](#) y Pumed Cynulliad wrthi'n trafod y deisebau cysylltiedig a ganlyn, gyda'r nod o leihau gwastraff plastig:

- [P-05-750 Ar gyfer eitemau untro: cyflwyno System Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd a sicrhau y gellir compostio cynwysyddion bwyd cyflym a'r offer sy'n gysylltiedig â hwy;](#)
- [P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!;](#)
- [P-05-822 Gwahardd gwellt plastig \(wrth yfed llaeth\) yn ein hysgolion;](#)
- [P-05-829 Gwahardd Eitemau Plastig Untro yng Nghymru; a](#)
- [P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig.](#)

Fe wnaeth y [Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig](#) gynnal [ymchwiliad](#) yn ddiweddar i lygredd microplastigau yn afonydd Cymru. Nid yw'r adroddiad wedi'i gyhoeddi eto.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref KS/05927/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

16 Ebrill 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch P-05-874 Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru.

Mae llawer iawn o egni ac ewyllys da ledled y wlad i wrthwynebu faint o blastig a ddefnyddiwn ac i leihau'r defnydd diangen ohono. Dylem geisio atal neu leihau cynhyrchion a pheccynnau plastig diangen neu rai na ellir eu hailgylchu.

Drwy Gynllun Datblygu Cynaliadwy Trafnidiaeth Cymru, bydd yn helpu i sicrhau a chefnogi dyfodol cynaliadwy i Gymru sy'n cyd-fynd yn llwyr â'r nodau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn rhoi hwb i economi a chymunedau Cymru, gan leihau unrhyw effaith ar yr amgylchedd a gwella cysylltiadau yng Nghymru a'i ffiniau ar yr un pryd.

Mae Cynllun Rheoli Gwastraff Trafnidiaeth Cymru yn gweithredu egwyddorion Hierarchaeth Wastraff Ewrop drwy waredu, lleihau, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff. Enghraifft o hyn yw ymrwymiad Trafnidiaeth Cymru i nod Llywodraeth Cymru i leihau'r defnydd o boteli plastig ar gyfer ddŵr a diodydd eraill drwy, ymhlith camau eraill, hyrwyddo'r defnydd o gynhwysyddion yfed y gellir eu hailddefnyddio gan deithwyr a cheisio darparu mynediad i ddŵr yfed am ddim er mwyn ail-lenwi poteli.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**  
**Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**  
**Minister for Economy and Transport**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 62**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

### **P-05-875 – Gwahardd gwerthu nwyddau sydd wedi eu pecynnu mewn plastig untro ar wasanaethau Trafnidiaeth Cymru**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tom MacLean, ar ôl casglu cyfanswm o 55 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae Cyngor Conwy yn ceisio cyflwyno codiad anhygoel o 11 y cant yn y dreth gyngor ar gyfer cartrefi yn y flwyddyn i ddod. Mae cynghorau eraill yng Nghymru hefyd yn cyflwyno codiadau treth gyngor y tu hwnt i gyfradd chwyddiant.

Galwaf ar i'r Cynulliad gapio codiadau yn y dreth gyngor i gyfradd chwyddiant am ddwy flynedd. Wrth i gyfraddau dlodi plant a dyledion cartrefi gynyddu, bydd y codiadau aruthrol yn y dreth gyngor yn cael effaith andwyol ar gartrefi.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae Cyngor Conwy wedi codi'r dreth gyngor 5 y cant o'r naill flwyddyn i'r llall, ond eleni mae'n ceisio cyflwyno codiad anhygoel o 11 y cant.

Mae gormod o gartrefi incwm isel eisoes mewn trafferthion; byddai codiad gwarthus o'r fath yn ergyd drom.

Rydym yn talu MWY ac yn cael LLAI a LLAI o ran gwasanaethau.

Yr un yw'r stori ledled Cymru.

Byddai capio codiadau treth gyngor i gyfradd chwyddiant am ddwy flynedd yng Nghymru yn fodd i deuluoedd dan bwysau gael eu gwynt atynt.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

## Capio Cyfraddau Treth Gyngor yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 07 Mai 2018

Petitions Committee | 07 May 2018

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-875

Teitl y ddeiseb: **Capio Cyfraddau Treth Gyngor yng Nghymru**

Testun y ddeiseb: Mae Cyngor Conwy yn ceisio cyflwyno codiad anhygoel o 11 y cant yn y dreth gyngor ar gyfer cartrefi yn y flwyddyn i ddod. Mae cynghorau eraill yng Nghymru hefyd yn cyflwyno codiadau treth gyngor y tu hwnt i gyfradd chwyddiant.

Galwaf ar i'r Cynulliad gapio codiadau yn y dreth gyngor i gyfradd chwyddiant am ddwy flynedd. Wrth i gyfraddau dlodi plant a dyledion cartrefi gynyddu, bydd y codiadau aruthrol yn y dreth gyngor yn cael effaith andwyol ar gartrefi.

#### Gwybodaeth ychwanegol

Mae Cyngor Conwy wedi codi'r dreth gyngor 5 y cant o'r naill flwyddyn i'r llall, ond eleni mae'n ceisio cyflwyno codiad anhygoel o 11 y cant.

Mae gormod o gartrefi incwm isel eisoes mewn trafferthion; byddai codiad gwarthus o'r fath yn ergyd drom.

Rydym yn talu MWY ac yn cael LLAI a LLAI o ran gwasanaethau.

Yr un yw'r stori ledled Cymru.

Byddai capio codiadau treth gyngor i gyfradd chwyddiant am ddwy flynedd yng Nghymru yn fodd i deuluoedd dan bwysau gael eu gwynt atynt.

## 1. Y cefndir

Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer awdurdodau lleol a hynny drwy'r Grant Cynnal Refeniw (RSG) a'r Ardrethi Annomestig wedi'u Hailddosbarthu (NDR). Gall awdurdodau lleol hefyd wneud cais am grantiau penodol eraill.

Yr awdurdodau lleol eu hunain sy'n codi gweddill y cyllid ar gyfer eu gwasanaethau. Yr elfen fwyaf arwyddocaol o'r cyllid hwn yw'r dreth gyngor. Mae nifer o ddulliau eraill o gynhyrchu incwm hefyd, fel taliadau dewisol am wasanaethau hamdden, parcio a gwastraff masnachol.

Mae rhagor o fanylion am gyllid awdurdodau lleol ar gael yn erthygl Ymchwil y Senedd, [Pigion](#), ac ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

## 2. Bandiau'r dreth gyngor a phrisio eiddo yng Nghymru

Treth ar eiddo domestig yw'r dreth cyngor ac mae'n seiliedig ar system o fandiau prisio sy'n gysylltiedig â gwerthoedd cyfalaf. Fe'i cyflwynwyd ym 1993 wedi i [Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992](#) ddod i rym. Roedd hon yn dileu'r system flaenorol o daliadau cymunedol, a gyflwynwyd i ddisodli ardrethi domestig.

Rhaid i eiddo gydymffurfio â'r diffiniad statudol o annedd sydd wedi'i gynnwys yn [Adran 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992](#) (Deddf Cyllid 1992) cyn y bydd yn ddarostyngedig i'r dreth gyngor arno. Mae anheddau yng Nghymru yn cael eu rhoi mewn un o naw band (wyth yn Lloegr), o A i I. Mae'r siart isod yn dangos y dreth gyngor sydd i'w thalu am eiddo ym mhob Band.

Tabl 1: Bandiau Treth Gyngor yng Nghymru

Band	Value at 1 April 2003
A	up to £44,000
B	£44,001 to £65,000
C	£65,001 to £91,000
D	£91,001 to £123,000
E	£123,001 to £162,000
F	£162,001 to £223,000
G	£223,001 to £324,000
H	£324,001 to £424,000
I	more than £424,000

[GOV.UK](#)


### 3. Cynnydd yn y dreth gyngor

Bydd y dreth gyngor yn codi 6.2 y cant (neu £77) ar gyfartaledd yn 2019–20. Bydd praesept yr heddlu'n codi 9.1 y cant (neu £22) ar gyfartaledd. O'u cyfuno, bydd y rhain yn arwain at gynydd o **6.6 y cant (neu £99)** ar gyfartaledd ar gyfer eiddo ym mand D.

O'i gymharu â hyn, yn 2018–19, cynyddodd y dreth gyngor 5 y cant (neu £60) ar gyfer eiddo Band D. Cynyddodd praeseptau'r heddlu 5.3 y cant (£12) felly, gyda'i gilydd, 5.1 y cant (neu £72) oedd y cynnydd ym mand D ar gyfartaledd.

Yn ôl data StatsCymru, yng Nghyngor Sir Penfro y bydd y dreth gyngor yn cynyddu fwyaf yn 2019–20, sef cynnydd disgwylidig o 9.92 y cant. Disgwylir cynnydd o 9.6 y cant yn y dreth gyngor yng Nghonwy. Mae erthygl gan BBC Wales (fel ar 24 Ebrill 2019) yn dangos y cynnydd canrannol yn y dreth gyngor ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru yn 2019–20:

**Ffigur 1: Cynnydd yn y Dreth Gyngor yn 2019–2020**



Ym mis Hydref 2018, dywedodd y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Torfaen a Llefarydd Cyllid CLILC, wrth y [Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau](#):

No-one wants to put council tax up, especially in an era where services are being cut back, because it inevitably leads to the accusation that people are paying more for less but, unfortunately, that's the inevitable reality of austerity.

## 4. Terfynau'r dreth gyngor a'r fframwaith deddfwriaethol

Er nad oes terfyn swyddogol ar faint y gall awdurdod lleol godi ei dreth gyngor, y gred oedd bod Gweinidogion Cymru wedi gosod **terfyn anffurfiol o 5%**. Mae'n bosibl bod y gred hon yn seiliedig ar ddatganiad yn 2007 gan [Sue Essex AC, y Gweinidog Cyllid ar y pryd](#), a ddywedodd:

Yr wyf wedi dweud wrth yr awdurdodau unedol ac awdurdodau'r heddlu fy mod wedi disgwyl iddynt bennu cyllidebau a fyddai'n golygu cynnydd yn y dreth gyngor o ddim mwy na 5 y cant am y flwyddyn ariannol nesaf.

Fodd bynnag, yn ei hymateb i'r ddeiseb, dywedodd Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, **nad yw Llywodraeth Cymru wedi pennu trothwyon** ar gyfer codi'r dreth gyngor.

Er nad oes unrhyw drothwyon wedi'u pennu ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru y gallu i gyfyngu ar gynnydd gormodol yng **Ngofyniad Cyllideb** awdurdodau lleol a Chomisïynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru.

### 4.1 Y fframwaith deddfwriaethol

Y ddeddfwriaeth berthnasol yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf Cyllid 1992").

Mae adran 52B o Ddeddf Cyllid 1992 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gymryd camau yn erbyn awdurdod lleol os ydynt o'r farn bod y gofyniad cyllideb a bennwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn arfaethedig yn 'ormodol'.

"Gofyniad cyllideb" yw'r swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwariant disgwyliedig yr awdurdod lleol (hy yr hyn y bydd angen ei wario i gyflawni ei swyddogaethau, arian grant y bydd yn rhaid ei ad-dalu i Weinidogion Cymru, arian i'w ddyrannu i gronfeydd wrth gefn) a'i incwm disgwyliedig (hy yr arian y mae'r awdurdod yn disgwyl ei gael y flwyddyn honno, yn amodol ar rai eithriadau).

- Mae adran 52B yn darparu bod yn rhaid iddynt gynhyrchu set o egwyddorion a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu a yw'r gofyniad cyllideb yn ormodol. Mae adran 52B yn darparu bod yn rhaid i'r egwyddorion hyn (o leiaf) gynnwys cymhariaeth rhwng gofyniad cyllideb y flwyddyn dan sylw a'r gofyniad ar gyfer blwyddyn gynharach.

- Mae adran 52C yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n pennu "swm tybiannol" ar gyfer cyllideb awdurdod lleol, i'w ddefnyddio fel sail i gymharu'r flwyddyn dan sylw ac unrhyw flwyddyn flaenorol. Gall Gweinidogion Cymru bennu symiau tybiannol mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os yw swyddogaeth neu ffin wedi newid – a, thrwy hynny, gellir gwneud cymhariaeth ddilys rhwng gofyniad cyllideb y flwyddyn dan sylw. Gellir ei ddefnyddio hefyd i bennu swm tybiannol os nad oedd gofyniad cyllideb wedi'i bennu ar gyfer blwyddyn gynharach.

Yn dilyn penderfyniad a wnaed drwy ddefnyddio'r egwyddorion sy'n ofynnol o dan adran 52B, os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod y swm a bennir gan awdurdod fel gofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn yn ormodol, mae adran 52D yn galluogi Gweinidogion Cymru i "ddynodi" neu "enwebu'r" awdurdod lleol hwnnw.

### Awdurdodau lleol dynodedig

- O dan adran 52E, os caiff awdurdod lleol ei *ddynodi*, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod o'r uchafswm y maent yn cynnig y dylai ei gyfrifo fel gofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn, a phennu'r uchafswm y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y gallai'r awdurdod ei gyfrifo fel ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn heb i'r swm hwnnw fod yn ormodol.
- Yna gall yr awdurdod lleol naill ai:
  - dderbyn yr uchafswm dynodedig a ddarparwyd gan Weinidogion Cymru; neu
  - herio penderfyniad Gweinidogion Cymru.
- Os na fydd yr awdurdod lleol yn llwyddo i herio'r uchafswm, gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi gorchymyn gorfodol i'r awdurdod lleol i sicrhau bod yr awdurdod yn cydymffurfio.

### Awdurdodau lleol enwebedig

- O dan adran 52L, yn achos awdurdod lleol *enwebedig*, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r awdurdod o'r swm y byddent wedi'i gynnig fel targed ar gyfer gofyniad cyllideb y flwyddyn dan sylw pe bai'r awdurdod yn awdurdod dynodedig.

Yn achos awdurdodau lleol enwebedig, gall Gweinidogion Cymru benderfynu:

- (a) *dynodi'r* awdurdod (yn dilyn y weithdrefn yn adran 52E a amlinellir uchod); neu
  - (b) benderfynu ar y swm y maent yn cynnig y dylai'r awdurdod ei gyfrifo'n swm tybiannol yng nghyd-destun ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn.
- Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod i awdurdod lleol eu bod wedi cynnig swm arfaethedig, mae gan yr awdurdod 21 diwrnod i naill ai:



- dderbyn y swm a gynigiwyd gan Weinidogion Cymru; neu
  - herio'r swm a gynigiwyd a gofyn i Weinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad.
- Os caiff y swm a gynigir ei herio gan yr awdurdod lleol a bod y rhesymau a roddwyd dros yr her yn cael eu derbyn, gall Gweinidogion Cymru ailystyried eu penderfyniad.

## 4.2 Dehongli'r ddeddfwriaeth

Er nad yw'r darpariaethau ym Mhennod IVA o Ddeddf Cyllid 1992 yn sôn yn benodol am y dreth gyngor, teitl y bennod sy'n ymdrin â nhw yw "Limitations of Council Tax and Precepts". Mae [papur briffio Tŷ'r Cyffredin ar gapio'r dreth cyngor](#) a gyhoeddwyd yn 2004 (Pennod III yn benodol) yn rhoi rhywfaint o gefndir ynghylch pam mae'r adran hon o'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r pŵer i Weinidogion gapio'r dreth gyngor.

Mae Gweinidogion Cymru wedi amlinellu'n flaenorol sut y gallent fod yn barod i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael i gyfyngu ar unrhyw gynnydd yn y dreth gyngor os ystyrir bod y cynnydd yn ormodol. Er enghraifft, yn ei [datganiad ar Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2014-15](#) (16 Hydref 2013), dywedodd y Gweinidog Llywodraeth Leol ar y pryd (Lesley Griffiths AC):

Wrth alluogi'r Awdurdodau Lleol i benderfynu lefel y dreth gyngor yn lleol, rwy'n cynnig hyblygrwydd iddynt reoli eu cyllidebau. Nid yw'r awdurdodau cyfatebol yn Lloegr sy'n destun cyfyngiadau yn sgil rhewi'r dreth gyngor yn mwynhau'r un hyblygrwydd. Fodd bynnag, rwyf wedi datgan yn hollol glir fy mod yn fodlon defnyddio'r pwerau capio sydd ar gael imi os ceir cynnydd gormodol.

Cafwyd datganiad tebyg yn 2015 gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar y pryd, a hynny yn ei [lythyr yn cyd-fynd â Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 2015-16](#):

Rwy'n barod i ddefnyddio'r pwerau capio sydd ar gael i mi pe bawn yn ystyried bod unrhyw gynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor yn ormodol. Rwyf hefyd yn disgwyl i bob awdurdod ystyried yr holl ffrydiau ariannu sydd ar gael wrth ystyried darparu gwasanaethau ac wrth bennu ei gyllideb a'i Dreth Gyngor.

Fodd bynnag, ers 2016, mae Gweinidogion Cymru wedi newid eu cân ac, wrth ymateb i gwestiwn ysgrifenedig yn y Cyfarfod Llawn, dywedodd Mark Drakeford AC, [Ysgrifennydd y Cabinet blaenorol dros Gyllid a Llywodraeth Leol](#) :

Mater i bob awdurdod unigol yw pennu treth gyngor. Wrth bennu lefelau treth gyngor, rwy'n disgwyl i awdurdodau sicrhau eu bod yn gallu cynnal gwasanaethau lleol a chydbwysu hyn â sefyllfa ariannol teuluoedd sydd dan bwysau.

Yn ei hymateb i'r ddeiseb hon, adleisiodd Julie James AC, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, y safbwynt uchod, gan nodi:

Mae pob awdurdod lleol yn wynebu penderfyniadau anodd ynglŷn â darparu'r gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnynt. Mae'r dreth gyngor yn ffynhonnell ariannu arwyddocaol yng nghyd-destun gwasanaethau lleol ac **mae'n bwysig bod gan awdurdodau lleol y rhyddid i osod eu treth gyngor eu hunain**; maent yn awdurdodau statudol annibynnol sy'n gyfrifol am reoli eu materion ariannol eu hunain.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref JJ/05635/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

10 Ebrill 2019

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr at Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, ynghylch deiseb yn galw am gapio codiadau'r dreth gyngor ac am y cyfle i amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru. Fi sy'n ymateb gan mai fi sy'n gyfrifol am lywodraeth leol.

Fel y byddwch yn gwybod, er bod gan Lywodraeth Cymru rai pwerau yma, mae'r cyfrifoldeb dros bennu cyllideb pob cyngor, ac fel rhan o hynny, benderfyniadau ar y dreth gyngor, yn nwylo ei aelodau etholedig. Yn ystod ei bodolaeth hyd yn hyn safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod pennu cyllidebau a'r dreth gyngor yn agwedd hanfodol ar ddemocratiaeth leol. Ers 2010-11, bu'r polisi'n rhan bwysig o'r ymreolaeth a'r hyblygrwydd a roddir i'r awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i reoli'r heriau a achosir gan y cyfyngiadau ledled y DU ar wariant cyhoeddus gwariant cyhoeddus. Mae hyn yn wahanol i Loegr lle y cyflwynodd Deddf Lleoliaeth 2011 ofynion ar gyfer refferenda lleol yn achos codiadau'r dreth gyngor sy'n uwch na'r trothwyon a bennir gan Lywodraeth y DU.

O dan y ddeddfwriaeth (*Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988*) mae gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfyngu (capio) Gofyniad Cyllidebol awdurdodau lleol Cymru. Mae'r pwerau'n ymwneud yn benodol â'r Gofyniad Cyllidebol y mae awdurdod (awdurdod unedol neu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd) yn ei bennu yn hytrach na lefel ei dreth gyngor. Y Gofyniad Cyllidebol yw'r rhan o gyllideb awdurdod a ariennir trwy RSG, ardrethi annomestig a'r dreth gyngor (ynghyd â mân ryddhad ardrethi disgresiynol, a Grant yr Heddlu yn achos Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd). Mae'n hepgor y rhan o gyllideb awdurdod a ariennir trwy incwm o grantiau penodol, ffioedd a thaliadau lleol a chronfeydd wrth gefn. Am y rheswm hwn, er mai'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd sy'n gyfrifol am bolisi'r dreth gyngor, fy mhorthfolio innau sy'n gyfrifol am benderfyniadau capio ochr yn ochr â'n cyfrifoldebau dros setliadau llywodraeth leol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd capio Gofyniad Cyllidebol awdurdod yn gam difrifol mewn perthynas â chyfrifoldebau aelodau etholedig lleol; ni ellid ei wneud yn fympwyol neu heb ystyriaeth ofalus. Yn ôl y ddeddfwriaeth os caiff capio ei orfodi rhaid iddo gael ei wneud yn erbyn meini prawf. Byddai angen i'r meini prawf – yn seiliedig ar egwyddorion gwario gormodol – gael eu hamlinellu cyn i'r awdurdodau bennu eu cyllidebau. Am y rheswm hwnnw, ni allai capio gael ei orfodi ar y gofynion cyllidebol y mae awdurdodau ledled Cymru wedi penderfynu a chytuno arnynt, yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu lleol.

Byddai angen gallu cymhwyso unrhyw egwyddorion o'r fath yn gyson ar draws awdurdodau, er bod modd pennu meini prawf gwahanol ar gyfer awdurdodau unedol ac ar gyfer praesept yr Heddlu. Gallai'r egwyddorion gynnwys nifer o feini prawf, er enghraifft, codiadau canrannol a / neu ariannol yn swm cyffredinol incwm y dreth gyngor, a / neu yn lefel treth Band D. Hyd yn oed os bydd angen mynd y tu hwnt i'r egwyddorion, gallai penderfyniad unrhyw Weinidog ynghylch a ddylid capio neu beidio gymryd i ystyriaeth ffactorau ac amgylchiadau lleol, er enghraifft, os oes rhaid i awdurdod ddelio â her ariannol benodol. Er bod ffigur o 5% wedi'i grybwyll gan rai sylwebwyr gan gynnwys gan rai awdurdodau fel y trothwy y gellid ei ystyried ar gyfer defnyddio pwerau capio, nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu trothwyon ar gyfer codiadau'r dreth gyngor.

Mae pob un o'r awdurdodau lleol yn wynebu penderfyniadau anodd ynghylch darparu'r gwasanaethau yr ydym oll yn dibynnu arnynt. Mae'r dreth gyngor yn ffynhonnell sylweddol o gyllid ar gyfer gwasanaethau lleol ac mae'n bwysig bod gan yr awdurdodau ryddid i bennu eu treth gyngor eu hunain; awdurdodau statudol annibynnol ydynt sy'n gyfrifol am reoli eu materion ariannol eu hunain

Wrth bennu eu cyllidebau a lefelau'r dreth gyngor, mae ar yr awdurdodau ddyletswydd i ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau allweddol i gymunedau a chyfyngu'r baich ariannol y maent yn ei osod arnynt. Mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol ymgynghori ac ymgysylltu â'u cymunedau bob blwyddyn ar eu cynigion ar gyfer gwario a'r dreth gyngor ac ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnig cyfle i gymunedau lleol fynegi eu barn am y penderfyniadau y mae eu cyngor yn eu gwneud ynghylch y dreth gyngor a gwasanaethau lleol.

Rwyf yn deall bod amgylchiadau'n anodd iawn i lawer o bobl ac aelwydydd ledled Cymru. Er bod Llywodraeth Cymru wedi amddiffyn yr awdurdodau rhag y gostyngiadau ariannu gwaethaf, mae naw mlynedd o fesurau cyni wedi gosod gwasanaethau lleol o dan gryn bwysau.

Mae'n bwysig cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru nifer o gynlluniau i helpu pobl sy'n ei chael yn anodd talu biliau'r dreth gyngor, yn ogystal ag ystod o esemptiadau a gostyngiadau eraill. Rydym yn darparu £244 y flwyddyn i gefnogi'r awdurdodau lleol i ddarparu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r cynllun hwn yn darparu cymorth uniongyrchol i aelwydydd trwy leihau biliau'r dreth gyngor i aelwydydd incwm isel. Cynllun gorfodol yw hwn y mae rhaid i bob awdurdod lleol ei ddarparu ac mae'n helpu bron 300,000 o aelwydydd yng Nghymru.

Yn gywir,



**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government  
Tudalen y pecyn 72

**P-05-875 The capping of Council Tax Rises in Wales, Correspondence –  
Petitioner to Committee, 30.04.19**

Conwy County Council imposed a 9.6 per cent Council Tax rise this year. They also imposed swinging cuts to schools budgets, social care etc.

With uncapped Council tax rises such as these come serious implications.

There is no impetus for fiscal restraint when County Councils in Wales can inflict such rises. Its local government out of control.

In Wales rising child poverty rates and foodbank usage rates show how bad things are.

Most folks are on minimum wages.

The blame game one hears is a frustrating.

County Councils blame the Government in Wales who in turn blame Westminster.

Well this buck passing weather me and it just won't do.

With POVERTY levels in Wales The government in Wales have to get a grip.

The buck stops in Cardiff.

Capping Council tax rises in Wales now essential.

Left to it themselves Councils come up with insane rises such as this inflation busting 9.6 per cent eye watering poverty inducing obscenity Conwy County Council. inflict.

ENOUGH IS ENOUGH.

A freeze for two years on Council Tax rises and an inflation plus 1 per cent rise in the third year would give struggling households a break.

Over a decade of inflation busting rises and cuts to services have hit people hard.

It's now high time the government in Wales took a lead.

The compelling case for a cap seems to me to be obvious.

If the government in Wales cares about child poverty, I mean REALLY cares then it will cap council tax rises.

If it cares about poverty in households in Wales it will freeze council tax for two years.

If the government in Wales has any interest in the thousands of carers struggling in low incomes .Cares,lest we forget exist on carers allowance of just over £64 A week for 35 hours care,slavery.levels.No minimum or living wage for carers who save Wales moons in social care costs.If the government in Wales gives a dam it must hold council tax rises to inflation plus 1 per cent in the third year.

I plead with the government in Wales to do that.

### **P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Matthew Misiak, ar ôl casglu 4,958 o lofnodion ar-lein a 1,190 ar bapur – cyfanswm o 6,148 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

1. Ddatgan Argyfwng Hinsawdd.
2. Sicrhau bod yr holl bolisiâu presennol ac yn y dyfodol yn gyson â'r ymgyrch i osgoi newid pellach yn yr hinsawdd a chwymp ecolegol.
3. Deddfu mesurau polisi cyfreithiol i leihau allyriadau carbon i net sero erbyn 2025 a lleihau lefelau defnydd.
4. Gweithredu Cynulliad Dinasyddion Cymru i oruchwyllo'r newidiadau.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatgan Argyfwng Hinsawdd ar unwaith, ac ymrwmo i weithredu'r camau sy'n weddill erbyn mis Mehefin 2019.

Rhaid i dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus di-garbon gael eu defnyddio fel catalydd i sbarduno datgarboneiddio cyflym yn y sector preifat drwy gaffael, trethi a chymhorthdal. Ledled y DU, mae ugain cyngor dinas, tref a sir eisoes wedi datgan Argyfwng Hinsawdd, gan gynnwys Powys a Machynlleth. Rhaid i ddinasyddion fod yn rhan er mwyn sicrhau bod y newid angenrheidiol yn cael ei wneud ar draws gymdeithas, fel y dangoswyd ym model Sortition o ddemocratiaeth gyfranogol. Ymhlith y mentrau y gellir creu partneriaeth â nhw mae: The Climate Mobilization; Beyond Zero Emissions; Rapid Transition Alliance; Green New Deal Group; One Million Climate Jobs; The Breakthrough Institute; a Zero Carbon Britain.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd wedi rhybuddio bod gennym 12 mlynedd i wneud y newidiadau angenrheidiol i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd byd-eang o 1.5°C. Bydd methiant i weithredu yn golygu cynnydd sylweddol a chyflymach yn

lefelau'r môr a llifogydd, newidiadau eithafol a sydyn i batrymau tywydd, methiant cnwd, a rhywogaethau o blanhigion, pryfed ac anifeiliaid yn darfod. Yn anochel, bydd hyn yn arwain at amharu economaidd byd-eang ac argyfwng dyngarol. Bydd hefyd yn effeithio'n andwyol ar les pobl Cymru a biliynau o bobl eraill. Y llynedd, dywedodd Syr David Attenborough:

"Ar hyn o bryd, rydym yn wynebu argyfwng a wnaed gan ddyn ar raddfa fydeang. Ein bygythiad mwyaf mewn miloedd o flynyddoedd. Newid hinsawdd. Os na fyddwn ni'n gweithredu, mae cwmp gwareiddiad a thranc llawer o'n byd naturiol ar y gorwel. Mae pobl y byd wedi siarad. Mae'r neges yn glir. Mae amser yn rhedeg allan."

Mae polisi Datblygu Un Blaned a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos y gall Cymru arwain y ffordd mewn polisi blaengar. Ond nid ydynt yn ysgogi'r llywodraeth i weithredu yn unol â difrifoldeb y sefyllfa. Mae'r consensws gwyddonol yn dangos y raddfa heb ei debyg o weithredu ar y cyd sydd ei angen er mwyn osgoi'r canlyniadau gwaethaf yn y dyfodol agos. Ni allwn ofyn am ddim llai.

Mae pobl ledled y byd yn cael eu hysbrydoli gan fudiad Extinction Rebellion i annog llywodraethau ar bob lefel i wynebu'r her yn sgil newid hinsawdd a chwymp ecolegol. Bydd cenedlaethau'r dyfodol yn ein barnu ar ein dewrder i wneud y newid yr ydym yn gwybod sydd ei angen ar frys. Gweithredwch nawr.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberconwy
- Gogledd Cymru



## P-05-869 Datgan argyfwng hinsawdd

Y Pwyllgor Deisebau | 7 Mai 2019

Petitions Committee | 7 May 2019

### Papur briffio gan Ymchwil y Senedd:

Rhif y ddeiseb: P-05-869

Teitl y ddeiseb: Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

1. Ddatgan Argyfwng Hinsawdd.
2. Sicrhau bod yr holl bolisiau presennol ac yn y dyfodol yn gyson â'r ymgyrch i osgoi newid pellach yn yr hinsawdd a chwymp ecolegol.
3. Deddfu mesurau polisi cyfreithiol i leihau allyriadau carbon i net sero erbyn 2025 a lleihau lefelau defnydd.
4. Gweithredu Cynulliad Dinasyddion Cymru i oruchwylio'r newidiadau.

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatgan Argyfwng Hinsawdd ar unwaith, ac ymrwymo i weithredu'r camau sy'n weddill erbyn mis Mehefin 2019.

Rhaid i dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus di-garbon gael eu defnyddio fel catalydd i sbarduno datgarboneiddio cyflym yn y sector preifat drwy gaffael, trethi a chymhorthdal. Ledled y DU, mae ugain cyngor dinas, tref a sir eisoes wedi datgan Argyfwng Hinsawdd, gan gynnwys Powys a Machynlleth. Rhaid i ddinasyddion fod yn rhan er mwyn sicrhau bod y newid angenrheidiol yn cael ei wneud ar draws gymdeithas, fel y dangoswyd ym model Sortition o ddemocratiaeth gyfranogol. Ymhlith y mentrau y gellir creu partneriaeth â nhw mae: The Climate Mobilization; Beyond Zero Emissions; Rapid Transition Alliance; Green New Deal Group; One Million Climate Jobs; The Breakthrough Institute; a Zero Carbon Britain.

## Y cefndir

Roedd [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) (y Ddeddf) yn gosod dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru i leihau allyriadau, gan gynnwys gofyniad i sicrhau bod allyriadau net ar gyfer 2050 o leiaf 80 y cant yn is na'r gwaelodlin.

Mae'r Ddeddf yn gosod sawl dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau y cyrhaeddir targed 2050. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Erbyn diwedd 2018, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu targedau allyriadau dros dro ar gyfer 2020, 2030 a 2040;
- Ar gyfer pob cyfnod cyllidebol pum mlynedd, rhaid i Lywodraeth Cymru bennu uchafswm o ran cyfanswm allyriadau net Cymru (a ddisgrifir fel cyllideb garbon), a rhaid pennu'r ddwy gyllideb gyntaf erbyn diwedd 2018; a
- Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried cytundebau rhyngwladol i gyfyngu ar unrhyw gynnydd o ran tymheredd cyfartalog y byd.

Wrth ddatblygu'r targedau allyriadau dros dro a'r cyllidebau carbon, comisiynodd Llywodraeth Cymru gyngor gan ei chorff ymgynghorol statudol, sef [Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd \(UK CCC\)](#). Cyhoeddodd Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd ei [gyngor cyntaf](#) i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2017. Roedd yn mynegi pryder ynghylch cyfrifyddu carbon a dyluniad cyllidebau carbon Cymru, a thargedau eraill. Cyhoeddodd Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd y DU ei [ail gyngor](#) i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017. Roedd hwn yn asesu pa lwybr datgarboneiddio oedd yn briodol i Gymru, gan gynnwys argymhellion penodol ar dargedau dros dro ar gyfer 2020, 2030 a 2040, ynghyd â chyllidebau carbon sy'n weithredol hyd at 2025. Yn ei gyngor, daeth yr UK CCC i'r casgliad bod yr amgylchiadau yng Nghymru yn gwneud cyflawni gostyngiad o 80 y cant yn fwy heriol na'r gostyngiad cyfatebol ar gyfer y DU gyfan. Mae'n priodoli hyn i'r ffaith bod Cymru â chyfran fwy o allyriadau 'anodd eu lleihau', er enghraifft ym maes amaethyddiaeth a diwydiant. Mae'r UK CCC yn awgrymu mai'r gostyngiad dichonol gorau posibl i Gymru erbyn 2050 yw 85 y cant.

Ym mis Rhagfyr 2018 gosododd Llywodraeth Cymru [bum cyfres o Reoliadau](#) i weithredu rhai o'r ymrwymadau sy'n deillio o'r Ddeddf. Y rhain oedd:

- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Targedau Allyriadau Dros Dro) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Hedfan Ryngwladol a Morgludiant Rhyngwladol) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Terfyn Credyd) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Cyfrifyddu Carbon (Cymru) 2018.

Roedd y gyfres gyntaf o reoliadau yn gosod targedau allyriadau dros dro, sef:

- Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2020 yw **27 y cant islaw'r** waelodlin;
- Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2030 yw **45 y cant islaw'r** waelodlin;
- Yr uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru ar gyfer 2040 yw **67 y cant islaw'r** waelodlin.

Roedd yr ail gyfres o reoliadau yn gosod y ddwy gyllideb carbon gyntaf:

- Ar gyfer y cyfnod cyllidebol o 2016 i 2020, mae'r gyllideb carbon yn gyfyngedig i gyfartaledd o 23 y cant islaw'r waelodlin.
- Ar gyfer y cyfnod cyllidebol o 2021 i 2025, mae'r gyllideb carbon yn gyfyngedig i gyfartaledd o 33 y cant islaw'r waelodlin.

## Cytundeb Paris ac Adroddiad y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC)

Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2015, cynhaliwyd [21ain Gynhadledd y Partïon sy'n rhan o Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd \(UNFCCC COP21\)](#) ym Mharis. Cytundeb amgylcheddol rhyngwladol ar newid yn yr hinsawdd yw'r Confensiwn hwn, ac mae 195 o Bartïon Gwladwriaethol yn rhan ohono, gan gynnwys y DU. Cyfeiriwyd at y cyfarfod ym Mharis fel cyfle olaf i sicrhau cytundeb rhyngwladol ar ddulliau o fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, i sicrhau ymrwymiad i nod hirdymor o sicrhau allyriadau net sydd bron yn sero yn ystod ail hanner y ganrif, ac i gefnogi trosglwyddo i economi lân a chymdeithas carbon isel. Prif bwyntiau [Cytundeb Paris yw](#):

- Cytuno ar nod hirdymor o gadw'r cynnydd o ran tymheredd cyfartalog byd-eang yn is na 2°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol;
- Cytuno ar anelu at gyfyngu'r cynnydd i 1.5°C, gan y byddai hyn yn lleihau'n sylweddol risgiau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd;
- Derbyn bod angen i allyriadau byd-eang gyrraedd y brig cyn gynted ag y bo modd, gan gydnabod y bydd hyn yn cymryd rhagor o amser i wledydd sy'n datblygu; a
- Chytundeb i sicrhau gostyngiadau cyflym wedi hynny yn unol â'r wyddoniaeth orau sydd ar gael.

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y [Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd \(IPCC\)](#) ei adroddiad diweddaraf ar [Gynhesu Byd-eang o 1.5°C](#). Mae'r adroddiad arbennig hwn yn trafod effeithiau cynhesu byd-eang o 1.5°C uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol a llwybrau allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang cysylltiedig â hynny. Mae awduron yr adroddiad yn dweud bod angen newidiadau brys fel nas gwelwyd erioed o'r blaen i gyrraedd y targed, ac maent yn dweud bod hyn yn fforddiadwy ac yn ymarferol, er gwaetha'r ffaith mai dyma'r rhan fwyaf uchelgeisiol o addewid Cytundeb Paris, i gadw'r tymheredd rhwng 1.5 a 2 radd Celsiws.

## Datgan argyfwng hinsawdd

Mae nifer o drefi, dinasoedd ac awdurdodau lleol ledled y DU [wedi datgan 'argyfwng hinsawdd'](#). Nid oes diffiniad y cytunwyd arno'n gyffredinol o beth yw argyfwng hinsawdd. Mae rhai trefi a dinasoedd (gan gynnwys Sheffield, Plymouth a Carlisle) wedi addo bod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030. Mae rhai, gan gynnwys Gwynedd a Bradford, wedi datgan argyfwng hinsawdd, ond heb bennu dyddiad targed ar gyfer gweithredu. Mae'r ddeiseb yn nodi bod Powys a Machynlleth wedi datgan argyfwng hinsawdd. Mae llythyr gan y Gweinidog at y Pwyllgor yn dweud, fodd bynnag, bod cyfarfod Cyngor Sir Powys, a oedd yn ystyried y datganiad dan sylw, yn diwygio'r cynnig perthnasol ar gyfer y cyfarfod ar 24 Ionawr, i ddileu unrhyw gyfeiriad at argyfwng cyn iddo gael ei basio. Gellir gweld y cynnig diwygiedig, nad oes cyfeiriad ynddo at 'argyfwng' [yma](#). Ar 20 Chwefror, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ddatganiad [argyfwng hinsawdd](#). Roedd y Cyngor yn ymrwmo i ddod yn awdurdod lleol di-garbon net erbyn 2030, ac i ddatblygu cynllun clir o fewn y flwyddyn nesaf.

## Cynulliad Dinasyddion

Yn ôl [gwefan Senedd y DU](#), mae cynulliad dinasyddion yn grŵp o bobl sy'n cael eu dwyn ynghyd i drafod mater neu faterion, ac i ddod i gasgliad am yr hyn y credant a ddylai ddigwydd. Mae'r bobl sy'n cymryd rhan yn cael eu dewis fel eu bod yn adlewyrchu'r boblogaeth ehangach, o ran demograffeg (e.e. oedran, rhyw, ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol) ac weithiau o ran agweddau perthnasol. Nod cynulliad dinasyddion yw rhoi amser a chyfle i'r cyhoedd ddysgu am bwnc a'i drafod, cyn dod i gasgliadau. Gofynnir i Aelodau'r Cynulliad wneud cyfaddawdau a gwneud argymhellion ymarferol. Defnyddiwyd cynulliadau dinasyddion, a dulliau tebyg eraill, yn y DU a gwledydd eraill, gan gynnwys Awstralia, Canada, a'r Unol Daleithiau, i fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion cymhleth. Mae cynulliad dinasyddion [yn digwydd ar hyn o bryd yng Ngweriniaeth Iwerddon](#). Cafodd ei sefydlu gan Senedd Iwerddon, i fynd i'r afael â nifer o faterion cyfreithiol a pholisi pwysig y mae'r gymdeithas yn Iwerddon yn eu hwynebu. Roedd y materion hyn yn cynnwys priodas gyfartal, erthyliad a chyfleoedd a heriau o ran poblogaeth sy'n heneiddio.

## Camau Llywodraeth Cymru

Mae'r adran o'r papur briffio hwn ar y cefndir yn nodi'r cyd-destun ar gyfer gweithredu gan Lywodraeth Cymru ar newid yn yr hinsawdd.

## Ymgynghoriad ar lwybr carbon isel a'r Cynllun Cyflawni Carbon Isel

Ym mis Gorffennaf 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ei hymgyngoriad ar '[Cyflawni ein lwybr carbon isel hyd at 2030](#)'. Roedd yr ymgynghoriad (a gynhaliwyd tan ddechrau mis Hydref) yn gofyn am sylwadau ynghylch pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i leihau allyriadau hyd at 2030. Roedd yn cynnig nifer o gamau posibl ar draws sectorau fel diwydiant, gwastraff, amaethyddiaeth, newid defnydd tir a choedwigaeth, trafniadaeth, pŵer ac adeiladau. Nododd yr ymgynghoriad fod y camau gweithredu posibl a gynigiwyd wedi'u datblygu drwy ystyried argymhellion Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, tystiolaeth ehangach, trafodaethau â rhanddeiliaid, dysgu gan eraill, a thrwy ystyried y pum ffordd o weithio yn unol â *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*. Defnyddiwyd canlyniadau'r ymgynghoriad i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei chynllun cyflawni carbon isel cyntaf, sy'n nodi sut y bydd Cymru yn cyflawni ei chyllideb carbon gyntaf, a chyhoeddwyd hwn ym mis Mawrth 2019.

Roedd y cynllun cyflawni, sef [Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel](#) yn nodi sut y mae Cymru am geisio cyflawni ei chyllideb carbon gyntaf (2016–2020) ac hefyd felly, ei tharged dros dro ar gyfer 2020. Mae'n gwneud hyn drwy 76 o bolisiâu presennol ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r UE, a 24 o gynigion newydd. Mae pum rhan i'r cynllun:

- Rhan 1 Cyflwyniad, Gweledigaeth a Chyd-destun: sy'n esbonio pam mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar newid yn yr hinsawdd, ei gweledigaeth ar gyfer Cymru carbon isel hyd at 2050 a'r cyd-destun deddfwriaethol a rhyngwladol ehangach;
- Rhan 2 Arweinyddiaeth, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys: mae'n nodi'r camau trawsbynciol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd drwy integreiddio datgarboneiddio ar draws polisi a chyflawniad y Llywodraeth. Mae hefyd yn amlygu'r angen am gyfranogiad a chydweithio ar draws cymdeithas, a rôl pobl eraill yn y trawsnewidiad carbon isel;
- Rhan 3 Llwybrau Allyriadau'r Sector: mae'n nodi'r llwybrau ar gyfer y gwahanol sectorau allyriadau, gan gynnwys uchelgais, proffil allyriadau, camau gweithredu a sut mae'r sectorau yn cyfrannu at y nodau llesiant. Y llwybrau ar gyfer pob sector fesul pennod yw pŵer, adeiladau, trafniadaeth, diwydiant, defnydd tir, amaethyddiaeth, gwastraff a nwyon-ff;
- Rhan 4 Dull methodolegol: mae'n nodi'r dull methodolegol ar gyfer olrhain polisiâu a chynigion, a sut mae'r rhain yn cyfrannu at gyflawni targedau a chyllidebau drwy bolisiâu a chynigion;
- Rhan 5 Y camau nesaf: mae'n amlygu'r camau dros y blynyddoedd sydd i ddod, o ran yr amserlen ar gyfer gosod y drydedd gyllideb carbon, a datblygu'r ail gynllun cyflawni.

O ran y cynllun, mae llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn dweud y bydd [y Cynllun] yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â chynnwys rhagor o bobl yng Nghymru wrth fynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac fod holl bolisiâu Llywodraeth Cymru eisoes yn destun amrywiaeth o asesiadau effaith yn ystod y datblygiad. Ynghyd â

bioamrywiaeth statudol ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol lle bo'n berthnasol, dywedodd, rydym wedi cyflwyno asesiad effaith newid yn yr hinsawdd i sicrhau ein bod yn ystyried effaith ein polisiau ar allyriadau a'r gallu i addasu i batrymau tywydd sy'n newid.

## Rhagor o gyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd (UK CCC)

Ar 15 Hydref 2018, gofynnodd llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru i [Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd ddarparu cyngor ar dargedau hirdymor y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, a throsglwyddiad y DU i economi net di-garbon. Yn benodol, gofynasant: pryd y dylai'r DU gyflawni dim allyriadau carbon deuocsid a / neu nwyon tŷ gwydr net fel cyfraniad at uchelgais y byd o dan Gytundeb Paris; a ddylid gosod y targed hwnnw nawr; y goblygiadau o ran allyriadau yn 2050; sut y gellir cyflawni gostyngiadau o'r fath; a'r costau a'r manteision cysylltiedig o'u cymharu â'r targedau presennol. Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae'r Gweinidog yn dweud ei bod yn disgwyl derbyn cyngor gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd ym mis Mai, ac y bydd yn ystyried y cyngor hwn a'i oblygiadau ar gyfer ein fframwaith statudol, gan gynnwys targed 2050.](#)

## Camau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae gan y [Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig \(CCERA\)](#) raglen waith barhaus ar newid hinsawdd. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- Craffu'n flynyddol ar gynnydd Llywodraeth Cymru o ran lliniaru effeithiau newid hinsawdd. Cyhoeddwyd [Adroddiad diwethaf y Pwyllgor](#) ym mis Mai 2018;
- Craffu ar [Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd \(Cymru\) 2018](#);
- Ymgysylltu ag arbenigwyr newid yn yr hinsawdd drwy weithdai rhanddeiliaid a'i [grŵp cyfeirio arbenigol](#); a
- Dadansoddi [Cynllun Cyflawni Carbon Isel](#) Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lesley Griffiths AC/AM  
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-869  
Ein cyf/Our ref LG/05322/19

David John Rowlands AM  
Chair, Petitions Committee

SeneddPetitions@assembly.wales

19

February 2019

Dear David

Thank you for your letter of 8 February regarding Petition P-05-869 Declare a climate emergency. I have considered the issues raised by the petition and offer the following observations.

The Environment (Wales) Act was passed less than three years ago and the target to reduce emissions by at least 80% in 2050 reflects the National Assembly's ambition for Wales. In December the National Assembly passed the Climate Change (Wales) Regulations, which included interim targets for 2020, 2030 and 2040 and also set our first two carbon budgets to 2025. The targets and budgets were set in accordance with advice received from our statutory advisory body, the Committee on Climate Change (CCC).

The CCC concluded the circumstances in Wales make achieving an 80% reduction here more challenging than the equivalent reduction for the UK as a whole. This is due to Wales having a greater share of 'hard to reduce' emissions, for example in agriculture and industry. Although taking action on climate change will demonstrate global responsibility by lessening the effects of climate change around the world, we need to be careful and minimise potential carbon leakage in our low carbon transition, whereby emissions simply move to another country.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 83

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Next month we will publish a Plan setting out how Wales will meet its first carbon budget. This will include actions relating to engaging more people in Wales with tackling greenhouse gas emissions. All Welsh Government policies are already subject to a range of impact assessments during development. Along with statutory biodiversity and Strategic Environmental Assessments where relevant, we have introduced a climate change impact assessment to ensure we are considering the effect of our policies on emissions and our ability to adapt to changing weather patterns.

Citizens and other stakeholders have had the opportunity to influence the Regulations and the Plan. In 2017 the CCC ran two public calls for evidence, which provided the opportunity to influence their advice regarding the carbon accounting framework as well as the level of our first two carbon budgets and the interim targets. The Welsh Government supported these calls for evidence and undertook consultation events jointly with the CCC in north and south Wales. We published the Cabinet's decision to accept the CCC advice in June 2018, several months before laying the draft Regulations in the National Assembly. In addition, we ran a twelve week consultation last year on potential actions to reduce emissions to 2030 and have used the responses to develop the report. There will be further opportunities for citizens to be involved as we develop climate change legislation and policy in future.

For any new target to be credible, it must be evidence-based. The current evidence we have from the CCC suggests the maximum feasible reduction for Wales by 2050 is 85%.<sup>1</sup> However, in light of the Paris Agreement and the latest Intergovernmental Panel on Climate Change Special Report I have already asked the CCC to look again at our long-term target. Last year the CCC ran a public call for evidence to inform this advice and asked specifically how their advice should reflect the different circumstances in the four nations of the UK. I expect to receive the advice in May. We will consider this advice and its implications for our statutory framework, including the 2050 target.

On a point of detail, the petition claims Powys County Council has declared a climate emergency. I understand the meeting on 24 January amended the relevant motion to remove any reference to an emergency before it was passed.

**Lesley Griffiths AC/AM**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

---

<sup>1</sup> Building a low-carbon economy in Wales: Setting Welsh carbon targets (Committee on Climate Change 2017) p.24



## **P-05-869 Datgan Argyfwng Hinsawdd a gosod targedau di-garbon ym mhob polisi – Datganiad Llywodraeth Cymru ar argyfwng hinsawdd, 29.04.19**

### **Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd Lesley Griffiths wedi cyhoeddi heddiw ei bod yn argyfwng hinsawdd, a hithau ar fin cyfarfod â Gweinidogion y DU a'r Alban yng Nghaerdydd.

Mae'r datganiad yn neges glir gan Lywodraeth Cymru na chaiff y broses o adael yr UE ein dallu i her y newid yn yr hinsawdd, sy'n bygwth ein hiechyd, ein heconomi, ein seilwaith a'n hamgylchedd naturiol.

Wrth i weinidogion amgylchedd y DU, Cymru a'r Alban gwrdd yng Nghaerdydd heddiw, mae'r cyhoeddiad yn tanlinellu aruthredd a phwysigrwydd tystiolaeth ddiweddaraf y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd a'r protestiadau diweddar ynghylch yr hinsawdd ledled y DU.

Ddiwedd yr wythnos hon, cyhoeddir cyngor diweddaraf corff cynghori statudol Llywodraeth Cymru, Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, ar sut y bydd ceisio gwireddu nodau Cytundeb Paris yn effeithio ar dargedau statudol tymor hir Cymru ar y newid yn yr hinsawdd.

Dywedodd Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

Rwy'n credu ein bod yn ddigon penderfynol a dyfeisgar yma yng Nghymru i allu cynnal economi carbon isel yr un pryd â chreu cymdeithas decach ac iachach.

Rydyn ni'n gobeithio y gall y datganiad gan Lywodraeth Cymru heddiw helpu i sbarduno ton o weithredu yma ac yn rhyngwladol. Gan ein cymunedau, busnesau a sefydliadau'n hunain a seneddau a llywodraethau ledled y byd.

Nid yw taclo'r newid yn yr hinsawdd yn rhywbeth y gallwn ei adael i unigolion a'r farchnad rydd. Rhaid wrth weithredu ar y cyd, ac mae gan y llywodraeth ran ganolog i'w chwarae yn hyn o beth.

Does yr un wlad yn y byd wedi llwyr sylweddoli'r her ond yn union fel y gwnaeth Cymru chwarae rhan flaenllaw yn y chwyldro diwydiannol cyntaf, rwy'n credu y gall Cymru fod yn esiampl i eraill o'r hyn y gall twf amgylcheddol ei olygu.

Mae'n deddfwriaeth ar ddatblygu cynaliadwy a'r amgylchedd eisoes yn esiampl i'r byd a rhaid inni nawr ddefnyddio'r ddeddfwriaeth honno i gyflymu camau'r newid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo y bydd ein sector cyhoeddus yn garbon niwtral erbyn 2030 a bydd yn cydweithio ag eraill, gan gynnwys academia, diwydiant a'r trydydd sector, i helpu rhannau eraill o'r economi i droi oddi wrth danwyddau ffosil. Fis diwethaf, cyhoeddodd Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel a'i 100 o bolisiâu a chynigion i gwrdd â thargedau allyriadau carbon 2020.

Mae'r cynllun ar gyfer 2021-26 eisoes yn cael ei baratoi ac aiff yn gynt ac yn bellach. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ystyried sut y dylai ffermwyr gael eu helpu ar ôl Brexit gyda'r elfen nwyddau cyhoeddus ac mae'n diweddarau'i Chynllun Adfer Natur i sbarduno gweithredu brys i gryfhau ecosystemau er mwyn gwyrddroi'r dirywiad yn ein cynefinoedd a rhywogaethau.

**P-05-869 Declare a Climate Emergency and fit all policies with zero-carbon targets, Correspondence – Petitioner to committee 30.04.19**

**Extinction Rebellion Cymru response to the letter dated 19 February 2019 from Lesley Griffith AM, regarding the Welsh Government's response to our petition: Declare a Climate Emergency.**

Much has changed in the short time since our petition was launched in February 2019, including heightened awareness of the Biodiversity crisis, school climate strikes, mass climate change protests globally and the Welsh Government declaring a Climate Emergency.

We would like to congratulate the Welsh Government for making Wales the first country in the world to take such an important step. Now we need to work together to develop the actions that reflect the reality of our situation.

In light of these changes, the Environment (Wales) Act target of an 80% reduction of carbon emissions by 2050, is inadequate. Over 5,000 Welsh citizens have signed a petition to declare a Climate Emergency and insist that the Welsh Government fits all policies with zero-carbon targets.

On Thursday 2 May 2019, the Committee on Climate Change (CCC) will provide new advice to the UK Government, and is likely to recommend tightening the UK's long-term target, from 80% greenhouse gas reductions to net-zero by 2050. Again, a woefully inadequate target given the climate crisis we face.

The Intergovernmental Panel on Climate Change's (IPCC's) warns that we have only 12 years to cut CO2 emissions by half globally to prevent unstoppable runaway climate change (through feedback loops that become increasingly likely as the world heats up). All possible means must be employed to avoid irreversible climate change and ecological system breakdown.

The Welsh Government response to date, while encouraging, fails to reflect the scale of the existential crisis we all face. Any lack of ambition and urgency is dangerous.

We demand new, rational targets that commit Wales to limiting global warming to the IPCC's target of no more than 1.5 degrees centigrade. There is growing evidence that climate change is happening much quicker than originally predicted. The people of Wales need a level of response that reflects the evidence and the groundswell of opinion that supports bold, well-funded and accountable actions.

We welcome the Welsh Government's declaration of a Climate Emergency. It is crucial that this be followed up by details of your vision for a carbon neutral Wales. There must be detailed action plans and timeframes for the transition to this goal. Who will be responsible and how will they be held accountable?

We want to be involved as Welsh citizens, to scrutinize and support radical policies that are inclusive and resilient.

We are facing multiple converging crises with those least able to cope facing the worst impact: sea level rises; desertification; wildfires; water shortage; crop failure; extreme weather; loss of biodiversity; ecosystem disruption; millions of people displaced; disease; increased risk of wars and conflicts.

The recent horrific flooding in Mozambique is a humanitarian emergency happening now, made far worse by climate change. 1.85 million people are currently in need of

urgent humanitarian assistance, 70,000 people have been displaced from their homes and 600 people have died.

Lesley Griffiths' letter correctly states that Welsh policy must be evidence-based. The evidence from the world's scientists is that unprecedented urgency and commitment is required to avoid a disastrous future, as highlighted so effectively by David Attenborough and Greta Thunberg.

The report by the Intergovernmental Panel for Biodiversity and Ecosystem Services (IPBES) due to be published on 6 May 2019 will highlight the threat to humans if the devastation of nature continues. We do not have the time to react incrementally, we are in a Climate Emergency, this requires much more proactive and robust action.

The biodiversity crisis in Wales was eloquently voiced by Iolo Williams in the program 'Saving the Land of the Wild', citing a 98% loss of hay meadows, 80% decline in curlew numbers, devastation of lapwing, yellowhammer and water vole populations (to name just a few).

In Wales, historically we have had a fossil fuel economy based on coal that collapsed under the pressures of globalisation. Those mining communities were betrayed, abandoned, and impoverished. When our current fossil fuel based lifestyle collapses we run the risk of similar or worse societal collapse. No one will escape the effects of climate change, however the poorest and most vulnerable in our society will be the first to suffer the impacts. So this time we must beat the arc of history and seize the opportunity to develop a new economy that is not reliant on fossil fuels.

We need the Welsh Government to ensure a globally responsible Wales, playing our full part in reducing global emissions that are impacting those in countries least to blame for this Climate Emergency.

We need the Welsh Government to ensure that climate adaptation creates resilient and inclusive communities across Wales. We want our government to grasp the opportunity to invest in a green economy that includes people and distributes resources more fairly.

### **Citizens' Assemblies**

Wales already leads the way in the world with the Well-being of Future Generations Act and the One Planet Development policy. 'What Wales is doing today the world will do tomorrow' – United Nations. We are proud to live in a county with a Youth Parliament and would like to extend that to include Citizens' Assemblies to help support and scrutinise the transition to a carbon-neutral Wales. This link explains how Citizens Assemblies work: <https://sharedfuturecic.org.uk/citizens-assemblies-citizens-juries-and-climate-change/>

It is crucial that Citizens Assemblies have the political backing and resources needed to ensure equal and fair process. Expert witnesses explain difficult issues to Citizens' Assemblies with time taken to develop understanding and skills in consensus process. Globally there have been a number of examples of Citizens' Assemblies making a valuable contribution to resolving complex issues facing democracies; cutting through conflicts of interest and supporting politicians to make decisions for the long-term good of all.

We want you to develop Citizens Assemblies' operating across Wales and in the heart of government, making their decisions binding and at the same time helping to restore faith in politics.

## **Popular Support**

The groundswell of support for recent climate change protests in London is evident in Wales. A large cross-section of people supported our three day cycling action in Cardiff last week. For many it was their first engagement with environmental activism. People have voiced their increasing frustration with what looks, at best, like an inadequate government response to the situation. Across Wales, the UK and the world there is a tide of concern and anger at the perceived inaction by politicians in the face of the Climate Emergency. This is what is drawing people onto the streets, including the regular school climate strikes. People, of all ages want to engage in meaningful action.

The Extinction Rebellion movement in Wales will continue to grow to become a movement that brings together the issues of social and environmental justice, acknowledging the intersections and collaborating with the rich network of similar groups across Wales.

Together we, the people of Wales, will hold the Welsh Government to account, and we will support policies and actions that deliver radical change.

## **Our demands**

1. Declare a Climate Emergency.
2. Ensure all current and future policies are consistent with averting further climate change and ecological collapse.
3. Enact legally binding policy measures to reduce carbon emissions to net zero by 2025 and to reduce consumption levels.
4. Implement a Citizen's Assembly of Wales to oversee the change

The people of Wales are depending on you to rise to this challenge. The time to act is now.

## **P-05-717 Sefydlu Hawliau Mynediad Cyhoeddus Statudol i Dir a Dŵr Mewndirol at Ddibenion Hamdden a Dibenion Eraill**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Waters of Wales ac ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf yn ystod Tachwedd 2016, ar ôl casglu 3,045 llofnod ar lein a 433 llofnod bapur – cyfanswm =3,478.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i weithredu Bil i sefydlu hawliau mynediad statudol cyhoeddus i dir a dŵr mewndirol at ddibenion hamdden a dibenion eraill. Dylai'r Bil hwn ymgorffori hawliau a chyfrifoldebau mynediad ar gyfer y cyhoedd yn yr un ffordd ag y mae Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003 yn annog defnydd cydweithredol o'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden iach ac isel eu heffaith. Rhaid i'r Bil ymgorffori hawliau mordwyo cyhoeddus ar gyfer dŵr mewndirol, a chaniatáu mynediad at ddŵr ac ar hyd dŵr. Rhaid iddo gael gwared ar y diffyg eglurder cyfreithiol a'r cyfyngiadau sy'n gweithredu fel rhwystr i chwaraeon a gweithgareddau hamdden, yn ogystal â'r gwaith o hyrwyddo Cymru fel lle sy'n croesawu gweithgareddau hamdden iach, twristiaeth a gweithgareddau anturus ar bob lefel o gyfranogiad a mwynhad.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

Bwriad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (i) oedd darparu mynediad cyhoeddus mawr ei angen i gefn gwlad. Cyn gweithredu'r ddeddf hon, fodd bynnag, roedd hi eisoes wedi colli llawer o'r manteision cyhoeddus a fwriadwyd. Er enghraifft, roedd yn ceisio gwahardd y cyhoedd o ddŵr mewndirol. Roedd y ddeddf yn gymhleth, yn ddrud, ac yn methu â darparu'r mynediad i dir a dŵr sydd ei angen ar y cyhoedd yn gyffredinol. Roedd ymarfer mapio'r ddeddf ar ei phen ei hun wedi costio bron i £8 miliwn i fynd i'r afael ag anghenion y ganran fach o'r cyhoedd sydd am gael mynediad i ardaloedd yr ucheldir. Cymerodd Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb dros y mater hwn yn 2009 (ii), ac eto, ar ddiwedd 2015, nid yw mynediad i dir at ddibenion hamdden yn diwallu anghenion y cyhoedd yn gyffredinol, ac nid

oes cynnydd wedi'i wneud o ran y mater o fynediad i ddŵr. I'r gwrthwyneb, mewn rhai achosion, mae mentrau costus sydd wedi'u cymeradwyo a'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru wedi arwain at lai o fynediad i ddŵr mewndirol. Mae dwy Lywodraeth Cymru yn olynol wedi cydnabod yr angen am newid, ond maent wedi dewis proses sy'n cynnal y sefyllfa bresennol. Mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi cyfaddef bod y broses 3-blynedd, sydd wedi costio o leiaf £2.4 miliwn, wedi methu â chyrraedd y nod. Yn hytrach, mae'r broses hon yn amlwg wedi lleihau cyfleoedd—er enghraifft, o ran mynediad i ddŵr mewndirol. Rhoddodd yr Alban ddatrysiad parhaol ar waith drwy ddeddfwriaeth diwygio tir (iv) am gost ddeddfwriaethol o £200,000, gyda chost derfynol o tua £3 miliwn, gan gynnwys cost ymgyrch deledu ac addysg gyhoeddus (v).

i) Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/37/contents/enacted> [Opens in a new browser window]

ii) (Adroddiad Ymchwiliad Byr y Pwyllgor Deisebau ar fynediad ar hyd dŵr mewndirol, Mawrth 2009

[https://dl.dropboxusercontent.com/u/62377602/Welsh\\_Government\\_Letter\\_RefTOJG0126513\\_16Oct2013.pdf](https://dl.dropboxusercontent.com/u/62377602/Welsh_Government_Letter_RefTOJG0126513_16Oct2013.pdf) [Opens in a new browser window]

iii) (Deddf Diwygio Tir (yr Alban) 2003

<http://www.legislation.gov.uk/asp/2003/2/contents/enacted> [Opens in a new browser window]

iv) BIL DIWYGIO TIR (YR ALBAN) – NODIADAU ESBONIADOL (A DOGFENNAU ATODOL ERAILL)

[http://www.scottish.parliament.uk/S1\\_Bills/Land%20Reform%20%28Scotland%29%20Bill/b44s](http://www.scottish.parliament.uk/S1_Bills/Land%20Reform%20%28Scotland%29%20Bill/b44s) [Opens in a new browser window]

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Mynwy Dwyrain
- De Cymru







Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Ymateb y Llywodraeth: Ymgynghoriad Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy – Cynigion Mynediad

**DYDDIAD** 04 Ebrill 2019

**GAN** Hannah Blythyn AC, Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Yn haeddiannol ddigon, mae Cymru'n enwog am harddwch ei thirweddau. Mae ein cefn gwlad a'n harfordiroedd ysblennydd yn amgylchedd delfrydol ar gyfer gweithgareddau hamdden awyr agored.

Er gwaethaf hyn, rydym yn awr mewn sefyllfa pan mae chwech o bob deg oedolyn ac un o bob pedwar o'n plant o oed dosbarth derbyn yn rhy drwm neu'n ordew. Hefyd, bydd un o bob pedwar yng Nghymru'n dioddef o salwch neu broblemau iechyd meddwl ar ryw adeg yn ystod eu hoes. Rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i leihau hyn, ac mae'n bwysig inni elwa'n llwyr ar y manteision ehangach a ddaw o du ein hamgylchedd. Mae ein Polisi Adnoddau Naturiol yn dangos y gall atebion sy'n seiliedig ar natur roi hwb i iechyd corfforol a meddyliol. Dyna pam yr ydym wedi ymrwymo fel Llywodraeth i alluogi mwy o bobl i fwynhau ein cefn gwlad yn rhwyddach – a gwneud yn fawr o'r manteision niferus o ran iechyd a llesiant a all ddeillio o fynd allan i'r awyr agored.

Mae cefn gwlad hygyrch yn ategu ein hymdrechion i hybu Cymru fel cyrchfan i dwristiaid a phot mêl i gerddwyr, beicwyr a phobl sy'n chwilio am gyffro. Gyda'r holl ansicrwydd a ddaw yn sgil Brexit, rhaid inni barhau i wneud popeth o fewn ein gallu i annog ymwelwyr i ddod i Gymru. Mae llwyddiant Llwybr Arfordir Cymru'n dangos yn glir sut y gall hamdden awyr agored helpu i gynnal yr economi, gwella iechyd a meithrin ymdeimlad o falchder cenedlaethol. Rwyf eisiau cynorthwyo ardaloedd gwledig i gael cymaint o refeniw â phosib o dwristiaeth; ond mae cadw'r cydbwysedd iawn yn flaenoriaeth i ni. Ceir cysylltiad clir rhwng gwella mynediad i'r awyr agored ac egwyddor polisi rheoli tir Cymru, sef y dylai ein tir ddarparu nwyddau cyhoeddus i holl drigolion Cymru.

Ar 19 Mehefin 2018 cafodd Crynodeb o'r Ymatebion i ymgynghoriad Bwrw Ymlaen â Rheoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy ei gyhoeddi. Rwy'n ddiolchgar i'r

miloedd o sefydliadau ac unigolion a ymatebodd. Derbyniwyd mwy nag 16,000 o ymatebion i'r cynigion ar gyfer mynediad yn unig, ac mae hyn yn arwydd o'r angerdd sydd gan nifer ohonom yng Nghymru tuag at gefn gwlad a hamdden awyr agored.

Heddiw, rwy'n falch o gyhoeddi ymateb y Llywodraeth i'r cynigion mynediad a amlinellwyd ym mhennod 4 yr Ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'r mesurau hyn yn dangos ein hymrwymiad i ddiwygio mynediad a darparu ffordd deg a blaengar o symud ymlaen.

Byddaf yn bwrw ymlaen â newidiadau sylweddol i hawliau mynediad ac yn hyrwyddo rhagdybiaeth o aml-ddefnydd heb foduron ar dir mynediad a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Bydd hyn yn rhoi llawer mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr fel beicwyr a marchogwyr gael mynediad i'r awyr agored ger eu cartref, yn unol â'r nodau a bennwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a bydd yn ategu darpariaethau Deddf Teithio Llesol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

Byddaf yn sicrhau bod gwybodaeth am ardaloedd lle y gall y cyhoedd wneud gweithgareddau hamdden awyr agored ar gael yn fwy hygyrch er mwyn cefnogi ymrwymiad Symud Cymru Ymlaen i 'fynd yn ddigidol o ran ein darpariaeth o wasanaethau llywodraethol'. Bydd hyn o fudd i bobl leol trwy ddangos beth sydd ar gael ar garreg eu drws, yn ogystal ag i dwristiaid sy'n ystyried ble i fynd a beth i'w wneud.

Ceir rhai mân ddiwygiadau technegol – nid ydynt yn ddadleuol ac mae cefnogaeth eang iddynt. Bydd y diwygiadau hyn yn lleihau'r cymhlethdod i ddefnyddwyr a rheolwyr llwybrau ac yn arwain at arbedion ariannol i awdurdodau lleol a thirfeddianwyr. Gellir bwrw ymlaen â'r rhain cyn gynted ag y caiff cyfrwng deddfwriaethol addas ei bennu. Maent yn cynnwys:

Cynnig Mynediad	
12	Cael gwared â'r anghysondeb sy'n atal digwyddiadau beicio wedi'u trefnu rhag cael eu cynnal ar lwybrau ceffylau
18	Gorfodi'r arfer o gadw cŵn ar dennyn byr o hyd penodol yng nghyffiniau da byw unrhyw adeg o'r flwyddyn
20	Diwygio darpariaethau technegol mewn perthynas â chreu, dargyfeirio a dileu hawliau tramwy
21	Caniatáu mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â mesurau rheoli stoc
22	Diwygio'r gofyniad i gynnal adolygiad o fapiau mynediad bob deng mlynedd a rhoi proses o adolygu parhaus ar waith
25	Diddymu rhai rhannau costus ac aneffeithlon o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
27	Rôl Fforymau Mynediad Lleol.

Mae dau gynnig penodol yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â hyrwyddo ymddygiad cyfrifol ymhlith defnyddwyr cefn gwlad, gyda chod statudol a chafeat statudol arfaethedig. Hyd nes i ni archwilio sut beth fydd y mynediad newydd, ein bwriad yw adolygu'r rhain, ond gyda golwg ar ddatblygu codau gwirfoddol yn y dyfodol. Eisoed mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i lunio codau cefn gwlad a hyrwyddo ymddygiad cyfrifol, a rhaid i'n partneriaid, fel Awdurdodau Parciau Cenedlaethol barhau i hyrwyddo'r codau hyn ac ymddygiad cyfrifol yn fwy eang. Cydnabyddwn fod mwyafrif llethol y bobl sy'n mynd i gefn gwlad yn ddefnyddwyr cyfrifol.

Natur gymhleth y ddeddfwriaeth bresennol oedd un sbardun pwysig dros ddiwygio. Mae'r ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gyda'r ymateb brwd a gafwyd iddo ymhlith y cyhoedd a rhanddeiliaid, wedi dechrau ar y daith i ddatblygu atebion ymarferol i ymdrin â'r materion hyn. Er mwyn datblygu'r syniadau hyn ymhellach, mae'n synhwyrol yn awr sefydlu Grŵp Diwygio Mynediad annibynnol. Wrth greu'r Grŵp hwn, byddaf yn y sefyllfa gryfaf i gymryd camau priodol a doeth. Byddaf yn gofyn i'r Grŵp ystyried yn fanwl sut y dylid rhoi'r newidiadau mwy sylweddol i hawliau mynediad ar waith a sut i symleiddio'r dasg o gofnodi, cynllunio a newid mynediad cyhoeddus. Byddaf yn rhoi'r diweddaraf i randdeiliaid am waith y grŵp wrth iddo fynd yn ei flaen.

Bydd cylch gwaith y grŵp yn cynnwys:

Cynnig Mynediad	
10	Llwybrau aml-ddefnydd (gan ganiatáu beicio a marchogaeth ar lwybrau troed)
11	Lleihau'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â thir mynediad agored  Byddwn yn codi'r cyfyngiadau ar feicio a marchogaeth, barcuta a pharagleidio, ymdrochi, neu ddefnyddio cwch neu hwylfwrdd ar gyrff dŵr naturiol. Byddwn yn cadw'r cyfyngiadau ar gyrff dŵr artiffisial, gemau wedi'u trefnu a gwersylla.
13	Ymestyn tir mynediad i'r arfordir a chlogwyni
17	Galluogi gwiriadau a gwaharddiadau dros dro ar draws tir mynediad
19	Yr achos dros gael un map digidol statudol o'r holl hawliau tramwy, yr holl dir mynediad cyhoeddus a'r holl Lwybrau Cenedlaethol dynodedig
23	Cynlluniau mynediad integredig
24	Creu math newydd o hawl dramwy gyhoeddus, llwybrau beicio

Mae mynediad i ddyfroedd mewndirol wedi bod yn bwnc llosg ers tro, gyda mwy a mwy o adroddiadau am densiwn ac, mewn ambell achos, gelyniaeth agored rhwng gwahanol ddefnyddwyr. Ar hyn o bryd ni cheir deddfwriaeth o unrhyw fath, na phrin unrhyw gyfraith gyffredin, yn ymwneud â'r math hwn o fynediad. Ers 2009, mae Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo cytundebau mynediad gwirfoddol ac wedi cefnogi'r defnydd o gytundebau mynediad a chyfleoedd eraill ar ddyfroedd mewndirol trwy gynllun cyllido Sblash. Fodd bynnag, mae'r gwrthdaro rhwng grwpiau defnyddwyr gwahanol yn parhau, ac ychydig yn unig o gytundebau mynediad gwirfoddol sydd ar waith.

Nod ein cynigion ynghylch mynediad i ddŵr yn yr ymgynghoriad ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy oedd datrys yr anghytundeb a'r gwrthdaro. Llwyddodd yr ymgynghoriad i ddenu'r daliadau cwbl wrthgyferbyniol sydd wedi rhwystro pob ymdrech hyd yn hyn i leihau'r gwrthdaro rhwng y defnyddwyr. Mae'n eithriadol o siomedig nad yw'r partion yn barod i gynnig unrhyw gyfaddawd. Mae'n amlwg, felly, na fydd cyflwyno cynigion ar gyfer mynediad i ddŵr ar eu pen eu hunain yn datrys y sefyllfa bresennol. Yn awr, mae'n amser inni ehangu'r drafodaeth a gofyn beth y mae Cymru ei eisiau gan ei dyfroedd mewndirol a'r rôl sydd gan hawliau mynediad o ran cyflawni hyn.

Ymhellach, byddaf yn gofyn i'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol roi blaenoriaeth arbennig yn 2019 i osod y sylfaen ar gyfer cael gwell deialog am faterion yn ymwneud â dyfroedd mewndirol. Rwy'n annog rhanddeiliaid yn gryf i ddod o hyd i ateb ymarferol ar y cyd. Nid wyf wedi diystyru cyflwyno deddfwriaeth ar fynediad yn y dyfodol, yn enwedig os na fyddaf yn fodlon fod cynnydd rhesymol wedi ei wneud o fewn 18 mis.

Bydd y dull yr wyf wedi'i amlinellu'n helpu i sicrhau dyfodol disgleiriach i fynediad yng Nghymru, er mwyn i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol allu parhau i fwynhau ymweld â thirweddau trawiadol Cymru. Rwyf wedi ymrwymo i wella cyfleoedd i'r cyhoedd gael mynediad i'r awyr agored at ddibenion hamdden, gan leihau'r baich ar awdurdodau lleol a thirfeddianwyr a diogelu'r amgylchedd naturiol, nodweddion o bwysigrwydd diwylliannol ac arferion rheoli tir a dŵr.



Fair, shared, sustainable open access for ALL!

Menediad agored cynnaladwy i BAWB!

[admin@watersofwales.org](mailto:admin@watersofwales.org)

Thursday, April 25, 2019

Waters of Wales – WoW thanks the Petitions Committee for this opportunity to reply to the Minister's Statement dated 04/04/19. We regret that the statement fails to address our petition.

We welcome the positives: acknowledgement of the importance of outdoor recreation, and intention to remove access restrictions for some forms of land-based recreation. We also welcome the acknowledgement of the importance of access to natural resources close to home, and intention to provide information to show people what is available on their doorstep. However, information will be of limited usefulness for the majority with no uncontested 'doorstep' access to inland water.

The report raises more questions than it answers: Welsh Government recognises that the vast majority of people accessing the countryside are responsible users; why then is the strategy not based on a presumption in favour of access? Why is lifting restrictions on access to man-made bodies of water not even to be considered? How will the representativeness and independence of the 'Access Reform Group' be established and protected? Why are verbal commitments, reportedly made in meetings around the country, not formally included in the report, to enable measurement of progress against them?

Most disappointing and worrying of all; the Minister's statement does nothing to move access to inland water out of the cycle, repeated every three years to date, from Welsh Government's first involvement with the WCA's petition in 2007<sup>i</sup>. In summary:

**2007** CRoW Act not working for Wales. Campaigning to Welsh Assembly (WA) for access to and along inland water. Welsh Government 'allegedly' tells one user group that open access legislation is likely<sup>ii</sup>; and public funds are used to persuade this group to seek an alternative<sup>ii</sup>. A petition calls on Welsh Assembly to legislate for open access<sup>i</sup>. A Short Inquiry<sup>iii</sup> acknowledges the shortcomings of the approach to date, highlighting the need for legislation. WA carries out another Inquiry<sup>iv</sup>.

**2010** Faced with a strong lobby opposed to public access, Welsh Government retreats and once again puts public money into facilitating negotiation for 'voluntary agreements'. 2011 – 2012: A series of 'Round-Table Discussions' and projects funded by 'SPLASH', at a cost to the taxpayer of approx. £3m, but with no appreciable increase, and in some cases a reduction, in public access<sup>v</sup>.

**2013 July** - Welsh Government launches a review of access and outdoor recreation. **October** – Acknowledges that voluntary agreements are not working, and the need for legislation<sup>vi</sup>. **December** – another retreat: "On water, there is a need to see an increase in the number of voluntary access agreements providing for a range of recreational activities"... "We do not plan to pursue primary legislation in this assembly term." Green Paper consultation. Results repeatedly delayed, until ultimately they are "left on the table to inform the next government".

**2016** A petition for legislation delivered by Waters of Wales, was discussed briefly at the Petitions Committee on 15<sup>th</sup> November 2016, where it was decided to hold the petition pending a promised Welsh Government announcement. 2017 - Public consultation. 2018 – Minister's response to consultation fails to address the petition. 2018 – Public consultation 'Brexit and Our Land'; opportunity for constructive action on access to water missed completely<sup>vii</sup>.

**Waters of Wales (WoW) is a community of independent campaigners for legislation enshrining public rights of fair, shared, sustainable open access to inland water in Wales.**

Mae DC (Dyfroedd Cymru) yn gymuned o ymgyrchwyr annibynnol ar gyfer deddfwriaeth sy'n corffori hawliau cyhoeddus i fynediad agored cynnaladwy i ddwyffyrdd mewndirol yng Nghymru.



Fair, shared, sustainable open access for ALL!

Menediad agored cynnaladwy i BAWB!

[admin@watersofwales.org](mailto:admin@watersofwales.org)

**2019 The Minister writes (*bold italics*):**

*“Access to inland waters has long been a contentious issue, with increasing reports of tension and in some cases, open hostility between various users”.*

**WoW response:** This is because NO attempt has been made to address the disputed public rights which are the underlying cause of the polarised views and conflict.

*“There currently isn’t legislation and little common law around this type of access.”*

**WoW response:** This comment fails to acknowledge statutory navigations such as the Wye, and the evidence for a Common-Law public right of navigation (prn). WoW tried in 2015 to petition the Welsh Assembly to obtain a definitive legal position, but WA refused to accept the petition. While continuing to assert that “the law is unclear” Welsh Government persists in predicating its strategy on one interpretation. To be consistent and equitable in the absence of a definitive legal position, Welsh Government needs to give equal weight to both interpretations. That way, where discussions between user-groups are appropriate, all parties can participate on an equal footing.

**The Common Law Public Right of Navigation<sup>viii</sup> - summary**

- Under Roman Law (Institutes of Justinian – see page 19, Book II, 1-4) all rivers were considered res publica and open to reasonable use, including navigation, by all. The Romans considered this a natural law which applied to all permanently flowing rivers irrespective of time or place.
- This public right of navigation was defended by Clause 33 of Magna Carta which stood witness to the existence of navigation rights in all rivers throughout the realm.
- The intent of Magna Carta was elaborated and confirmed by the 1472 Act for Weirs and Fishgarthes.
- Many Medieval commissions were appointed by the Kings to preserve and protect public navigation rights on a very wide variety of rivers, thereby confirming the existence of the public’s navigation rights in all rivers where navigation was then practical.
- The Laws in Wales Acts (1536 - 27 Henry VIII c. 26 and 1542 - 34 & 35 Henry VIII c. 26) specifically extended to Wales the full benefit of the law in England. This applied to all laws then in force in England. All future laws enacted by Parliament in Westminster applied equally to the joint administration of England and Wales. Evidence from England, where the evidence of historic navigation rights is better documented, can therefore be used to demonstrate the existence of public navigation rights in Wales.

*“Since 2009, the Welsh Government has advocated voluntary access agreements (VAAs) and supported the use of access agreements and other opportunities on inland waters through the Splash funding scheme”.*

**WoW response:** THIS STATEMENT IS INCORRECT. In 2013 WG wrote:

*“The report of the National Assembly for Wales’ Sustainability Committee on their Inquiry into Access to Inland Waters in Wales (2010) advocated that in the short term effort should focus on establishing voluntary agreements, but should the Assembly secure legislative competence in this area that introducing legislation to address areas where conflict persists would also be desirable. Three years on there continues to be conflict between different user groups and voluntary access agreements do not appear to be working Wales wide. The Minister now believes that it is necessary to explore ways of seeking to bring clarity and certainty for all on where they can go and what activities they can do, whilst ensuring proper safeguards for both nature conservation and the interests of owners. The Committee’s findings are informing this current review.”*

**Waters of Wales (WoW) is a community of independent campaigners for legislation enshrining public rights of fair, shared, sustainable open access to inland water in Wales.**

**Mae DC (Dyfroedd Cymru) yn gymuned o ymgyrchwyr annibynnol ar gyfer deddfwriaeth sy’n corffori hawliau cyhoeddus i fynediad agored cynnaladwy i dyfroedd mewndirol yng Nghymru.**



Fair, shared, sustainable open access for ALL!

Menediad agored cynnaladwy i BAWB!

[admin@watersofwales.org](mailto:admin@watersofwales.org)

*“However, there continues to be friction between different user groups, and few VAAs are in place.”*

WoW response: This repeats what WG said in 2013 – and for the same reason! A wealth of evidence<sup>ix,x,xi</sup> shows why VAA (or by any other name) cannot provide a sustainable solution.

*“Our proposals on access to water within the SMNR consultation were aimed at resolving the stalemate and conflict. The consultation attracted the highly polarised views which have hindered all efforts to reduce the conflict between users to date. It is extremely disappointing that parties continue to offer no compromise on their respective positions”.*

WoW response: Welsh Government continues to ignore the underlying cause of the polarised views and conflict; and research, much of which is government commissioned, which demonstrates that failure is inevitable.<sup>ix,x,xi</sup> By trying to treat an issue of public rights as a dispute between two discrete groups, and to then consistently favour one group, a sustainable and just solution cannot be achieved.

*“It has therefore become apparent that presenting proposals for access to water in isolation will not resolve the current situation. It is now time for us to broaden the debate and ask what Wales wants from its inland waters and the role that access rights have in delivering this.”*

WoW response: This has already happened! For the answer to this question, one has only to consider the report of the Public Inquiry<sup>iii</sup>, and the success achieved in Scotland, Europe and much of the rest of the World. Welsh Government has ignored opportunities to “broaden the debate” and contrary to the above comment, it is proposing to ‘present access to water in isolation’ by excluding it (with the possible exception of removing arbitrary restrictions to water on access land) from the commitments in the most recent statement.

*“I will also be asking the National Access Forum to give particular priority in 2019 to laying the ground work for the greater dialogue on inland waters issues that is needed. I strongly encourage stakeholders to find a practical joint solution. I have not ruled out future legislation on access, particularly should I not be satisfied of reasonable progression within 18 months.”*

WoW response: That takes us back to the start of Welsh Government involvement in 2007! The extract from a letter from Wye Usk Foundation in response to complaint from anglers about access negotiations, posted in an online forum<sup>ii</sup>, suggests that in 2007 Welsh Government had already anticipated the need for legislation to resolve the issue, and that it was prepared to help one user-group, opposed to public access, to resist this by fully-funding ‘voluntary’ negotiations in which that same user-group is assumed to have the right to present the terms, and of veto.

*“Passing such a bill has already happened in Scotland and ‘in the pipeline’ there is a Welsh act that could allow it to be passed on our rivers. You may also be aware of the strong lobbying by WCA for this to happen.*

*For our part we lobbied to continue with agreed access as the way forward and the Assembly gave us a 100% grant to re establish the canoeing arrangements on the Wye and Usk, against a clear signal that the alternative would likely be open and free access all year. I should stress that no other funding is being used for this purpose.”*

**Waters of Wales (WoW) is a community of independent campaigners for legislation enshrining public rights of fair, shared, sustainable open access to inland water in Wales.**

Mae DC (Dyfroedd Cymru) yn gymuned o ymgyrchwyr annibynnol ar gyfer deddfwriaeth sy'n corffori hawliau cyhoeddus i fynediad agored cynnaladwy i ddwyffyrdd mewndirol yng Nghymru.





Fair, shared, sustainable open access for ALL!  
Menediad agored cynnaladwy i BAWB!

[admin@watersofwales.org](mailto:admin@watersofwales.org)

It is not credible for Welsh Government to expect to achieve success by persistently repeating the same actions, which by its own acknowledgement have failed.

The solution is set out in the Minister's own report: take a wholistic view of the issue of access, to both land and water. However, while setting out the solution, Welsh Government bizarrely chooses to do the opposite; ignore decades of experience, work and research, and embark once again on a repeat of the failed actions of more than half a century, while the people of Scotland are enjoying the health, wellbeing and environmental benefits achieved by its government, at the first opportunity following devolution, through legislation for open access rights with responsibilities.

The legislation called for in our petition will end the conflict by recognising and protecting the rights of ALL – access user, land owner, or worker on the land. Wales' waters are the fiercely-guarded last bastion of exclusive privilege, and while opponents to shared access cite fears about damage to the environment and fish stocks, Environment Agency recognised in 2000 that the issue is not about environmental damage or declining fish-stocks, but exclusivity<sup>xii</sup>.

Ignoring the question of public rights by representing the problem as a dispute between discrete user-groups; failing to understand that unequal 'voluntary agreements' are a contradiction in terms; failing to acknowledging that the vast majority of those who seek access to the countryside, including water and waterside are not represented by a 'National Governing Body' – other than Welsh Government itself, is an abdication of responsibility. Welsh Government took ownership of this problem more than a decade ago. It is time for our government to step up and enable ALL its citizens to enjoy the considerable benefits of fair, shared, sustainable open access to our waters, as well as the land.

Signed

Pam Bell, Bob Mackay, Andy Quick  
For Waters of Wales - WoW

<sup>i</sup> WCA Petition [http://www.assembly.wales/en/bus-home/bus-third-assembly/3-committees/3-other-committees/3-pc/pet3\\_listofinquiries/canoeing\\_inquiry/Pages/canoeing\\_inquiry.aspx](http://www.assembly.wales/en/bus-home/bus-third-assembly/3-committees/3-other-committees/3-pc/pet3_listofinquiries/canoeing_inquiry/Pages/canoeing_inquiry.aspx)

<sup>ii</sup> Extract from a letter from Wye Usk Foundation <https://1drv.ms/u/s!AvvhfAJqO9K8gp5lrlrRGlq36zLA>

<sup>iii</sup> Petitions Committee Inquiry Report [https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gp5e\\_g1RAPp7OAO\\_Gg](https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gp5e_g1RAPp7OAO_Gg)

<sup>iv</sup> Sustainability Committee Inquiry <https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8g8h7bfU6CD6COI2A>

<sup>v</sup> SPLASH Projects Years 1-5 <https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gdDjYwvOckVaf11ww>

<sup>vi</sup> *The report of the National Assembly for Wales' Sustainability Committee on their Inquiry into Access to Inland Waters in Wales (2010) advocated that in the short term effort should focus on establishing voluntary agreements, but should the Assembly secure legislative competence in this area that introducing legislation to address areas where conflict persists would also be desirable. Three years on there continues to be conflict between different user groups and voluntary access agreements do not appear to be working Wales wide. The Minister now believes that it is necessary to explore ways of seeking to bring clarity and certainty for all on where they can go and what activities they can do, whilst ensuring proper safeguards for both nature conservation and the interests of owners. The Committee's findings are informing this current review.*

<sup>vii</sup> WoW response to 'Brexit and our land' consultation. [https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gpESf0gx7Tr-STY8\\_g](https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gpESf0gx7Tr-STY8_g)

<sup>viii</sup> 'The Common Law Right of Public Navigation' <https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gpTqH0ooHdaZFwKA>

<sup>ix</sup> Negotiating recreational access under asymmetrical power relations <http://eprints.brighton.ac.uk/1692/1/UT-SNR-1755.pdf>

<sup>x</sup> Failure to secure public access to the countryside, including inland water, by voluntary agreement, and the need to legislate. [https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gp5k7w4KvdNKTk\\_WiQ](https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gp5k7w4KvdNKTk_WiQ)

<sup>xi</sup> Failed attempts to negotiate sustainable access agreements in Wales <https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gp5o-DbzP3-M7gltug>

<sup>xii</sup> EA Technical Report W266: The Effect of Canoeing on Fish Stocks and Angling. <https://1drv.ms/b/s!AvvhfAJqO9K8gdhSxNy89P-7sc7vJA>

**Waters of Wales (WoW) is a community of independent campaigners for legislation enshrining public rights of fair, shared, sustainable open access to inland water in Wales.**

**Mae DC (Dyfroedd Cymru) yn gymuned o ymgyrchwyr annibynnol ar gyfer deddfwriaeth sy'n corffori hawliau cyhoeddus i fynediad agored cynnaladwy i dyffwrdd mewndirol yng Nghymru.**

## Eitem 3.2

**P-05-847 Creu ffynhonnau dŵr yng nghanol dinasoedd a threfi er mwyn rhoi diwedd ar wastraff plastig**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Tereza Tothova, ar ôl casglu 149 o lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried creu ffynhonnau dŵr a'u rhoi yng nghanol dinasoedd a threfi. Prif ddiben y cam gweithredu hwn fyddai roi diwedd ar wastraff plastig. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y poteli plastig untro yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac oherwydd y broses ailgylchu araf, mae'n llygru'r amgylchedd, gan niweidio bywyd y môr yn arbennig.

Mae llawer o bobl yn ceisio byw yn iach, gan gynnwys yfed o leiaf 2 litr o ddŵr bob dydd. Felly, mae poteli dŵr aml dro wedi dod yn boblogaidd a defnyddiol iawn i helpu pobl i yfed digon o ddŵr drwy'r dydd. Byddai rhoi ffynnon ddŵr yng nghanol dinasoedd neu mewn rhannau eraill o ddinasoedd a threfi (canolfannau siopa, canolfannau chwaraeon, colegau, canolfannau diwylliannol ac ati) yn helpu i sicrhau bod dŵr yfed ar gael trwy'r dydd. Byddai'r ffynhonnau dŵr hyn hefyd yn cyflenwi dŵr yfed i bobl ddiartref.

I gefnogi'r economi leol yng Nghymru, gellid defnyddio cwmnïau dŵr mwynol Cymru ar gyfer cyflenwi'r ffynhonnau dŵr.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

### **P-05-867 Gwneud Murlun 'Cofiwch Dryweryn' yn dirnod Cymreig dynodedig**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Joe Williams, ar ôl casglu 1,016 o lofnodion ar-lein.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Mae'n wirion bod tirnod mor bwysig yn Hanes Cymru'r 20fed Ganrif yn cael ei fandaleiddio, tra bod gwaith diweddar gan Banksy yn cael ei ddiogelu.

Mae'n amser i'r tirnod hwn gael statws safle gwarchodedig swyddogol yng Nghymru.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru



Ein cyf/Our ref DET/05317/19

Janet Finch-Saunders AC

Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deisebau

[SeneddDeisebau@cynullaid.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynullaid.cymru)

15 Ebrill 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr ar 3 Ebrill yn gofyn am ragor o wybodaeth i'r Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â P-05-867 Gwneud Murlun 'Cofiwch Dryweryn' yn dirnod Cymreig dynodedig. Rwy'n rhoi sylw i'ch pwyntiau isod.

### **Diweddariad ar ganlyniad y cyfarfod rhwng swyddogion, y Cyngor Cymuned a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol**

Cynhaliwyd cyfarfod adeiladol ddydd Gwener 22 Mawrth rhwng Dirprwy Gyfarwyddwr Cadw, aelodau Cyngor Cymuned Llanrhystud a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar ddyfodol Cofiwch Dryweryn.

Derbyniwyd yn y cyfarfod na allai rhestru na chofestru, yn yr achos penodol hwn, ddarparu'r math o warchodaeth sydd ei angen ar y safle. Cydnabuwyd y byddai warchodaeth statudol ar gyfer y murlun trwy restru neu chofestru yn gosod cyfyngiadau ar weithgareddau y gellir eu cyflawni ar y safle ac y byddai, er enghraifft, yn gofyn i unrhyw un sy'n dymuno adnewyddu'r gwaith paent wneud cais am ganiatâd, gyda hyn fel petai'n mynd yn groes i 'ysbryd protestio' y gofeb. Hefyd, ni fyddai rhestru na threfnu yn atal cwmp y wal, na'r murlun, trwy bydredd naturiol neu ddiffyg cynnal a chadw. Mae bygythiadau eraill i oroesiad parhaus y murlun, fel y posibilrwydd o adnewyddu ac aildefnyddio'r adeilad, neu ddifrod gan drydydd parti, eisoes yn cael eu cynnwys o dan y ddeddfwriaeth bresennol ar reoli cynllunio a difrod troseddol.

Cytunwyd bod angen ateb mwy arloesol a bydd Cyngor Cymuned Llanrhystud yn awr yn ystyried ffyrdd o weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, i ddyfeisio cynllun rheoli hirdymor ar gyfer y safle hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales](mailto:Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Pa fesurau y gellid eu cymryd i ddiogelu'r murlun yn ffisegol**

Mae'r murlun wedi'i beintio ar dalcen adeilad adfeiliedig, y tybir ei fod yn hen adeilad domestig. Mae'r strwythur dan berchnogaeth breifat felly byddai angen gwneud unrhyw waith cadwraeth gyda chaniatâd y perchennog. Nid oes arolwg cyflwr llawn wedi'i gynnal eto ond mae'n debygol bod angen gwneud rhywfaint o waith atgyweirio a chyfnerthu. Mae'r murlun ei hun wedi'i ail-beintio sawl gwaith. Efallai mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o reoli'r murlun yn y dyfodol. Bydd angen i'r cynllun rheoli ar gyfer y safle nodi'r opsiynau mwyaf priodol i ddiogelu'r murlun.

## **Gwybodaeth ychwanegol am yr ystyriaeth flaenorol a roddwyd i fater a yw'r murlun yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru neu ddyndodi fel heneb gofrestrdig, a pha ystyriaeth a roddwyd i ddiweddarau'r meini prawf a ddefnyddiwyd ar gyfer rhestru adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig**

Mae Cadw wedi asesu Cofiwch Dryweryn ar gyfer gwarchodaeth statudol sawl gwaith ond nid yw'n cyrraedd y safon uchel sy'n angenrheidiol ar gyfer ei restru fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 nac i gael ei gofrestru fel heneb o bwysigrwydd cenedlaethol o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979. Nodir y meini prawf cyhoeddedig ar gyfer asesu adeiladau a safleoedd archeolegol ar gyfer gwarchodaeth statudol o'r fath yn [Nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol](#).

### Rhestru

Er mwyn bod yn gymwys i gael ei restru, rhaid i strwythur gadw ffabrig ffisegol digonol i'w alluogi i gael ei ystyried yn adeilad (e.e. strwythur cyfan). Yn yr achos hwn dim ond darn bach o'r adeilad gwreiddiol - rhan o un wal - sydd wedi goroesi felly ni fyddai rhestru yn briodol. Byddai hyn yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd mewn manau eraill, fel rhan o arolwg adeilad rhestredig cenedlaethol o bob cymuned yng Nghymru, na ellid rhestru llawer o strwythurau adfeiliedig. Er bod y murlun ar y wal yn Llanrhystud yn rhoi arwyddocâd ychwanegol, ni ellir ei restru am y rheswm hwn yn unig. Gellir rhestru adeiladau ac adeileddau ar sail pensaernïaeth neu hanes ac ystyrir y ddau wrth ddewis rhestru. Mae cysylltiad hanesyddol â digwyddiadau sy'n arwyddocaol yn hanes Cymru yn ffactor cyfrannol ond mae'r asesiad hefyd yn ystyried i ba raddau y mae elfennau o gymeriad cyfoes adeilad, neu strwythur, yn cael eu cadw. Dylai fod rhywfaint o ansawdd neu ddiddordeb hefyd yng ngwead ffisegol y strwythur ei hun i gyfiawnhau amddiffyniad statudol a roddir drwy restru.

### Cofrestru

Gall adeiladau adfeiliedig fod yn gymwys i gael eu diogelu'n statudol trwy eu cofrestru os gellir dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer pwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw cadw'r dystiolaeth archeolegol sy'n goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae'r meini prawf ar gyfer dethol yn cynnwys ffactorau fel oed, prinder, cyflwr a photensial archeolegol. Crëwyd murlun Cofiwch Dryweryn yn wreiddiol fel ymateb i ddigwyddiad

hanesyddol penodol ond nid yw'n cynrychioli categori neu gyfnod heneb penodol. Gwyddom fod y murlun wedi'i ail-beintio sawl gwaith (gan gynnwys mor ddiweddar ag wythnos diwethaf) ac felly nid yw'n oroesiad gwreiddiol.

### Diweddarau'r meini prawf ar restru

Yn ystod y broses o graffu ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i nifer o gynigion i gydnabod arwyddocâd adeiladau o ddiddordeb lleol neu ymestyn y meini prawf ar gyfer rhestru i gynnwys gwerth cymunedol. Os yw adeilad yn bodloni'r meini prawf ar gyfer rhestru, rhaid i Weinidogion Cymru restru'r adeilad. Gyda dros 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru, gallai newid y meini prawf osod cyfyngiadau cyfreithiol ar ddegau ar filoedd o berchnogion eiddo ychwanegol a gosod beichiau gweinyddol ac ariannol sylweddol ar awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, sy'n gyfrifol am reoli gwaith ar adeiladau rhestredig drwy'r gyfundrefn caniatâd adeiladau.

Bydd Cadw yn parhau i gynnig cymorth i Gyngor Cymuned Llanrhystud ar y murlun 'Cofiwch Dryweryn'.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

**P-05-867 Make the 'Cofiwch Dryweryn' Mural a designated Welsh landmark, Correspondence – Petitioner to Committee, 28.04.19**

Thank you for your email. There are a few points I would like to address for the next meeting:

- Firstly, since the initial meeting of AMs, the wall was once again vandalised, as I'm sure you are aware. Rather than just spray paint this time, someone knowingly destroyed a large section of the wall. Though the damage has since been fixed communally, it's amazing that in the brief time between the last meeting and now, once again the mural has been targeted, and this time even more damage was done.
- Secondly, since the latest batch of damage, as I'm sure you're aware, the public outcry over the monument has been intense. Various murals were painted across Wales, including on Plaid offices. A Facebook group dedicated to the mural has received over a 1,000 new members in just three weeks. T-shirts, mugs and coasters have been sold. the time for the mural to be protected has come, as now there is significant public awareness of what the monument stands for.
- Thirdly, whilst the previous correspondence was helpful in laying out why the deputy minister for culture believes the mural should not be officially listed, it would be interesting to compare the mural to that of the Free Derry mural in Northern Ireland. A mural that gets repainted, yes, but one that is still listed as a landmark, and granted certain protections.

Many thanks,

Joe

# Eitem 3.4

## **P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Lynne Chick ac ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf yn ystod Ebrill 2017, ar ôl casglu 1,239 llofnod.

### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch pob plentyn wrth iddynt deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

Rydym am gael bysiau ysgol penodedig â sedd a gwregys diogelwch i bob plentyn, fel y gall plant deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn ddiogel, ac ni ddylai unrhyw blentyn gael ei orfodi i deithio ar fysiau cyhoeddus gorlawn. Mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch plant.

Mae gan ein plant yr hawl i deimlo'n ddiogel. Gall bysiau cyhoeddus fynd yn orlawn. Nid oes gennym ddim syniad pwy allai fod yn teithio ar fws cyhoeddus. Bysiau at ddefnydd y cyhoedd yw bysiau cyhoeddus ac nid cludiant i'r ysgol. Nid ydym yn gofyn am wasanaeth di-dâl. Nid ydym yn gofyn am gael rhywbeth am ddim, dim ond tawelwch meddwl bod ein plant yn ddiogel pan fyddant yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Rydym yn dysgu ein plant bod pobl ddieithr yn beryglus ac eto mae disgwyl i ni eu hanfon ar fws cyhoeddus yn llawn pobl ddieithr bob dydd.

Bu farw fy merch ar ôl iddi gael ei tharo gan fws cyhoeddus a ddefnyddiodd i deithio adref o'r ysgol. Rwy'n teimlo ei bod hi'n anochel y bydd rhiant arall yn wynebu'r un hunllef â mi os na wneir rhywbeth i sicrhau bod gan blant ddull diogel o deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd llawer o bobl yn cofio fy merch Louise a'r ffordd ofnadwy y bu farw. I'r rhai nad ydynt yn cofio, roedd Louise yn 11 oed ac ond megis dechrau yn yr ysgol uwchradd. Roedd fy mhlant yn dibynnu ar fws cyhoeddus oherwydd y pellter i gyrraedd yr ysgol. Ar 19 Mawrth 2001, roeddwn i'n disgwyl i Louise ddod adref o Ysgol Uwchradd Cei Connah ar yr amser arferol, ond roedd y



bws yn hwyr y diwrnod hwnnw. Dechreuais boeni, ac wrth i mi adael y tŷ gwelais ffrindiau Louise a ddywedodd wrthyf ei bod hi wedi cael ei tharo gan gerbyd. Rhedais at ben y stryd i weld fy merch brydferth yn ymladd am ei bywyd yn y ffordd, â phlant ysgol gofidus o'i hamgylch. Roeddwn i'n methu â deall beth oedd wedi digwydd. Yn y misoedd wedyn, daeth i'r amlwg bod y bus yr oedd Louise yn teithio adref arno yn orlawn. Roedd oedolion yn sefyll yn siarad â'r gyrrwr. Soniwyd am wthio, a bod ei bag wedi'i ddal yn y drws neu yn yr olwyn, gan achosi iddi gael ei llusgo o dan y bus yr oedd hi newydd ddod oddi arno. Profwyd bod mannau dall nad oedd modd eu gweld yn y drychau ac roedd hynny wedi cyfrannu at y ddamwain.

Yn dilyn penderfyniad i gau ysgol leol, Ysgol Uwchradd John Summers, mae llawer o rieni wedi siarad â mi am eu pryderon ynghylch diogelwch eu plant wrth deithio ar fysiau cyhoeddus yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Codwyd pwyntiau sydd wedi codi ofn arnaf, felly rwy'n arwain ymgyrch yn enw fy merch er mwyn sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn cael ei orfodi i ddefnyddio bysiau trafnidiaeth gyhoeddus fel cludiant i'r ysgol.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Alun a Glannau Dyfrdwy
- Gogledd Cymru

To: Janet Finch-  
Saunders AM

Chair, Petitions  
Committee

**Via email only**

11 April 2019

Dear Chair,

**Petition P-05-748 School Buses for School Children**

Thank you for your letter dated 20<sup>th</sup> March 2019 regarding the above named petition.

I note the series of correspondence sent to the Committee from both the Minister for Economy and Transport and the Department for Transport. I also note the discussions during the last consideration of this petition on 5<sup>th</sup> March 2019 regarding the lack of seatbelts on public transport.

This appears to be an area that is 'caught' between the devolved and non-devolved areas, as learner travel would sit with the Welsh Government but wider public transport matters and DBS checks remain at a UK Government level. I can appreciate that this must be extremely frustrating for the petitioner who is seeking to improve safety in school transport across Wales.

In my [annual report for 2015-16](#), I made the following recommendation in relation to school transport:

"Welsh Government should review the Learner Travel (Wales) Measure 2008 and associated statutory provision and operational guidance, to ensure that all journeys to and from school are safe and that local authorities are quite clear about their responsibilities for ensuring that this happens."

This recommendation came from a number of cases regarding home to school transport provision and pick up points that had arisen across Wales but any review could also include the issue of public transport being used for school journeys.

The Welsh Government had told me that the Measure and guidance would be reviewed. I note from the correspondence received from the Minister that this Measure is described as being subject to "ongoing review" but that the last substantive review took place in 2014 (prior to this recommendation being made).



Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House  
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way  
Abertawe/Swansea SA7 9FS  
01792 765600

**comisiynyddplant.cymru**  
**childrenscommissioner.wales**

post@comisiynyddplant.cymru  
post@childrenscommissioner.wales

Tudalen y pecyn 110

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau  
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

I maintain a register of progress against the recommendations I make in my annual reports, which is updated on a quarterly basis. The last update to this document was in [March 2019](#) and as you will see from that document the measure still has not been reviewed. However the [documentation for the Additional Learning Needs and Education Tribunal \(Wales\) Act 2018 Code of Practice](#) which was published for consultation earlier this year noted that the Measure is to be reviewed; I would suggest that a wholesale review is therefore necessary.

I am also aware that a White Paper has been published on "[Improving Public Transport](#)" and the initial consultation recently closed. I submitted a response to that consultation noting the importance of engaging with children and young people when redesigning services that they will regularly use and rely upon. This was before I had had a chance to consider the details of this petition. I would anticipate that there would be future opportunities to influence that work as it develops however, as it was mentioned by the Minister in some of his correspondence with the Committee.

Finally in relation to the legal powers of my office, for any matters that are outside of my remit (such as the public transport safety issues in this case), I am unfortunately not able to raise these directly with the relevant UK Government in the same way that I would for matters devolved to the Welsh Government. Instead the power in the Care Standards Act 2000 is that I may "make representations to the [Welsh Ministers, the First Minister for Wales or the Counsel General to the Welsh Assembly Government]".<sup>1</sup> I have therefore copied the First Minister and the Minister for the Economy and Transport in to this letter.

Yours sincerely,



Sally

Sally Holland  
Comisiynydd Plant Cymru  
Children's Commissioner for Wales

cc. Mark Drakeford, First Minister  
Ken Skates, Minister for Economy and Transport

---

<sup>1</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/section/75A>



**P-05-748 – School buses for school children, Correspondence – Petitioner to Committee, 29.04.19**

Dear Committee,

I truly hope that someone along my petition journey will stand up and take some kind of responsibility for the safety of children who have to use commercial buses as their only way to school, I believe there should be school buses for school children but as pointed out in one of your meetings this would be far too costly, it's so sad to hear that, when money is ploughed in to other directions.

At the very very least there has to be some minor changes to ensure children who have to use public buses to and from school are at their safest, not just children either, as our elderly and most vulnerable are also very important. I truly do not think it's too much to ask that all bus drivers are DSB (CRB) checked.

The fact that commercial bus drivers do not by law have to undergo DSB (CRB) checks this I feel is shocking as there is always a chance that a child or vulnerable person could be that last passenger on that bus, meaning the driver is alone with them, you only have to think about the Jamie Lavis case where a bus driver befriended eight year old Jamie and let him hand out bus tickets before sexually abusing and then murdering him, and yet we are expected to be ok with letting our children travel to and from school on commercial services with unchecked drivers!!

I understand dedicated school buses are driven by drivers who are DSB checked, but as pointed out budgets wouldn't allow for every school to have a dedicated school bus so therefore some school children only have the option of using a commercial bus.

The laws between commercial buses and dedicated school buses are very different and yet both are being used by school children.

The seatbelt issue to ensure people's safety, this should be standard considering in other vehicles it's a law to wear a seat belt?

The point I've raised in past correspondents I will list again below, I hope I truly have your support on keeping children safe, as I said it wouldn't just keep children safe but everyone.

It's fabulous all those school children who are lucky enough to have a dedicated school bus, with seatbelts and a seat each, a driver who is advanced checked via DSB yet for those children who are not lucky enough to have a dedicated school bus and have to rely on commercial buses as a means to school should have the same type of safe guarding when travelling. How is it fair that some children's safety is compromised in this way just because they are less fortunate.

How can it be law to wear a seatbelt in other vehicles yet on a bus that aspect of safety is over looked?

I stand by what I have said in my past emails, points being

1. DBS checks on all bus drivers
2. Seat belts on all buses
3. Every child to have a seat if travelling on a commercial bus.

Please see attached photos of how our children are travelling when having to rely on commercial buses to and from school.

I also request that the 2 attached photos and my full email are made available to every member sat on the committee meeting please.

Kind regards

Lynne Chick



## Eitem 3.5

### P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Chris Evans ac ystyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor yn ystod Tachwedd 2017, ar ôl casglu 652 o lofnodion ar-lein.

#### Geiriad y ddeiseb

Rwyf yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i atal Cymwysterau Cymru rhag parhau i wahaniaethu yn erbyn dysgwyr cyfrwng Cymraeg, a sicrhau cydraddoldeb ieithyddol o ran cwricwlwm ysgol. Yn 2015, penderfynodd CBAC ollwng Seicoleg TGAU oherwydd niferoedd ymgeiswyr cymharol fach (37 canolfan – 5 yn rhai cyfrwng Cymraeg gyda 144 ymgeisydd cyfrwng Cymraeg bob blwyddyn). Oherwydd hyn, rhoddwyd gwahoddiad gan Gymwysterau Cymru (CC) i'r Cyrff Dyfarnu Saesneg; AQA, OCR, Pearson-Edexcell, gynnig y pwnc hwn, a rhai eraill e.e. Economeg, yng Nghymru.

Yn anffodus, ac yn anghrediniol, ni roddwyd unrhyw bwysau arnynt i gynnig y pynciau yma yn y Gymraeg. Ymateb Gymwysterau Cymru i hyn yw dweud y byddai'r Cyrff Saesneg yn gwrthod cynnig pynciau yng Nghymru yn gyfan gwbl pe tase nhw yn cael eu gorfodi i gynnig opsiwn Cymraeg, a bod CC yn ceisio sicrhau 'y dewis ehangaf o bynciau i ddysgwyr Cymru' (Cylchlythyr CC, Rhagfyr 2016).

'Y dewis ehangaf o bynciau i ddysgwyr Cymru'....heblaw eich bod yn dilyn addysg Gymraeg! Ym mis Medi, ni fydd cwrs Seicoleg TGAU blwyddyn 10 yn rhedeg yn fy ysgol am y tro cyntaf ers 2009, tra bod yr ysgol cyfrwng Saesneg ychydig filltiroedd i ffwrdd, yn cychwyn ar gwrs Seicoleg TGAU newydd yn Saesneg trwy AQA. Yr unig reswm pam nad wyf gallu cynnig y pwnc yw oherwydd ein bod yn dysgu drwy'r Gymraeg. Mae pedair canolfan Gymraeg arall yn yr un sefyllfa.

Mae angen Seicolegwyr sy'n gallu trafod eu pwnc drwy'r Gymraeg. Wrth amddifadu disgyblion cyfrwng Cymraeg rhag y cyfle i astudio Seicoleg TGAU drwy'r Gymraeg, dyna golli 144 myfyriwr y flwyddyn fyddai efo'r potensial o gyfrannu at Seicoleg – fel athro, darlithydd, therapydd, ymchwilydd a.y.b

drwy'r Gymraeg yn hyderus oherwydd bod y derminoleg berthnasol yn gyfarwydd iddynt.

### **Gwybodaeth ychwanegol**

Safodd 144 ymgeisydd bapur Uned 2 TGAU Seicoleg CBAC drwy'r Gymraeg i orffen y cwrs yn 2015, a 5 canolfan yn ei gyflwyno, felly mae potensial o niferoedd sylweddol, nid llond llaw. Rwyf wedi trefnu y byddai tri arholwr Seicoleg profiadol ar gael i weithio i unrhyw Fwrdd Saesneg fel na fyddai angen cyfieithu unrhyw sgriptiau (atebion) ymgeiswyr, ond y papur ei hun. Yr unig Fwrdd Saesneg wnaeth hyd yn oed ystyried y cais (gen i, nid CC), oedd Pearson, ond gwrthod wnaethon nhw yn y diwedd gan ddweud 'y byddai angen Cymry Cymraeg ar bob lefel o gynhyrchu'r papurau'. Mae hynny'n nonsens llwyr oherwydd dydy hynny ddim yn digwydd hyd yn oed yn CBAC ble mae'r Prif Arholwr a'r Swyddog Pwnc yn ddi-Gymraeg!

Nid wyf yn beio'r Byrddau, oherwydd pam dyle nhw fynd i'r drafferth os nad oes rhaid iddyn nhw? Ar Gymwysterau Cymru y mae'r bai am eu polisi llipa, nad yw'n amddiffyn hawliau dysgwyr cyfrwng Cymraeg. Byddai hi wedi bod yn bosibl creu elfen o gystadleuaeth rhwng y Byrddau Saesneg trwy roi blaenoriaeth i rai a fyddai'n agored i'r syniad o gynnig opsiwn Cymraeg, ond doedd dim ymdrech i wneud hyn o gwbl.

Mae hyn yn hollol annerbyniol yn y Gymru Fodern. Os ydy Cyrff Dyfarnu Saesneg yn cael cynnig pynciau yng Nghymru, rhaid gwneud yn glir iddyn nhw bod angen cynnig papur Cymraeg ble mae cais rhesymol dros wneud hyn.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Wrecsam
- Gogledd Cymru

**P-05-783 Sicrhau Cydraddoldeb Cwricwlwm i Ysgolion Cyfrwng Cymraeg e.e. Seicoleg TGAU, Gohebiaeth – Deisebydd at y Pwyllgor, 30.04.19**

Yn gyntaf, diolch o galon i chi am eich am eich holl waith gyda'r mater hwn. Mae hi wedi bod yn galonogol i weld yr angrhedinedd yn ymateb sawl Aelod Cynulliad wrth ddeall beth sydd wedi digwydd gyda'r achos hwn. Fodd bynnag, mewn un cyfarfod ac aeth y drafodaeth i gyfeiriad diffyg adnoddau Cymraeg, sydd yn fater o bryder a phwysigrwydd wrthgwrs, ond diffyg argaeledd cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yw'r broblem yn yr achos hwn, nid adnoddau.

Rwyf wedi atodi copi o'r daflen y defnyddiais i godi ymwybyddiaeth o'r mater, gan ei bod yn rhoi amlinelliad hwylus o beth ddigwyddodd yn ôl yn 2015, pan benderfynodd Cymwysterau Cymru adael i Fyrddau Arholi Saesneg gynnig eu cyrsiau yng Nghymru heb roi pwysau arnynt i'w cynnig nhw drwy'r Gymraeg. Roedd gwneud hyn yn 2015, yn angrhediniol i ni sy'n gweld Cymru fel gwlad dwyieithog fodern, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod dros 600 o bobl wedi arwyddo'r ddeiseb, ac ymateb y gwleidyddion a Chomisynydd y Gymraeg.

Mae'r penderfyniad hwn wedi cael effaith andwyol ar fy ngyrfa. Dim ond cwrs lefel A Seicoleg sydd yn Ysgol Morgan Llwyd bellach, ac nid oes cwrs TGAU. Nid wyf bellach yn Bennaeth Pwnc swyddogol, a fydd yn arwain at ostyngiad cyflog. Mae hyn wrthgwrs yn destun siom personol wedi i mi adeiladu'r adran o'r newydd yn 2009, gyda dros gant o blant yn astudio'r pwnc ar lefel TGAU yn unig ar un adeg. Yn ogystal â bod yn siom i mi, mae o wedi siomi nifer o ddisgyblion, yn enwedig rhai efo brawd neu chwaer hyn oedd wedi astudio'r pwnc, ond bu'n rhaid i mi egluro nad ydy'r cwrs TGAU ar gael drwy'r Gymraeg, er ei fod ar gael mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Yn ei lythyr diweddar, mae Philip Blaker yn nodi ei hun bod o leiaf saith ysgol yng Nghymru mewn sefyllfa debyg. Niferoedd cymharol fach efallai yn nghyd-destun ariannol Cynllun Busnes Bwrdd Arholi, ond golyga hyn bod cannoedd o blant Cymru yn cael eu hamddifadu o'r cyfle i astudio'r pwnc cyfoes, gwyddonol hwn, gyda chysylltiad cryf gyda iechyd meddwl, oherwydd eu bod yn dilyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae o hefyd yn son am ymdrechion C.C. i geisio arbed y sefyllfa trwy berswadio Pearson ystyried yr opsiwn Gymraeg yn 2016, ond roedd hi'n rhy hwyr erbyn hynny. Pam y dylai Pearson wneud hyn, pan nad oedd AQA neu OCR wedi gorfod gwneud? Roedd hi digon hawdd iddyn nhw nodi anhawsterau (esgusodion) fel diffyg arholwyr Cymraeg a.y.y.b., ond does dim sail i rhain mewn gwirioedd. Dim ond tri arbennigwr Seicoleg sy'n Gymry Cymraeg sydd gan CBAC ei hun yn rhan o'r holl broses o greu ac asesu'r papurau, gyda Phrif Arholwr a swyddog di-Gymraeg. Roedd tri arbennigwr Cymraeg ar gael i Pearson. Y gwir plaen yw ei bod hi'n rhy hwyr i arbed y sefyllfa wedi'r penderfyniad gwan, gwrth-Gymreig a wnaed gan sefydliad Cymwysterau Cymru yn 2015.

Mae o'n ceisio bychanu pwysigrwydd y pwnc trwy ddweud nad oes angen ei astudio i ddilyn y cwrs Safon Uwch. Mae hynny'n wir, ond mae myfyrwyr yn llwyddo llawer gwell yn Safon Uwch os ydyn nhw wedi cael y cyfle i osod sylfaen o wybodaeth yn y pwnc trwy gwrs TGAU yn gynfaf. Nid yw'r pwnc ar gael yn y rhan fwyaf o ysgolion oherwydd diffyg athrawon gyda chymhwyster yn y pwnc, gan nad ydy o wedi cael ei ddysgu mewn ysgolion uwchradd yn



draddodiadol. Gyda'r pwyslais newydd ar 'Iechyd a Lles' yn y Cwricwlwm newydd, credaf bod Seicoleg yn bwnc dylai gael ei hyrwyddo, nid a leihau mewn argaeledd.

Rwyf yn siomedig gydag ymateb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, gan ei bod hi unwaith eto yn cymryd y safbwynt mai 'mater i Gymrwysterau Cymru yw hyn'. Onid ydy penderfyniadau fel hyn, sydd wedi cael effaith negyddol ar addysg Gymraeg yn gyfifoldeb arni hi yn y pendraw?

Rwyf yn siwr bod gwersi wedi ei dysgu, ac rwyf yn mawr obeithio na fydd yn digwydd eto. Mewn cyflweliad ar rhaglen Taro'r Post ar Radio Cymru, dywedodd y cyn-Gyfarwyddwr Arholiadau ac Aseidiadau CBAC, Derek Stockley, na fyddai hyn wedi digwydd cyn 2015, pan yr oedd CBAC yn gyfrifol am faterion fel hyn, felly maen amlwg i mi ein bod ni wedi cymryd cam yn ôl o ran darpariaeth cyfrwng Gymraeg ers sefydlu Cymwysterau Cymru.

Yr eiddoch yn gywir

Chris Evans  
Pennaeth Seicoleg  
Ysgol Morgan Llwyd  
Wrecsam

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



## Gwahaniaethu Ieithyddol yn erbyn ysgolion cyfrwng Cymraeg! Arwyddwch y ddeiseb i atal Cymwysterau Cymru rhag parhau i adael hyn i ddigwydd!



Chris Evans, Pennaeth Seicoleg Ysgol Morgan Llwyd Wrecsam

Rhodddwyd ganiatad i Fyrddau Arholi Saesneg fel AQA, OCR a Pearson i gynnig pynciau yn Nghymru o Fedi 2017 gan Gymwysterau Cymru. Mae rhain yn bynciau nad ydynt ar gael trwy CBAC e.e. Seicoleg TGAU ac Economeg TGAU. Yn anffodus, ac yn anghrediniol, ni roddwyd unrhyw bwysau gwirioneddol arnynt i gynnig papurau yn y Gymraeg! Ymateb Cymwysterau Cymru i gwynion am hyn yw dweud y byddai'r Byrddau Saesneg yn gwrthod cynnig pynciau yng Nghymru yn gyfan gwbl pe tase nhw'n cael eu gorfodi i gynnig opsiwn Cymraeg.

***“Er mwyn annog cyrff dyfarnu i gynnig yr ystod ehangaf bosibl o bynciau i ddysgwyr yng Nghymru, nid ydym yn mynnu eu bod yn cael eu cynnig yn***


***Gymraeg”*** - Philip Blaker, Prif Swyddog Gweithredol, Cymwysterau Cymru Cylchlythyr CC, Rhagfyr 2016.



***‘.yr ystod ehangaf bosibl o bynciau i ddysgwyr Cymru’***...heblaw eich bod yn dilyn addysg Gymraeg! Yn hytrach na sefyll yn gadarn dros yr iaith, a chreu cystadleuaeth rhwng y Byrddau Saesneg am yr hawl i gynnig eu cyrsiau yng Nghymru, mae nhw'n gadael iddyn nhw drin canolfannau Cymru yn union fel rhai Lloegr.

Canlyniad hyn yw y bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dioddef llai o ddewis o ran pynciau nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Rwyf wedi dysgu Seicoleg TGAU yn fy ysgol ers 2009, ond ym mis Medi, nid oes cwrs ar gael i mi ddysgu drwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol cyfrwng Saesneg ychydig filltiroedd i ffwrdd ddewis rhwng tri bwrdd, ac yn cychwyn cwrs Seicoleg TGAU trwy AQA.

Mae pedwar canolfan Gymraeg arall yn yr un sefyllfa, a byddai dros 100 o ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg yn dilyn y cwrs tasau o ar gael drwy'r Gymraeg. Mae o leiaf tri arholwr Seicoleg profiadol wedi cynnig gweithio i unrhyw fwrdd Saesneg a fyddai'n cynnig papur Cymraeg. Trwy arwyddo'r ddeiseb, sydd ar wefan y Cynulliad, byddwch yn fy helpu i roi pwysau ar Gymwysterau Cymru, a'r Llywodraeth, i sicrhau cydraddoldeb o ran dewis cwricwlwm i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg Cymru.



Diolch, Chris Evans



### **P-05-789 Adolygu cymorth i geiswyr lloches sy'n ymgymryd ag addysg bellach**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gulnar Sohail ac ystyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor yn ystod Rhagfyr 2017, ar ôl casglu 78 o lofnodion ar-lein.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adolygu'r Lwfans Cynhالياeth Addysg (LCA), y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAwG) a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC) i ganiatáu i fwy o geiswyr lloches allu cymryd rhan mewn addysg bellach.

#### **Gwybodaeth ychwanegol**

Yn y cyfnod anodd hwn pan mae chwyddiant yn cynyddu ac mae eitemau bob dydd yn mynd yn fwyfwy drud i ddinasyddion y DU hefyd, mae bron yn amhosibl i geiswyr lloches symud ymlaen ymhellach yn eu haddysg uwch/mynediad. Rydym ni (Ceiswyr Lloches) yn cael ychydig dros £5 y dydd yn unig gan y Swyddfa Gartref, ac o'r swm hwn mae'n rhaid prynu bwyd, dillad, costau cludiant dyddiol ac mae'r rhestr yn parhau. Hyd yn oed pe byddwn yn ceisio rhywsut (trwy dorri i lawr ar fwyd neu ryw beth arall pwysig) mae cost y cludiant ar gyfer y cwrs cyfan gan gynnwys unrhyw daliadau eraill fel cofrestru a gofal plant yn ormod i allu ymdopi â hwy. Fy mhwynt yw na ddylid gwahaniaethu rhwng ceisiwr lloches ac unrhyw berson arall sy'n byw yng Nghymru os yw'r ddau'n ceisio mynd i'r coleg ar gyfer cyrsiau addysg uwch/mynediad. Os yw person o Gymru yn cael CAwG a GDLIC yna dylai ceisiwr lloches hefyd dderbyn y ddau, neu unrhyw gymorth cysylltiedig arall a fydd yn ei alluogi i symud ymlaen yn ei fywyd. Oherwydd costau a grybwyllwyd eisoes, rwyf wedi gweld cynifer o geiswyr lloches yn gwrthod eu cyfle i ymgymryd ag addysg uwch. Mae hefyd yn golygu na fyddant yn gwneud unrhyw beth cynhyrchiol gan nad yw gweithio'n cael ei ganiatáu, a bydd eistedd gartref yn eu gwneud yn fwy rhwystredig. Hoffwn hefyd sôn am enghraifft ddiweddar pan y gwnaeth person anghenus (y gwrthodwyd ei gais am loches ac y cafodd ei gymorth ariannol a'i dŷ ei dynnu'n ôl gan y Swyddfa Gartref) gyflawni hunanladdiad. Roedd yn byw yn y sefyllfa hon ers peth amser ac nid oedd yn gallu gwneud defnydd o'i fywyd. Rwy'n credu pe byddai wedi cael cyfle efallai na fyddai wedi mynd mor bell â hynny. Byddai galluogi mwy o geiswyr lloches i gael addysg nid yn unig yn rhoi rhywfaint o bwrpas

iddynt mewn bywyd ond byddai hefyd yn cyfoethogi'r gymuned lle maent yn byw. Wedi'r cyfan, o dderbyn ein trwydded breswyl, byddem yn annibynnol ac yn rhydd i weithio a bydd yr addysg hon yn ein helpu mewn sawl ffordd i lunio ein teuluoedd a'n cymunedau mewn ffyrdd llawer gwell.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Abertawe
- Gorllewin De Cymru

Kirsty Williams AC  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-789  
Ein cyf/Our ref KW/05774/19

Janet Finch-Saunders AC  
Aelod Cynulliad dros Aberconwy  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd,  
CF99 1NA

[Government.Committee.Business@llyw.cymru](mailto:Government.Committee.Business@llyw.cymru)

11 Ebrill 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Ebrill ynghylch ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu mynediad i geiswyr lloches at gynlluniau'r Lwfans Cynhaliath Addysg a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Rhoddwyd eich llythyr i mi gan fod y cynlluniau hyn yn rhan o'm portffolio i.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Cenedl Noddfa: Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Fel y nodwyd gennych, mae'r cynllun yn amlinellu y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio tuag at newid fel bod ceiswyr lloches yn gymwys ar gyfer y cynlluniau uchod o fis Medi 2020. Yn anffodus, nid oes modd gweithredu'r newidiadau ynghynt gan fod yr holl newidiadau i'r system cymorth i fyfyrwyr yn cymryd tua 18 mis (yn rhannol er mwyn caniatáu amser i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr newid ei systemau TG), ac mae'n rhaid i effaith unrhyw newid mewn polisi gael ei ystyried yn llawn. Er hynny, hoffwn eich sicrhau bod fy swyddogion yn cydweithio yn agos â phartneriaid cyflenwi ac ar draws adrannau'r Llywodraeth er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn cyn gynted ag y bo modd.

Yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 123

**P-05-789 Review support for asylum seekers accessing further education,  
Correspondence – Petitioner to Committee, 30.04.19**

Because of no options of further academic education for Asylum seekers in UK all of us waste the time duration in which our case is in process with Home Office which can be utilised by gaining education and make ourselves ready when hopefully all of us will get residency here. I would like to share my family's example. We applied for Asylum in Mar 2014 and got leave to remain in Aug 2018 so we have spend around four and half years in Asylum seekers status in which we were not allowed to work or even study. Now when me and my husband are applying for jobs, we are having difficulties as there is a long gap of all these years in which we have just wasted our time. That time would be well spend if we both have gained some academic qualifications so at the moment we would be in much better position to grab any good opportunity and would be paying taxes and giving back to community what we have always wished for. Specially there are so many young people who are of college or university going age (could get HNC or HND or Apprenticeship options if allowed) but can't go as they can't afford to pay while living on asylum support. Even apprenticeships are not available for such individual. We consider these young people as assets for Uk economy who can study well (if given chance) and in due time when their asylum application is approved they can get better jobs and are not bound to rely on state benefits. It will also be benefited if we can study while our case proceeds as it will keep us happy and motivated and will work as a therapy to keep ourselves away from Asylum thoughts and nightmares. Apologies if I am not able to show you the importance of this matter but it really is of utmost important to me and all Asylum seekers.

### **P-05-802 Amddiffyn Maint Dosbarthiadau mewn Ystafelloedd Dosbarth a Gweithdai Dylunio a Thechnoleg**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Aled Dafis ac ystyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor yn ystod Mawrth 2018, ar ôl casglu 338 o lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn mabwysiadu safon BS4163:2014 yn llawn fel gofyniad yn hytrach nag argymhelliad, er mwyn amddiffyn iechyd a diogelwch disgyblion, athrawon a thechnegwyr.

Yn dilyn cyfarfodydd rhwydweithio ar gyfer athrawon Dylunio a Thechnoleg gan Ein Rhanbarth ar Waith, daeth yn amlwg bod y pwysau ariannol ar ysgolion yn arwain at sefyllfa lle y mae gofyn i athrawon Dylunio a Thechnoleg fwyfwy i addysgu dosbarthiadau mwy na'r 20 disgybl yr argymhellir yn BS4163:2014 "Iechyd a diogelwch ar gyfer dylunio a thechnoleg mewn sefydliadau addysgol – Cod Ymarfer". Mae dosbarthiadau mwy o faint yn anochel yn arwain at risg uwch o ran disgyblion yn cael eu hanafu mewn amgylcheddau gweithdy.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae Cod Ymarfer BS4163:2014 yn nodi'n glir fel a ganlyn:

"9 Rheoli'r amgylchedd addysgu

#### 9.1

##### **Gwybodaeth gefndir**

Dylid ystyried yn ofalus nifer y dysgwyr mewn unrhyw un ardal weithio, i sicrhau y ceir gweithio diogel a goruchwyliaeth effeithiol.

Yng Nghymru a Lloegr, dylai dim mwy nag 20 o ddysgwyr fod gydag un athro cymwys, sydd wedi cymhwyso, mewn unrhyw un ardal weithio.

Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai dim mwy nag 20 disgybl fod ar gyfer pob dosbarth mewn pynciau ymarferol."



## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ceredigion
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Kirsty Williams AC/AM**  
**Y Gweinidog Addysg**  
**Minister for Education**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Eich cyf: P-05-802  
Ein cyf: KW/05576/19

Janet Finch-Saunders AC  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bai Caerdydd  
CF99 1NA  
[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

21 Mawrth 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich e-bost dilynol dyddiedig 11 Mawrth yn ymwneud â diogelu maint dosbarthiadau mewn Dosbarthiadau a Gweithdai Dylunio a Thechnoleg (Deiseb P-05-802).

Yn fy ngohebiaeth flaenorol, fe wnes i ymrwymiad y byddai fy swyddogion yn anfon nodyn hysbysu trwy Gylchlythyr Dysg i atgoffa prifathrawon o'u dyletswyddau i gynnal asesiadau risg mewn ysgolion, yn enwedig mewn dosbarthiadau Dylunio a Thechnoleg, er mwyn cadarnhau bod y dosbarthiadau yn ddiogel; ac i anfon copi i'r Pwyllgor Deisebau.

Does gen i ddim cofnod sy'n cadarnhau bod y cyngor hwn wedi'i anfon at ysgolion. O ganlyniad i hynny, rydw i wedi gofyn i'm swyddogion ychwanegu nodyn hysbysu yn argraffiad mis Mawrth o Dysg. Gweler isod linc i'r erthygl.

[https://content.govdelivery.com/accounts/UKWALES\\_CY/bulletins/2377716?reqfrom=share](https://content.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/bulletins/2377716?reqfrom=share)

Yr eiddoch yn gywir

**Kirsty Williams AC/AM**  
**Y Gweinidog Addysg**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 127

**P-05-802 Protecting Class Sizes in Design and Technology Classrooms and Workshops, Correspondence – Petitioner to Committee, 29.04.19**

Thank you for the opportunity to respond to Ms Williams' letter dated 21st March 2019.

Whilst I appreciate that an effort has been made to make schools aware of their obligations regarding safeguarding students, I remain concerned that this advice note does not make the message clear enough to school leaders. The advice note makes a passing comment on Design and Technology, but on following the link supplied within the newsletter, I fail to find any direct reference to any subject specific legislation or guidance. Surely this would have been the opportunity to reference BS4163:2014, where it is clearly stated that :

"9 Management of the teaching environment

9.1 General

The number of learners in any one work area should be carefully considered to

ensure safe working and effective supervision.

In England and Wales, there should be a maximum of 20 learners with one competent, qualified teacher in any one work area."

On another point, I question the effectiveness of publishing this information in the Dysg Newsletter. Of the many Design and Technology teachers I've contacted regarding this advice note, only one received the newsletter, and she admitted that she rarely read it.

I firmly believe that for the Minister's commitment on this issue to be effective, it would be far better for her to further ask her officials to send a clearly worded advice note directly to all school leaders outlining their responsibilities regarding class sizes in Design and Technology workshops.

Yours sincerely

Aled Dafis

### **P-05-821 Ailgyflwyno cyllid cymorth addysgol i awdurdodau lleol ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan UNISON Neath Port Talbot, ar ôl casglu 262 o lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Mae cangen Castell-nedd Port Talbot o UNSAIN yn galw ar i Lywodraeth Cymru wrthdroi'r penderfyniad i dorri cyllid cymorth addysgol ar gyfer y Gwasanaeth Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (MEAS) a'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr (TES).

Yn y bôn, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi tynnu cyllid ar gyfer y grwpiau hyn yn ôl o dan y grant gwella addysg. Mae ymchwil yn dangos mai plant Roma a Theithwyr sydd â'r cyfraddau cyrhaeddiad isaf o unrhyw grŵp ethnig yng Nghymru, a diben y grant gwella addysg yw cefnogi eu dysgu a gwella cyrhaeddiad.

Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae canran o'r disgyblion yn ein hysgolion yn deithwyr ac yn grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n dibynnu ar yr arian hwn; mae Margam a Llansawel yn enghreifftiau o hyn. Mae gan y cyngor dystiolaeth bod gweithwyr cymorth yn darparu gwasanaeth gwych o ran ymgysylltu â'r dysgwyr 'anodd eu cyrraedd' hyn. Rydym am i bob person ifanc allu cyrraedd ei botensial ac mae gweithwyr cymorth yn gallu hyrwyddo anghenion pob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed neu sydd o dan anfantais. Maent yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd, ysgolion a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Bydd y gostyngiad yn eu cyllid yn niweidiol ac mae torri swyddi eisoes yn cael ei drafod â'r undebau llafur. Bydd angen talu unrhyw gostau diswyddo o gyllideb sydd eisoes dan bwysau. Rydym yn annog i Lywodraeth Cymru ymgynghori ag UNSAIN ac awdurdodau lleol. Rhaid i Lywodraeth Cymru gwblhau Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod arian yn cael ei ddyrannu i'r rhai sydd mewn angen.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Aberafan
- Gorllewin De Cymru

## Eitem 3.9

### **P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid Ysgolion Gwledig**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymunedol Bodffordd, ar ôl casglu 5,125 o lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Galwn ar y Llywodraeth i gymryd camau i sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn dilyn canllawiau'r cod trefniadaeth ysgolion presennol a'r cod newydd (pan ddaw i rym) gan gynnwys gweithredu'n unol â'r rhagdybiaeth o blaid ysgolion gwledig. Derbyniwn nad yw hyn yn golygu na chaiff ysgol wledig byth ei chau, ond mae penderfyniad diweddar Pwyllgor Gwaith Cyngor Ynys Môn i gau ysgol Bodffordd yn dangos bod rhwydd hynt i awdurdodau lleol anwybyddu'r cod newydd (y maent i fod i weithredu yn unol â'i ysbryd) a chau hyd yn oed ysgolion poblogaidd a llawn.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Mon
- Gogledd Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-828  
Ein cyf/Our ref KW/05650/19

Janet Finch-Saunders AC  
Aelod Cynulliad dros Aberconwy  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Caerdydd  
CF99 1NA

[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

29 Mawrth 2019

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth 2019 yn gofyn am ymateb i'r cynnig y dylai fod llwybr uniongyrchol i lywodraethwyr ysgol apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ac i mi roi manylion unrhyw ystyriaeth a roddir i broses apelio wrth adolygu'r Cod.

Fe wnaeth y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ddiwygio'r broses statudol ar gyfer trefniadaeth ysgolion er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn lleol lle bynnag y bo modd. Nid yw'r Ddeddf yn cynnig llwybr uniongyrchol i lywodraethwyr ysgol apelio yn erbyn y penderfyniadau. Dim ond drwy'r llys y gall penderfyniadau o'r fath gael eu herio. Cyn i'r Ddeddf ddod i rym roedd y darpariaethau'n destun ymgynghoriad ffurfiol, craffu gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac yna ddadl a chymeradwyaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r trefniadau wedi'u sefydlu'n dda ac nid oes bwriad i'w newid ar hyn o bryd.

Yn ôl y Ddeddf mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'r Cod yn gosod gofynion ar y rhai hynny sy'n cyflwyno cynigion ac ar y rhai hynny sy'n gyfrifol am benderfynu yn eu cylch a'u cymeradwyo ac mae hefyd yn cynnig canllawiau statudol y mae'n rhaid iddynt eu hystyried.

Mae'r Cod yn gosod safon uchel ar gyfer y broses ymgynghori gan roi cyfle i bawb, gan gynnwys corff llywodraethu'r ysgol, leisio eu barn a chan roi sicrwydd yr ystyrir y sylwadau hynny yn ystod y broses ymgynghori a'r cyfnod gwrthwynebu fydd yn dilyn. Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi adroddiadau ymgynghori ac adroddiadau gwrthwynebu sy'n ateb unrhyw bryderon a godir ac ymateb iddynt. Gall methu â chydymffurfio â'r Cod arwain at gyflwyno cwyn i Weinidogion Cymru neu'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni chafodd cyflwyno proses apeliadau ei ystyried yn rhan o'r adolygiad diweddar o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Byddai newid o'r fath y tu allan i gwmpas y Cod gan y byddai'n gofyn am newid Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod angen newid o'r fath.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AC/AM**  
Y Gweinidog Addysg

## Annwyl Gyfeillion

Diolch am y cyfle, ar ran Grŵp Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith, i wneud rhai sylwadau ar gynnwys y llythyr ymateb yr ydych chi wedi ei dderbyn gan y Gweinidog Addysg. Gobeithio y gall y wybodaeth hon fod o ddefnydd i chwi wrth ystyried ymateb y llywodraeth i'r ddeiseb ac i'ch awgrym chwi y dylid ystyried sefydlu proses apelïadau'n erbyn penderfyniadau i gau ysgolion. Byddem yn barod iawn ar unrhyw adeg i gynnig i chwi tystiolaeth lafar ac ateb cwestiynau.

Yn gyntaf, hoffem fynegi ein gwerthfawrogiad fod y Gweinidog wedi cymryd o ddifri yr achos a fu'n sail i'r galwad cyffredinol yn y ddeiseb trwy ofyn i'w swyddogion gynnal ymchwiliad i'r cŵyn na wnaeth Cyngor Ynys Môn gadw at ofynion y Côt Trefniadaeth Ysgolion wrth benderfynu cau Ysgol Gymunedol Bodffordd. Fe allsai'r Gweinidog fod wedi cuddio tu ôl i ofyniad i ni gwyno'n gyntaf at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac, erbyn fod dyfarnu cŵyn felly, buasai'r weithred o gau Ysgol Bodffordd wedi bod yn fait accompli. Mae'r Gweinidog yn haeddu clod am gymryd cyfrifoldeb am y mater hwn.

Yn ail, derbyniwn yn llwyr osodiad y Pwyllgor Deisebion nad mater uniongyrchol i'r Pwyllgor yw tynged ac amgylchiadau penodol un ysgol. Yn hytrach, cyfeiriwn at y broses ymgynghorol yng nghydestun yr ysgol arbennig hon i ddangos y pwynt mwy cyffredinol (sydd YN destun i'r ddeiseb) nad yw'r drefn bresennol yn gweithio'n foddhaol. Anghytunwn yn llwyr ag un frawddeg benodol yn llythyr y Gweinidog atoch, sef

"Mae'r trefniadau wedi'u sefydlu'n dda ac nid oes bwriad i'w newid ar hyn o bryd."

Mae gweithrediad y broses ymgynghorol yn achos Ysgol Bodffordd yn dangos fod y drefn bresennol o ran disgwyl fod Awdurdodau Lleol yn glynu wrth ganllawiau'r Côt Trefniadaeth Ysgolion yn gallu cael ei hanwybyddu neu, fan leiaf, fod "meddylfryd ticflwch" yn golygu nad ydynt yn cymryd eu dyletswyddau statudol dan y Côt o ddifri. Gan nad oes trefn apelio'n erbyn penderfyniadau, mae'n amlwg fod swyddogion lleol yn credu y gallant ddefnyddio'r un hen ystrydebion (mewn ymarferiad "cut & paste") ym mhob achos. Gobeithiwn y bydd y Gweinidog yn yr achos hwn yn cefnogi'n cŵyn ac y bydd hyn yn golygu newid diwylliant ymhlith swyddogion lleol.

Derbyniwn fodd bynnag nad lle eich pwyllgor chwi yw ceisio (ail)ddyfarnu ar achos ysgol unigol, dim ond ystyried a oes tystiolaeth yma fod angen i lywodraeth weithredu i ddiwygio'r drefn er mwyn sicrhau fod Awdurdodau Lleol yn gorfod cadw at ofynion y Côt Trefniadaeth Ysgolion. I'r perwyl hwn, atodaf destun llawn ein cŵyn at y Gweinidog Addysg sy'n dangos fod yr Awdurdod Lleol hwn wedi anwybyddu dyletswyddau penodol iawn o dan y Côt, a'i bod felly'n agored dan y drefn bresennol i unrhyw Awdurdod Lleol beidio â chymryd eu dyletswyddau o ddifri gan nad oes sancsiynau uniongyrchol ar gael i'w gweithredu.

O grynhoi seiliau ein cŵyn, mynnwn fod Cyngor Ynys Môn wedi peisio â chymryd o ddifri ei ddyletswyddau dan yr argraffiad (2013) o'r Côt a oedd yn llywodraethol ar y pryd trwy -

1) Peidio â gwerthuso'n llawn opsiynau amgen wrth ystyried y cam difrifol o gau ysgol a oedd yn llawn, a hynny'n groes i ddymuniadau llywodraethwyr, rhieni a'r gymuned leol. Yn eu hymateb i'n cŵyn, cred y Cyngor eu bod wedi cyflawni eu dyletswydd trwy grybwyll yn gyffredinol geiriau fel "ffederasiwn" mewn dogfennau blaenorol. Dyma "feddylfryd ticflwch". Mynnwn mai bwriad y rhai a luniodd y Ddeddf a'r Côt dilynol oedd y dylai Awdurdodau Lleol werthuso'n fanwl manteision ac anfanteision modelau penodol o ffederasiynau ac ysgolion aml-safle a allent fod yn hyfyw yn yr achos dan sylw fel opsiwn amgen i gau ysgol. Ni bu unrhyw ymdrech o gwbl i wneud hyn.



2) Peidio ag ystyried yn gydwybodol atebion amgen a gynigwyd mewn ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus (gofyniad arall yn ôl y Côt). Cynigiodd Cymdeithas yr Iaith fodel penodol o "Ffederasiwn Cefni" - ffederasiwn rhwng yr ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd yn yr union ardal a oeddent yn ei "bwydo". Dadleuon ni y gellid creu uned addysgol gref, rhoi profiadau addysgol eang i ddisgyblion, a sicrhau llawer o arbedion ariannol o resymoli gweinyddiaeth, arweinyddiaeth ac adnoddau dynol a materol mewn modd felly. Nid yn unig na wnaeth swyddogion Ynys Môn werthuso'r model hwn, ond wnaethon nhw ddim hyd yn oed crybwyll y mater yn eu hadroddiad ar ymatebion i'r Pwyllgor Gwaith a gymerodd y penderfyniad i gyhoeddi Hysbysiad Statudol i gau Ysgol Bodffordd.

3) Peidio â chynnal asesiad ystyrion o effaith cau'r ysgol ar y gymuned leol - dyletswydd arall yn ôl y Côt. Cynhyrchwyd pwt o adroddiad generig a phasiodd y Pwyllgor Gwaith gynnig y byddent yn trefnu cyfarfod â'r gymuned leol i weld a ellid cadw rywsut yr unig ganolfan gymunedol sydd yn rhan hanfodol o adeiladau'r ysgol. Nid yw penderfyniad i gynnal cyfarfod yn gyfystyr ag asesu effaith cau ysgol ar y gymuned leol.. Mae gwir berygl fod gofynion y Côt Trefniadaeth Ysgolion yn mynd yn destun gwawd.

4) Ymateb rhywrai wrth gwrs yw fod y penderfyniad hwn wedi cael ei gymryd dan ofynion yr hen (argraffiad 2013) o'r Côt Trefniadaeth Ysgolion, a bod argraffiad newydd (tachwedd 1af 2018) y Côt yn sefydlu trefn newydd. Gwrthodwn y syniad hwn. Mae'r 3 diffyg uchod yn fethiant i gydymffurfio â'r hen Gôt a oedd yn weithredol ar y pryd, ac os na bu raid i Gyngor gadw at yr hen gôt , pam y dylid credu y byddent chwaith yn cadw at y Côt newydd ? Yn wir y mae'r un Awdurdod Lleol (Cyngor Ynys Môn) wedi torri prif ofyniad y Côt newydd o fewn wythnos i'w gyhoeddi. Prif ddatblygiad y Côt newydd (a ddaeth i rym ar 1/11/18) yw y dylai fod "rhagdyb o blaid cynnal ysgolion gwledig". Ond o fewn dyddiau, yr oedd Cyngor Ynys Môn wedi cyhoeddi adroddiad cychwynnol ar y posibiliad o ad-drefnu ysgolion yn ardal Amlwch, a'r adroddiad eto'n son am gau ysgolion a chanoli addysg fel polisi llwyddiannus yn y sir ! Does dim unrhyw newid na rhagdyb o blaid chwilio pob dull posibl o gynnal ysgolion gwledig).

Ein dadl yw fod y dystiolaeth yn dangos yn glir nad yw'r drefn bresennol yn gweithio, a bod cyfiawnhad i ofyniad y ddeiseb y dylai'r llywodraeth gymryd camau i sicrhau fod y Côt Trefniadaeth Ysgolion yn cael ei weithredu. Pa gamau felly fyddent yn agored i'r Gweinidog Addysg eu cymryd ?

Derbyniwn na all y Gweinidog (yn gyfreithiol) sefydlu trefn apelio heb newid mewn deddfwriaeth. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd gennym, byddem yn argymhell fod llunio deddfwriaeth newydd, ond gall hyn gymryd peth amser e.e. efallai yr hoffai'r Gweinidog ysytired yr un pryd sefydlu Byrddau Llywodraethol integredig fesul dalgylch ysgol uwchradd er mwyn datblygu csyniad ffederasiynau'n bellach - syniad a gynigwyd gan y cyn-AC Gareth Jones. Yr ydym hefyd yn gyffredinol o blaid trefn sy'n golygu fod prif benderfyniadau'n cael eu cymryd yn lleol heb fod llywodraeth ganolog yn ailedrych yn ddyblygus ar bob polisi. Ond rhai i Awdurdodau Lleol weithredu tu fewn i fframwaith cyfiawn o brosesau. Argymellwn felly y dylid cyflwyno deddfwriaeth yn y dyfodol i sefydlu apêl yn unig ar sail methiant i ymgymryd yn gydwybodol â phroses, yn hytrach nag ailedrych ar benderfyniadau unigol eu hunain. Byddai sefydlu tren apelio o'r fath yn llawer mwy eglur a thryloyw na gorfod dibynnu ar gysyniad haniaethol fel cwyno fod Awdurdod Lleol "yn cyflawni methiant addysgol sylfaenol" (Deddf 2013).

Yn y cyfamser, anogwn y Gweinidog i anfon arwydd clir at Awdurdodau Lleol fod yn rhaid iddynt gadw at ofynion y Côt Trefniadaeth Ysgolion trwy gadarnhau cwynion lle bo sail gadarn i gwynion o'r fath a thrwy ymyrryd yn ddigon buan yn y broses ymgynghorol i atgoffa Awdurdodau Lleol o'u cyfrifoldebau.

Yn gywir

Ffred Ffransis

ar ran Grŵp Ymgyrch Addysg, Cymdeithas yr Iaith

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## **Cŵyn wrth y Gweinidog Addysg na wnaeth Cyngor Ynys Môn gadw at ei ddyletswyddau statudol (yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion 2013) wrth gynnal ymgynghoriad ar ddyfodol Ysgol Gymunedol Bodffordd ac wrth gymryd penderfyniad i gau'r ysgol hon. – 28.2.19**

Annwyl Weinidog

Ysgrifennaf atoch ar ran Cymdeithas yr Iaith i gyflwyni i chwi gŵyn ffurfiol na wnaeth Cyngor Ynys Môn gydymffurfio â gofynion statudol y Côt Trefniadaeth Ysgolion (2013) a oedd yn weithredol ar y pryd (Chwefror-Ebrill 2018) pryd y cynhaliwyd ymgynghoriad am ddyfodol Ysgol Gymunedol Bodffordd nac wrth gymryd y penderfyniad canlynol i gau'r ysgol hon.

Ni wnaeth y Cyngor werthuso'r opsiynau amgen i gau'r ysgol mewn modd cydwybodol, nag ystyried mewn unrhyw ffordd ystyrion effaith cau'r ysgol ar y gymuned, ac nid adroddwyd yn gywir i'r Pwyllgor Gwaith am y cynigion a ddaethant i'r amlwg yn ystod y cyfnod ymgynghorol. Fel corf a ymatebodd i'r ddogfen ymgynghorol statudol, fe wnes i ar ran Grŵp Ymgyrch Addysg Cymdeithas yr Iaith gyflwyno i'r Cyngor ar 7.1.19 gŵyn trwy eu proses mewnol i'r perwyl hwn, a chofrestrwyd y cŵyn fel rhif F393. Atodaf ateb y Cyngor i'm cŵyn. Eu hamddiffyniad yw eu bod wedi cyfeirio at y gair "ffedereiddio" dair blynedd ynghynt – heb werthuso unrhyw opsiynau o e=ffedereiddio mewn perthynas ag Ysgol Bodffordd. Yr un fath, credant fod penderfynu cynnal trafodaethau gyda'r gymuned leol yn eu hesgusodi rhag dadansoddi effaith cau'r ysgol ar y gymuned - er bod yr unig ganolfan gymunedol yn rhan o adeiladau'r ysgol ei hun. Nid yw'r Cyngor yn gwadu na wnaethant hyd yn oed gyfeirio yn eu hadroddiad ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad at ein hopsiwn amgen o greu ffederasiwn rhang yr ysgol uwchradd a'r cysgolion cynradd cylchynnol. Mae'r Cyngor yn trine u dyletswyddau statudol o dan y Côt Trefniadaeth Ysgolion gyda dirmyg ac mewn modd tocenistaidd ar y gorau. Mae hyn yn dwyn anfri ar brosesau ymgynghori a democrataidd lleol, ac yn allgau pobl leol o'u rhan briodol mewn penderfyniadau addysgiadol allweddol. Mae cynnal ymlyniad rhieni =, llywodraethwyr a'r gymuned leol wrth y drefn addysg o'r bwys mwyaf, a gofynnwn i chwi ddyfarnu felly fod y Cyngor wedi methu mewn swyddogaeth addysgol bwysig, a bod sail felly i chwi ymyrryd.

Awgrymwn yn barchus y daw'r Côt Trefniadaeth Ysgolion yn ddiystyr (yn cynnwys argraffiad newydd 2018) os caniateir i Awdurdodau Lleol anwybyddu ei ofynion. Gofynnwn felly i chwi ddefnyddio'ch grym cyffredinol a sefydlwyd yn Neddf Addysg 2013 i ymyrryd os bydd Awdurdod Lleol yn methu mewn dyletswydd addysgol statudol. Mae'r penderfyniad i gau'r ysgol ac anwybyddu barn pobl leol a methu cydymffurfio â gofynion y Côt Trefniadaeth Ysgolion yn fethiant addysgol digon difrifol i'ch g alluogi i ymyrryd o dan y grym cyffredinol sydd ganddoch o dan y ddeddf i ymyrryd pan fo methiant addysgol difrifol. Gyda'r grym hwn, gellwch ymyrryd trwy ddefnyddio (cymal 5) eich "grym cyffredinol i gyfarwyddo'r Awdurdod Lleol" naill ai (1) i dynnu'n ôl eu Hysbysiad i gau Ysgol Gynradd Bodffordd a chaniatau i rieni'r dewis o anfon eu plant i'r ysgol newydd yn Llangefni neu eu cadw yn Ysgol Bodffordd neu (2) o leiaf fod yr Awdurdod yn ailagor yr ymgynghoriad statudol gan gadw y tro hwn at ofynion y Côt Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r ail lwybr yn creu ansicrwydd ac oediad wrth adeiladu'r ysgol newydd y mae ei angen ar dref Llangefni, ac felly credwn fod y llwybr cyntaf yn well.

### **MANYLION EIN CŴYN**

Dyma felly ein cŵyn am brif fethiannau'r Cyngor i gadw at y Côt Trefniadaeth Ysgolion wrth benderfynu cau Ysgol Bodffordd a pham bod ymateb y Cyngor yn gwbl annigonol. Methodd y Cyngor â dilyn y canllawiau statudol oedd mewn grym ar y pryd mewn dwy ffordd hanfodol bwysig (1) Diffyg gwerthusiad ystyrion o opsiynau eraill heblaw am gau'r ysgol, a (2) diffyg asesiad ystyrion

o'r effaith ar y gymuned o gau'r ysgol. Yr ydym wedi anfon cŵyn ffurfiol at yr Awdurdod am y ddau fethiant sylfaenol hyn, ac maen nhw wedi ymateb. Eu hymateb yn y bôn yw eu bod wedi cadw at y canllawiau trwy (1) enwi opsiynau amgen heb eu gwerthuso a (2) ddatgan y byddent yn trafod gyda'r gymuned leol, heb wneud asesiad ystyrlon o effaith cau'r ysgol. Byddai derbyn yr ymagwedd hwn yn gwneud y Côt yn destun gwawd. Dyma'r manylion -

1) **Diffyg Gwerthusiad o'r opsiynau amgen heblaw am gau Ysgol Bodffordd** - Mae Adran 1.7 o'r Côt Trefniadaeth Ysgolion 2013 (006/2013) yn dweud fod yn rhaid "rhoi sylw arbennig i (1) a ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu'r rhesymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn", (2) "a ellid ystyried opsiynau amgen heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill (gan ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgolion), meu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn amgen yn lle cau'r ysgol." Eto mae Adran 3.2 o'r un Côt yn datgan fod yn "rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn y ddogfen ymgynghori *manylion* unrhyw opsiynau amgen sydd wedi'u hystyried yn lle cau'r ysgol, a'r rhesymau dros beidio â bwrw ati â'r rhain". Yn olaf, mae Adran 3.1 o'r Côt yn datgan "Mae'r gyfraith achosion wedi pennu y dylai'r broses ymgynghori ....(3) sicrhau y caiff yr hyn sy'n deillio o'r ymgynghoriad ei ystyried mewn ffordd gydwybodol pan wneir y penderfyniad yn y pen draw". Methodd y Cyngor â chyflawni ei ddyletswydd cyfreithiol yn ôl y Côt ar y tri chyfri hyn. Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgynghori Statudol ar gyfer yr Ymgynghoriad am ddyfodol Ysgol Bodffordd (ac eraill yn ardal Llangefni) a redodd o 20 Chwefror hyd 3 Ebrill 2018. Penderfynwyd ymgynghori'n statudol ar ddau opsiwn (A & B) a'r ddau opsiwn yn golygu cau Ysgol Bodffordd. Dyma'r ymgynghoriad statudol a arweiniodd at y penderfyniad a chyhoeddi Hysbysiad Statudol i gau Ysgol Bodffordd, ac nid oes ynddi ymdriniaeth o gwbl ag opsiynau eraill - heb sôn am "fanylion" fel y mae'r Côt yn ei fynnu. Yn eu hymateb i'n cŵyn, dywed y Cyngor eu bod wedi cyfeirio at bosibiliad ffedereiddio mewn cyfnod ymgynghori anstatudol blaenorol yn 2016. Mae'r ddogfen yn wir yn cyfeirio at "21 o syniadau" a gododd mewn ymgynghori anstatudol yn 2016 fel rhan o'r cefndir. Ond yr unig gyfeiriad at "ffedereiddio" yw un cymal lle dywedir fod rhywun wedi codi syniad o ffedereiddio ysgol newydd (hynny yw WEDI CAU Ysgol Bodffordd) gydag Ysgol arall. Dywed ymateb y Cyngor i'n cŵyn fod dogfen ymgynghori anstatudol flaenorol o 2016 am ardal Llangefni wedi cyfeirio at "41 opsiwn" a saith ohonynt yn berthnasol i Ysgol Bodffordd a'r ail oedd "Ffedereiddio gydag ysgol(ion) eraill". Ar y gorau, enwi pob bosibiliad damcaniaethol sydd yma - does dim gwerthusiad o gwbl o fanteision ac anfanteision creu ffederasiwn nag ystyriaeth o ddifri, ac mae hyn yn gwneud y gofynion statudol yn destun gwawd. Yn eu hymateb pellach i'n cŵyn, dywed Cyngor Ynys Môn nad yw ffedereiddio "yn newid y sefyllfa o ran ol-groniad cynnal a chadw a chyflwr ysgol". Wrth gwrs nad yw e ddim ! Mecanwaith i resymoli defnydd adnoddau a gwella addysg yw ffedereiddio, nid i wella adeiladau ! Os dyna'r llinyn mesur, ni byddid byth yn ystyried ffedereiddio fel opsiwn amgen, a byddai canllawiau'r Côt wedyn yn ddiystyr. Nid dyna fwriad Llywodraeth Cymru ar y pryd. Ar ben hyn, yn ein hymateb yn y cyfnod ymgynghori statudol, cododd Cymdeithas yr Iaith gynllun amgen o greu Ffederasiwn rhwng Ysgol Uwchradd Llangefni a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo fel ateb amgen, gan greu uned addysgol gref a rhesymoli'r defnydd o adnoddau. Yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor Gwaith ar ganlyniadau'r ymgynghori, wnaeth y swyddogion ddim hyd yn oed crybwyll y cynllun hwn "a ddeilliodd o'r ymgynghoriad" (Adran 3.1 uchod) heb sôn am "ei ystyried mewn ffordd gydwybodol" a'i gwerthuso. Mewn gair, ni wnaeth y Cyngor ystyried manylion yr opsiynau amgen ac aethpwyd ymlaen i gymryd y penderfyniad difrifol i gau ysgol yn groes i ddymuniaid rhieni a llywodraethwyr heb ystyried hyn.

(2) **Diffyg ystyriaeth o effaith cau'r ysgol ar y gymuned.** - Trown yn ôl at Côt Trefniadaeth Ysgolion 2013, a dywed Adran 1.7 eto "Mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd penodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned" (**Ni allai fod disgrifiad gwell o Ysgol Bodffordd, gan fod y Ganolfan Gymunedol yn rhan o adeiladau'r ysgol ei hun**). Mae Adran 1.7 yn parhau y dylid "dangos fod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr

ysgol ar hyn o bryd", ac ailadroddir hyn yn isbwynt (4) o'r adran. Mae Adran 3.2 yn datgan hefyd fod yn rhaid i'r Ddogfen Ymgynghorol (ymhlith pethau eraill) drin "effaith y cynigion ar y gymuned leol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig..." Nid oes yn y ddogfen ymgynghori ei hun unrhyw astudiaeth o effaith cau'r ysgol (a pheryglu'r unig ganolfan gymunedol yn y pentre) ar y gymuned, ond mae Atodiad 5 yn cyfeirio at "ddefnydd cymunedol" o adeilad yr ysgol newydd yn Llangefni. Yr awgrym amlwg yw y dylai triogolion Bodffordd drosglwyddo eu gweithgareddau cymunedol i Llangefni !. Yr un pryd, cyhoeddwyd dogfen (i'w gweld yma <https://www.anglesey.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cyngor/Ymgynghoriadau/2018/Llangefni/Asesiadau-Effaith.pdf>) o "Asesiadau Effaith" gweithredu'r cynlluniau i gau Ysgol Bodffordd. Bu 4 gwahanol asesiad yn yr un papur o 4 tudalen. Yr adran olaf (5) yw'r asesiad effaith ar y gymuned. Yn dilyn datganiad "methodoleg" sy'n datgan fod y Cyngor yn ystyried yn ofalus effaith cau ysgol ar gymuned, eir ymlaen i ddisgrifio lleoliadau daearyddol yr ysgolion, niferoedd y disgyblion a chyfeiriadau cwta at ymgynghori anstatudol blaenorol - ond dim cyfeiriad o gwbl at y ffaith y byddai cau Ysgol Bodffordd yn golygu nad oedd sicrwydd am unig ganolfan gymunedol y pentre sy'n rhan o adeiladau'r ysgol. . Mewn gair nid oes unrhyw ymgais at asesiad difrifol o effaith cau'r ysgol ar y gymuned. Yn eu hymateb i'n cŵyn, dywed y Cyngor fod y Pwyllgor Gwaith, wrth benderfynu cau'r ysgol, hefyd wedi penderfynu "bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Chyngor Cymuned Bodffordd a chyda chymuned Bodffordd er mwyn diogelu a chadw'r neuadd gymuned". Yn lle astudiaeth effaith y mae felly drafodaethau yn unig gyda'r gymuned leol i weld a ellir cael hyd i ryw ffordd o arbed y ganolfan gymunedol. Hyd yma, ni ddaeth llwyddiant ac mae'r Cyngor yn apelio i unrhyw un sydd ag adnoddau i gymryd drosodd yr adeiladau. Dyw trafodaeth ddim yn sybstitiwt am asesu'r holl niwed a wneir i gymuned Gymraeg wrth gau'r ysgol, ac felly methwyd â chydymffurfio â'r gofynion statudol eto.

I grynhoi felly, ni allai fod achos cliriach o Awdurdod yn methu yn ei ddyletswydd addysgol a democrataidd i gadw at ofynion y Côd Trefniadaeth. Os na all Gweinidog ymyrryd mewn achos fel hwn, go brin fod unrhyw bwrpas o gwbl gyhoeddi canllawiau y gall Awdurdodau Lleol eu hanwybyddu. Yn wir, mae'r un Awdurdod Lleol - Cyngor Ynys Môn - wedi torri'r Côt newydd o fewn dau ddiwrnod i'w gyhoeddi ar Dachwedd 1af 2018. Mae'r argraffiad newydd o'r Côt yn sefydlu rhagdyb o blaid ysgolion gwledig. Ond mae dogfen gychwynol a gyhoeddwyd ddeuddydd wedyn gan y Cyngor ar addysg yn ardal Amlwch yn cyfeirio'n syth at gau ysgolion gwledig sy'n amlygu nad oes unrhyw newid agwedd o gwbl, ac yn sicr dim rhagdyb o blaid ysgolion gwledig. Dyma brawf ar y drefn bresennol.

Nid oes unrhyw ffordd ymarferol o ddilyn y mater ymhellach o ran prosesau mewnol y Cyngor. Ar ddiwedd eu hymateb i'n cŵyn (lle mae'r cyngor yn gwrthod unrhyw awgrym nad ydyn nhw wedi cyflawni eu dyletswyddau, ac yn wiry n awgrymu mai fel hyn y byddant yn gweithredu yn y dyfodol), dywed y Cyngor "Os nad ydych yn hapus gydag unrhyw agwedd o'r ymateb yma i'ch cais am wybodaeth a/neu'r penderfyniad i atal gwybodaeth, mae'n bosibl i chi ofyn am adolygiad mewnol. Gyrrwch eich cais ymlaen i'r Swyddog Gofal Cwsmer..." ac wedyn at y Comisiynydd Gwybodaeth yn Lloegr. NID cais am ryddhau gwybodaeth sydd yma, ond cŵyn na wnaeth y Cyngor ymgadw at eu dyletswyddau cyfreithiol. Mae hyd yn oed roi'r ymateb hwn ar ddiwedd y llythyr yn arwydd o feddylfrys "Cut & paste" y Cyngor – gan ddefnyddio brawddeg safonol o ran ateb y cwynion arferol a dderbyniant am geisiadau am wybodaeth yn hytrach nag ateb ein hunion cŵyn ni. Yr un modd, cred y Cyngor y gall ymgadw at y Côt Trefniadaeth Ysgolion trwy weithredu tocenistaidd yn unig. Gofynnwn i chwi fel Gweinidog i ymyrryd o dan eich grymoedd cyffredinol er mwyn diogelu hygyrdd y Côt Trefniadaeth Ysgolion a'r cymalau ynddo sydd at bwrpas sicrhau fod cyfranogiad gan rieni, llywodraethwyr ac eraill mewn penderfyniadau addysgol o bwys.

Yn gywir

Ffred Ffransis, ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3.10

**P-05-860 Dylid gwneud Gwersi Sgiliau Bywyd yn Orfodol ar y cwricwlwm**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Emily Jones, wedi iddi gasglu 121 o lofnodion ar-lein a 165 ar bapur, sef cyfanswm o 286 o lofnodion.

## **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod gwersi sgiliau bywyd yn orfodol ar y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd drwy Gymru ac y caiff y cynnwys ei adolygu bob blwyddyn gan fwrdd o bobl ifanc etholedig.

## **Gwybodaeth ychwanegol**

Byddai cwricwlwm sgiliau bywyd yn cynnwys pynciau fel: cyllid, rhyw a pherthnasoedd, gwleidyddiaeth a sgiliau byw sylfaenol. Mae Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau Plant yn dweud bod gan blant yr hawl i addysg. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol, fodd bynnag, yn methu â darparu'r sgiliau bywyd y mae eu hangen arnom.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pontypridd
- Canol De Cymru

## **P-05-861 Gwneud addysg wleidyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm cenedlaethol newydd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Kaiesha Ceryn Page, ar ôl casglu 117 o lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb**

Dylai addysg roi'r sgiliau a'r offer i bobl ifanc a fydd yn sicrhau eu bod yn dod yn ddinasyddion gwerthfawr sy'n ymgysylltu â'r wlad.

Er gwaethaf y datblygiadau mawr sydd wedi digwydd yn sgil y cyfryngau cymdeithasol a chylchoedd newyddion cyflym, mae pobl ifanc yn aml yn ystyried gwleidyddiaeth yn bwnc tabŵ, gan ei weld fel mater nad ydyw i'w tebyg hwy.

Rydym yn credu y dylai pobl ifanc adael addysg gyda dealltwriaeth gynhwysfawr o sefydliadau gwleidyddol yn y Deyrnas Unedig. Argymhellodd adroddiad y Gymdeithas Diwygio Etholiadol y dylid addysgu pedair agwedd allweddol mewn ysgolion – y pleidiau, democratiaeth, rôl sefydliadau ac ymgyrchu.

Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle unigryw i arwain y ffordd ar y mater hwn gan ei bod wrthi'n datblygu ei chwricwlwm cenedlaethol cyntaf. Fel un o'i bedwar cysyniad allweddol, nod y cwricwlwm newydd yw creu dinasyddion "moesegol a gwybodus". Felly mae rheswm yn dweud y dylai addysg wleidyddol fod yn rhan hanfodol o hyn.

Mae datblygiad y cwricwlwm hwn yn gyfle unigryw i Lywodraeth Cymru chwyldroi'r ffordd y mae'n addysgu ei phobl ifanc, gan greu'r dinasyddion a fydd yn arweinwyr y dyfodol.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Rhondda
- Canol De Cymru

**P-05-861 Make political education a compulsory element of the new national curriculum, Correspondence – Petitioner to Committee, 04.04.19**

Dear David John Rowlands AM,

**Re – Reply to response to petition - P-05-861**

I have been asked to provide my comments in relation to the Ministers recent response to my active petition. In support of the responses that I am about to give, I have included a number of relevant images.

However, before I offer my thoughts on this matter, I want to start by thanking the petitions committee for their support and efforts on this subject. I am glad to see that this is an issue that is now being discussed. I would particularly like to thank Leanne Wood AM, who clearly understates the concerns and urgency of the cause.

I will now seek to address the two key issues that have been highlighted in the Minister's response. However, I am also available for further discussion, should that be deemed appropriate.

**Date for the planned introduction of life lessons and political education**

As the Welsh assembly has recently begun debating the *Senedd and Elections (Wales) bill*, with the intention of lowering the voting ages to 16 in time for the 2021 election, it appears to me that developments are progressing in the wrong order.

I fully support the voting age being lowered to 16 and do believe there are vast benefits that will come from this. However, this is a measure that should be taken in conjunction with a political education and not something that should be done without it. In my opinion, neglecting education risks alienating young people and would fail to 'empower' young people as the proposed bill suggests.

Yet there is also a risk that there could be a much greater and serious impact.

We are well aware that there is much misinformation on the internet, and due to the digital nature of their lives, this is therefore bound to particularly affect young people. If we are to expect our young people to fully engage and enjoy this crucial new electoral development, then we have to give them the tools to understand, engage and criticise the politics that they are to be part of. Otherwise, we risk them being targeted by potentially dangerous political organisations. Without such education, they will not have the basic skills to criticise, assess or evaluate the information that they are being given.

In my opinion, this cannot be underestimated and poses a huge risk to any benefits that the new proposed legislation might bring.

Whilst I do appreciate that the new curriculum needs to be rolled out in a timely and affordable manner, I fully support the committee's concerns that this needs to happen much faster.

Perhaps there is therefore an interim solution that the minister could offer in order to temporarily close this gulf. In my opinion, schools should be urged and encouraged to give basic level lessons BEFORE the new changes take effect.

However, to take the burden off teachers, perhaps there is even the possibility of inviting outside organisations into schools to do the presenting for them. There are a few apolitical organisations that would offer such services – Politics4Youth being one of them.

There therefore appears to be ways around this issue and I believe that these should be adequately pursued.

### **Explicitly on the curriculum**

I fully understand that the curriculum should not be a series of prescriptive tick boxes that teachers have to rigorously abide by. However, that said, there is obviously scope for key subject to be highlighted, as is the case with the traditional compulsory subjects.

In my view, political education – and life lessons – have to be added to this category of key subjects. Whilst it would be hoped that schools would automatically deem it important, considering the other expectations that they face, it is little wonder that it is often forgotten.

It is therefore for the Welsh government to ensure that political education and life lessons are now deemed to be important. In my view, current legislation and the apparent new curriculum do not sufficiently elevate the importance of these subjects and that is a concern.

In addition to this, the Minister's comments leave me concerned that she is perhaps underestimating the scale of the issue.

Whilst schools might be 'encouraged' to offer such lessons, in practice this is not actually what happens at present.

I have briefly spoken to some of my school age relatives and these are the comments that were made.

Hey lovely. Can I ask a quick question 😊 I am currently working on something for my petition and I'm just looking to gather some information on whether people are being taught about politics in school? Have you had any lessons about it at all? 😊

15:03

No, nothing really, no lessons or anything xx

Hey lovely. Can I ask a quick question 😊 I am currently working on something for my petition and I'm just looking to gather some information on whether people are being taught about politics in school? Have you had any lessons about it at all? 😊

10:23

15:02

No not really xx

In addition to this, I asked my Twitter followers what they experience was and again, the response was pretty unanimous.



Working on something for my petition, can you answer this brief question for me, please? 😊

Did you receive any political education in school?



If they don't teach it now, then I don't see how further 'encouraging' them to do so will change anything. It therefore stands to reason, that life lessons and political education should be made a compulsory aspect of the curriculum.

Until political education is given the importance and emphasis that it deserves, young people will never be taught enough about the subject. I believe, that this will worsen the current democratic deficit, affecting people from poorer backgrounds and leaving them further alienated from the politics in Wales.

I hope that you will seriously consider my comments in response to this issue and I hope to see changes made.

Kind regards,

Kaiesha Ceryn Page

### **P-05-806 Rydym yn galw am roi rhif Tystysgrif Mynediad i bob safle busnes yng Nghymru, yn debyg i'r Dystysgrif Hylendid Bwyd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Bridgend Coalition of Disabled People, ar ôl casglu 3,040 o lofnodion – 649 ar bapur a 2,391 ar-lein.

#### **Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno "Tystysgrif Mynediad" yn dangos rhifau o ddim i bump yn yr un modd â'r Dystysgrif Hylendid Bwyd. Dylid asesu pob adeilad a ddefnyddir gan y cyhoedd fel siopau, siopau bwyd, clybiau chwaraeon, tafarndai a swyddfeydd, yn ogystal â gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus, yn ôl pa mor hygyrch pa mor hygyrch ydynt i gadeiriau olwyn, yn ogystal â pha mor hawdd ydynt i rywun sydd â nam ar y synhwyrau neu anabledd dysgu eu defnyddio.

Rydym eisiau i bob safle busnes gael rhif i'w arddangos i ddangos sut mae ei adeiladau yn ystyried pobl anabl. Rydym yn gobeithio y bydd y rheini sy'n cael sgoriau uchel yn darbwylllo safleoedd cyfagos i wella mynediad ac ennill sgôr uchel eu hunain.

Pan gyflwynwyd Tystysgrifau Hylendid Bwyd gyntaf yng Nghymru, nid oeddent yn orfodol, ond fe ddaethant yn orfodol yn ddiweddarach. Ers cyflwyno'r Dystysgrif Hylendid Bwyd, rydym yn credu bod safonau bwyd wedi gwella'n helaeth ac mae safleoedd sydd â rhif uchel yn arddangos eu tystysgrifau â balchder. Rydym yn credu y bydd safleoedd yn gwneud mwy o ymdrech i wella mynediad a gwasanaethau i'r gymuned anabl pe bai Tystysgrif debyg ar gyfer mynediad yn cael ei chyflwyno.

Rydym yn credu y bydd cyflwyno tystysgrif o'r fath yn gwella'n aruthrol y gwasanaethau i siopwyr anabl a'r rheini sydd eisiau mynd allan am ddiod neu bryd o fwyd, neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, sef cyfleusterau y mae'r rhan fwyaf yn eu cymryd yn ganiataol.

Er mwyn ennill sgôr o bump, yn ogystal â bod yn hygyrch i gadeiriau olwyn, bydd angen i safleoedd fod yn gwbl gynhwysol i'r rheini â nam ar eu golwg a'u clyw, ac o bosibl bod gan staff ddealltwriaeth o'r rheini ag anabledd dysgu.

Mae bwyty â bwydlen braille neu staff sy'n gallu defnyddio iaith arwyddion yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr a chynnig profiad llawer haws a llai o straen i rywun wrth wneud y pethau bob dydd y mae'r rhan fwyaf yn eu cymryd yn ganiataol.

Un syniad posibl, yn ogystal â chael sgôr dim i bump, fyddai cael symbolau ychwanegol o dan hyn i ddangos a oes gan safle fynediad llawn i gadeiriau olwyn, toiledau hygyrch, gwybodaeth mewn braille neu staff sy'n gallu defnyddio iaith arwyddion, ac a yw'n ystyried awtistiaeth.

Rydym yn teimlo y byddai hyn yn arwain at welliannau mawr. Mae llawer o siopau bwyd yn cystadlu â'i gilydd i gael sgôr uwch ac rydym yn gobeithio y bydd hyn hefyd yn digwydd yn achos Tystysgrif Mynediad.

#### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru



Jane Hutt AC/AM  
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip  
Deputy Minister and Chief Whip



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/05138/19

Janet Finch Saunders  
Chair - Petitions committee.  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff Bay  
CF99 1NA  
[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

21 March 2019

Dear Janet,

Thank you for your letter of 1 March regarding Petition P-05-806 – call for premises in Wales to be awarded Access Certificates.

I am aware that my predecessor Julie James AM, former Leader of the House and Chief Whip, was supportive of the campaign. Now that it falls within my portfolio, I am also pleased to offer my support to the principles behind this proposal.

Our new Framework, 'Action on Disability: The Right to Independent Living', which has recently been out for consultation, contains a number of commitments around the Social Model of disability, recognising that people with impairments are disabled by barriers that commonly exist in society. These barriers include negative attitudes, and physical and organisational barriers, which can prevent disabled people's inclusion and participation in all walks of life. In principle, the proposal fits well with our commitment to address this and I am keen to explore the issue further.

My officials recently met with representatives of the Bridgend Coalition of Disabled People and Disability Wales to discuss the scheme in more detail. They agreed to work in partnership with Disability Wales to develop a proposal for a scoping study for a potential pilot scheme.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 157**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I also met recently with the Chief Executive of Disability Wales, Rhian Davies, who provided an update on progress with this work, confirming the proposal will include engagement across a number of groups including disabled people and their representative organisations, as well as the Chamber of Commerce and the Federation of Small Businesses.

While I cannot make any commitment to funding at this stage, I am pleased this important piece of work is being taken forward. I have asked my officials to keep me informed of progress and will also ensure the Committee is updated as this work goes forward.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "Jane". The signature is written in a cursive, flowing style.

**Jane Hutt AC/AM**

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip  
Deputy Minister and Chief Whip

## P-05-864 Gwahardd y defnydd o 'Bensaerniaeth Elyniaethus'

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan People Over Profit, ar ôl casglu 120 o lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd y defnydd o "Bensaerniaeth Elyniaethus" gan sefydliadau i atal pobl ddigartref rhag cael lloches ac unrhyw strwythurau stryd eraill sydd wedi'u dylunio i atal neu guddio pobl ddigartref.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Castell-nedd
- Gorllewin De Cymru

Julie James AC/AM  
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/05621/19

Janet Finch-Saunders AM  
Assembly Member for Aberconwy  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Ty Hywel  
Cardiff  
CF99 1NA  
Government.Committee.Business@gov.wales

27 March 2019

Dear Janet,

Thank you for your letter of the 21 March 2019 regarding the Petitions Committee's deliberations on the 'Ban the Use of Hostile Architecture' petition (P-05-864).

In your letter you asked me to consider 3 specific points which I shall address in turn.

On the merits and practicality of the petition's call for a ban or moratorium on the use of hostile architecture in Wales, the issues that homeless people have to face everyday should not be compounded by the design of new development. Those involved in designing public spaces should not actively seek to prevent homeless people finding rest or a place of safety. However, the practicalities of implementing a ban on the use of such architectural features are challenging.

Local Authorities have extensive permitted development rights to install most street furniture. To remove this right would mean that every lamppost, bench and street sign would need planning permission. This would significantly add to the cost and time of implementing new schemes at a time when local authority budgets are constrained and planning authorities are under pressure to determine planning applications quickly. This is not a practical solution when, in most cases, the chosen approach may be acceptable anyway and would be permitted.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.James@gov.Wales](mailto:Correspondence.Julie.James@gov.Wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 160**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

On the request for a Technical Advice Note (TAN) on hostile architecture, this is a very detailed issue to write a specific advice note on. Our existing guidance, 'Manual for Streets', advises that street furniture of this nature should be integrated into the overall appearance of a street. We are currently working with stakeholders to prepare advice and guidance to the built environment profession on implementing the placemaking agenda introduced by the new version of Planning Policy Wales. I will consider if appropriate reference to the use of hostile architecture can be integrated into this work.

Finally, putting planning controls in place in order to provide closer oversight of the retrospective installation of hostile architecture would be very difficult. Most retrospective changes to street furniture or public spaces would not require planning permission and so it would be very difficult to have an oversight of them.

I believe that the best way to deal with this issue is to advise local authorities and developers, through guidance or advice on this matter, so that our public places are accessible and welcoming to everyone.

Yours sincerely,



**Julie James AC/AM**

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol  
Minister for Housing and Local Government

# Eitem 3.14

## P-05-754 Diffyg cymorth i blant ag anableddau mewn argyfwng

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Rebecca Weale ac ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf yn ystod Mehefin 2017, ar ôl casglu 200 llofnod.

### Geiriad y ddeiseb

Yr wyf yn ceisio tynnu sylw at yr angen i dîm argyfwng plant Cwm Taf gydnabod bod angen hanfodol i blant ag anableddau gael cymorth mewn argyfwng, a chael yr hawl i gael eu trin fel unrhyw blentyn arall.

Yr wyf yn fam i bedwar o blant. Mae gan Tom, fy mab canol, anghenion niferus, anawsterau dysgu difrifol, awtistiaeth, anhwylder hwyliau yn ogystal â phroblemau iechyd ychwanegol eraill. Mae Tom yn cyrraedd pwynt argyfwng bob hyn a hyn, sy'n golygu cynnydd mewn ymddygiad ymosodol, gweiddi yn uwch nag arfer, anafu ei hun yn ogystal ag eraill, a llawer o newidiadau eraill mewn ymddygiad. Mae sgiliau cyfathrebu Tom yn hynod gyfyngedig ac nid yw'n gallu dweud wrthym beth sydd o'i le na beth y gallwn ei wneud i helpu. Rydym wedi bod ar bwynt argyfwng gyda Tom, sydd bellach yn 15 oed ac ar ddogrn uchel o feddyginiaethau, lawer gwaith dros y blynyddoedd ac mae'n rhyfeddol nad yw'r sefyllfa wedi gwella o ran cymorth i blant ag anableddau pan fyddant mewn argyfwng. Mae Tom mewn argyfwng ar hyn o bryd, ac wedi bod felly ers peth amser. Ychydig iawn o gymorth yr ydym ni fel teulu wedi'i gael, os o gwbl, i'w helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Rwyf wedi cael gwybod bod tîm argyfwng plant yn bodoli. Fodd bynnag, nid yw'n cefnogi plant ag anableddau! Siawns nad yw plentyn mewn argyfwng, p'un a oes ganddo anableddau neu beidio, yn dal i fod yn blentyn mewn argyfwng. Yn wir, efallai fy mod yn anghywir, ond mewn rhai achosion efallai bod angen mwy o gymorth argyfwng arno. Ni allaf gredu bod y rhaniad hwn yn dal i fod yn dderbyniol yn yr oes hon.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru

**P-05-754 Lack of support for children with disabilities at crisis ( the is a crisis team but do not support children with disabilities), Correspondence – Petitioner to committee, 01.05.19**

With regards to any changes being made to the children's LD and mental health services, well let just say there hasn't been any proactive changes or progress since the start of the petition. There has been a lot of talking, meetings, and promises, however no actual active changes. The crisis team has remained the same, there are still no beds available within Wales. Children and families are still struggling, with little support.

The CAHMS services are limited. No extra support or funding has been provided. I have to admit I am extremely deflated by the lack of progress. As I have stated before I understand the lack of funding, however this has been highlighted and discussed through the petition for just over two financial years.

The venerable children within our area are being let down by our very own system. We should be protecting and supporting these children and families as much as possible. The talking, meetings and promises are all well and good, but money is being spent paying for meeting after meeting, paying each professional to attend to talk about this situation, yet nothing is being achieved and funding is being wasted on 'just talk'.

Kind regards,

Rebecca Weale

## Eitem 3.15

### P-05-842 Rhowch lais i bobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau lleol yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Changing Minds Campaign Group, wedi iddi gasglu 1,387 o lofnodion ar-lein a 2,865 ar bapur, sef cyfanswm o 4,252 o lofnodion.

#### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gydnabod y ffaith nad yw'r lefel bresennol o gyfranogiad pobl ifanc yn y broses o gomisiynu gwasanaethau yn caniatáu i grwpiau ymylol gael eu cynnwys yn y broses honno. Rydym yn gofyn am adolygiad o'r polisïau a'r canllawiau sydd ar waith, ynghyd ag argymhelliad bod canllawiau newydd gorfodol ar waith ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir ar gyfer pobl ifanc.

Mae angen i holl bobl ifanc Cymru gael y cyfle i leisio barn a rhannu eu profiadau mewn modd ystyrlon, a hynny at ddibenion llunio'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cefnogi. Rydym yn gofyn i chi gefnogi'r broses o hyrwyddo newidiadau a fydd yn arwain at gyflawni'r nod hwn. Fel pobl ifanc, rhaid inni gael y cyfle i rannu ein syniadau a'n safbwyntiau ynghylch y prosiectau y mae arnom eu hangen yn ein hardaloedd ni.

Ar hyn o bryd, dim ond cynghorau/fforymau ieuencid sy'n destun ymgynghoriadau, ac nid yw'r drefn hon yn cynrychioli'r rheini sy'n ei chael yn anodd bod yn rhan o fforymau o'r fath, fel yr un o bob pump o oedolion ifanc sydd ag anhwylder iechyd meddwl y gellir gwneud diagnosis ohono. Mae angen llwyfan ar y bobl ifanc hynny na fyddant, o bosibl, yn gallu cymryd rhan yn y cynlluniau presennol yn sgil eu problemau iechyd meddwl, er mwyn iddynt gael cyfle i leisio barn ar wasanaethau a phrosiectau sy'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Rydym yn grŵp o bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r Prosiect Newid Meddyliu, sy'n cael ei gydlynu gan sefydliad Newport Mind. Disgwylir i'r prosiect hwn gollu arian ym mis Tachwedd. Yn sgil y sefyllfa hon, rydym wedi bod yn dysgu am y broses gomisiynu, sydd wedi arwain at greu'r ddeiseb hon ac i'n hymgyrch ehangach, sef #changeit. Bydd cynnwys pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl yn uniongyrchol y



broses gomisiynu yn hwyluso'r broses o deilwra gwasanaethau ac yn gwella hyder y bobl a dargedir gan y gwasanaethau a ddarperir.

"Roedd y cyfle i gyfrannu at y prosiect hwn yn gyfle imi wir ddeall pryderon pobl ifanc a'r problemau y maent yn eu hwynebu. Heb fod y pryderon hyn yn cael eu codi a'u cynnwys wrth lansio unrhyw bolisi sy'n effeithio ar bobl ifanc, bydd unrhyw fenter sy'n effeithio arnynt yn ddiffygiol".

### **Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae'r ddogfen 'Dull Gweithredu Seiliedig ar Hawliau Plant yng Nghymru' gan Gomisiynydd Plant Cymru yn fframwaith ar gyfer ymgorffori hawliau plant mewn gwasanaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc. Mae'r rhain yn ganllawiau, ac felly nid ydynt yn orfodol. Maent yn seiliedig ar Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), sy'n amlinellu hawl plant i fod yn rhan o greu a gweithredu polisiau—yn enwedig y rhai sy'n effeithio ar eu demograffig nhw.

Mae Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru ar gyfer 2016/2017 (yr Adroddiad) yn tynnu sylw penodol at y ffaith bod y Comisiynydd yn dymuno gweld pobl ifanc yn cael eu hintegreiddio yn y broses gomisiynu i raddau mwy helaeth.

Mae'r canllawiau cyfredol ar gyfer cyfranogiad pobl ifanc yng Nghymru wedi'u cynnwys yn nogfen 'Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru Arfer Da 2016', ymhlith pethau eraill. Mae'r saith 'safon graidd' sydd wedi'u nodi yn y canllaw yn gamau cychwynnol ardderchog.

O ran y safonau a'r dulliau hyn, er eu bod yn cael eu bodloni'n rhannol mewn rhai awdurdodau yng Nghymru, mae'r ffaith nad ydynt yn orfodol yn golygu nad ydynt yn ddigonol ar gyfer sicrhau atebolrwydd ynghylch yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc.

Rydym yn ceisio sicrhau bod gan bobl ifanc o grwpiau ymylol lais yn y broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal â sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru o safon ragorol a chyson. Mae ein deiseb yn cyd-fynd ag Argymhelliad 10 o'r adroddiad 'Cadernid Meddwl', sy'n tynnu sylw at lefelau'r gwasanaethau iechyd meddwl sy'n cael

eu darparu i bobl ifanc ar hyn o bryd, ac yn ategu'r gwaith a wneir gan y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

Heb newid y canllawiau presennol, bydd pobl ifanc ledled Cymru yn parhau i gael eu gwthio i'r cyrion. Yn benodol, bydd y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl neu anghenion ychwanegol, sef y rhai nad ydynt, o bosibl, yn gallu cymryd rhan yn y mentrau cyfranogiad ieuenctid cyfyngedig sydd ar gael ar hyn o bryd, yn parhau i'w chael yn anodd lleisio barn.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gorllewin Casnewydd
- Dwyrain De Cymru



Ein cyf/Our ref VG/05723/19

Janet Finch-Saunders AM  
Chair - Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

[Government.Committee.Business@gov.wales](mailto:Government.Committee.Business@gov.wales)

22 March 2019

Dear Janet,

David Rowlands AM, the previous Chair of the Petitions Committee wrote to me on 1 March regarding Petition P-05-842 – Give young people a voice when commissioning local services in Wales.

I note the evidence that has been received from the Children's Commissioner for Wales and her proposal that new duties should be placed on public bodies to follow the requirements of the UNCRC when making decisions and commissioning services.

As the Committee will be aware, there have been numerous calls in recent years for the Welsh Government to undertake legislative action to strengthen and advance equality and human rights in Wales, particularly in the context of the UK's impending exit from the EU. This includes a call for further incorporation of the UN Convention on the Rights of the Child. In response, Ministers have asked officials to scope options to achieve such strengthening, including potentially embedding further UN treaties in Welsh law, as well as stronger regulation, guidance and monitoring. The work will take account of a new commitment by the Welsh Government to commence the socio-economic duty in part one of the Equality Act 2010.

The aim of this would be to consider how such actions would interact with the existing framework provided by the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2014. It will also look at whether further integration will improve effectiveness with regard to promoting equality.

The initial phase is linked to the Gender Equality Review and will clarify the conceptual framework for equality as understood within the public sector general and specific duties.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre  
0300 0604400

[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

It is intended that Welsh Government will consult on any legislative models to emerge from the research, including with those public bodies which may be affected by proposed new duties. The Welsh Commissioners along with stakeholder representatives will be involved in the consultation process in connection with any identified options which are pursued.

A working group, consisting of key stakeholders, including officials from the Welsh Commissioners' offices, academics and Welsh Government officials is being set up. I will provide the Committee with more details when they are available.

As requested, I will write to public bodies to reminding them that they are expected to follow existing guidance in relation to participation of children in decisions that might affect them.

I hope this information is helpful.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive style with a large initial 'V' and a long, sweeping tail on the 'g'.

**Vaughan Gething AC/AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Janet Finch-Saunders AM  
Chair – Petitions Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

Dear Ms. Saunders,

We are writing in response to Mr Gething’s letter to the Petitions Committee dated 22 March 2019.

Firstly, we’d like to thank Mr Gething for his response, and would like to note the excellent initiatives and legislation that Mr Gething has mentioned, including the Gender Equality Review. We believe that this is an important issue that must be addressed.

Regrettably, Mr Gething seems to have not acknowledged the main purpose of the petition, which was to recommend a mandatory consultation process with young people when commissioning services that affect them.

Additionally, Mr Gething refers to Part 1 of the Equality Act 2010. While undoubtedly well-meaning legislation, the socio-economic duty in Part 1 is of little relevance to the outcomes of this Petition. Section 1(1) of Part 1 states:

“An authority to which this section applies must, when making decisions of a strategic nature about how to exercise its functions, have due regard to the desirability of exercising them in a way that is designed to reduce the inequalities of outcome which result from socio-economic disadvantage.”

Our Petition does not relate to socio-economic disadvantage. Whilst poverty is a proven contributor to poor mental health, our Petition looks at the broader scope of mental health rather on its specific facets or contributors.

We do note the importance of the UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC), however this is considered merely in order to “scope options.” This is alongside “potentially” looking at further treaty integration and stronger “regulation, guidance and monitoring.” Again, there is no firm commitment here, a point our Petition seeks to address.

Further, there is still no commitment to include young people in the consultation or commissioning process. The only named members of any mentioned working group are officials from the Children’s Commissioner for Wales’s offices, academics and Welsh Government officials. While key components of any working group, one important demographic has been left out – the young people who are personally affected by any initiatives or legislation put in place. In effect, Mr Gething has, in this sentence, demonstrated the reason our Petition was presented in the first place. This is to include young people in the entire lifecycle of services which affect them – from conception, through to consultation and implementation.

Finally, Mr Gething's undertaking to writing to public bodies to remind them to abide by guidance of children's participation is problematic in two respects. The first is that he is only referring to the guidance for children. Our Petition looks at young people up to the age of 25, not just children. Secondly, in our view, only writing a reminder to public bodies is tokenistic. More needs to be done than issuance of a simple reminder.

We would like to thank the Petitions Committee for their work on this issue, and would ask that they continue their analysis and debate of our Petition and the information provided.

Once again if we can provide any further assistance please do not hesitate to ask.

Kind regards,

**The #Changeit Campaign Group**

## **P-05-846 Achub Ysbyty Tywysog Philip Llanelli**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Sospan. Mae'r ddeiseb wedi casglu 12,745 o lofnodion.

### **Geiriad y ddeiseb**

